



Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Diwygiadau i Bwerau a Gweithdrefnau Prynu Gorfodol

Cynigion i ddiwygio:

- (a) deddfwriaeth sylfaenol i foderneiddio'r pwerau a'r gweithdrefnau galluogi statudol ar gyfer prynu gorfodol
- (b) is-ddeddfwriaeth i symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau a sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â phrynu gorfodol

Mawrth 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Ymatebion	4
3. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 1	9
4. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 2	13
5. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 3	17
6. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 4	21
7. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 5	26
8. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 6	31
9. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 7	36
10. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 8	40
11. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 9	44
12. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 10	47
13. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 11	51
14. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 12	55
15. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 13	58
16. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 14	61
17. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 15	65
18. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 16	68
19. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 17	72
20. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 18	75
21. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 19	78
22. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 20	81
23. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 21	84
24. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 22	87
25. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 23	90
26. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 24	95
27. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 25	102
28. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 26	104
ATODIAD A - RHESTR O'R YMATEBWYR	106

1. Cyflwyniad

- 1.1 Lansiodd yr 'Ymgynghoriad ar Ddiwygiadau i Bwerau a Gweithdrefnau Gorfodol' ar 13 Hydref 2020 ac roedd ar agor ar gyfer ymatebion am gyfnod o 12 wythnos tan 19 Ionawr 2021. Roedd cyfanswm o 23 o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori, a darparwyd ffurflen safonol er hwylustod. Gwnaed sylwadau y tu allan i'r cwestiynau safonol hefyd.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf. Mae wedi'i rhannu'n ddwy adran.
- 1.3 Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb ystadegol cyffredinol o'r ymgynghoriad a manylion ynglŷn â sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.
- 1.4 Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gyflwynwyd. Bydd hyn yn cynnwys:
- Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o dan bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad.
 - Dadansoddiad ystadegol o'r safbwyntiau a fynegwyd ar bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad, lle y gellid llunio ystadegau.
 - Crynodeb a dadansoddiad o'r themâu allweddol sy'n deillio o bob cwestiwn.
 - Ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadansoddiad.
 - Esboniad o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn dilyn yr ymateb i bob cwestiwn.
- 1.5 Wrth ddadansoddi a chrynhofio'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn, nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r canlynol:
- **Materion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad a chymhwysedd Gweinidogion Cymru:** Lle y gwnaed sylwadau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn, ond mewn perthynas â materion y tu allan i gwmpas y cwestiwn neu gymhwysedd cyfreithiol Gweinidogion Cymru, gwnaed ymdrechion i'w crynhoi o dan y cwestiwn cywir. Fodd bynnag, nid ymdrinnir â sylwadau sydd y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn a chymhwysedd cyfreithiol Gweinidogion Cymru.
 - **Sylwadau sy'n dehongli'r polisi arfaethedig a'r ddeddfwriaeth gyfredol yn anghywir:** Cyflwynwyd ymatebion sy'n gofyn am newidiadau polisi, sydd mewn gwirionedd, naill ai'n adlewyrchu'r bwriadau a nodir yn y papur ymgynghori neu'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol na fwriedir ei newid.

2. Ymatebion

- 2.1 Ar 13 Hydref 2020, hysbyswyd mwy na 300 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, drwy'r e-bost bod y ddogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi. Dewiswyd y rhain o'r rhestr ymgynghori graidd sy'n cael ei chadw gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, yn ogystal â nifer o gyrff eraill a fynegodd ddiddordeb. Roedd hyn yn cynnwys pob awdurdod cynllunio lleol ("ACLLau") yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau buddiant arbennig a grwpiau eraill. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru. Hefyd, cyflwynodd swyddogion y cynigion mewn dau ddigwyddiad ymgynghori rhithwir a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Prynu Gorfodol, lle'r oedd 130 o weithwyr proffesiynol yn bresennol.
- 2.2 Cafwyd 25 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i gyflwyno ymateb. Mae pob ymateb i'r ymgynghoriad wedi cael ei ddarllen a'i ystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.
- 2.3 Darparwyd ffurflen ymgynghori fel atodiad i'r ddogfen ymgynghori ac roedd ar gael ar wahân ar wefan Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi i ba gategori o blith chwe chategori bras o ymatebwyr yr oeddent yn perthyn. Dengys Tabl 1 y dadansoddiad o'r ymatebwyr:

Tabl 1 - Dadansoddiad o'r Ymatebwyr		
Categori	Rhif	% of total
Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	2	8%
Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	8%
Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	8	32%
Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	5	20%
Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	7	28%
Y Sector Gwirfoddol	1	4%
Cyfanswm	25	

- 2.4 Cododd cwestiynau 1 i 23 yn yr ymgynghoriad gwestiynau penodol ynglŷn â pholisi. Roedd y cwestiynau yn gofyn am un o'r ymatebion canlynol; 'ydw', 'ydw (yn amodol ar sylwadau)' neu 'nac ydw'. Cyflwynir trosolwg ystadegol o'r ymatebion yn dangos natur yr ymatebion i'r cwestiynau fel rhan o'r dadansoddiad o bob cwestiwn yn adran 3 o'r adroddiad hwn. Lle nad oedd ymatebwyr wedi nodi ateb penodol, cafodd y rhain eu hystyried a'u cofnodi fel 'Ddim yn Gwybod'. Lle y darparodd ymatebwyr sylwadau ac roedd eu barn yn glir, ond ni wnaethant nodi ateb penodol, neilltuwyd naill ai 'ydw' (yn amodol ar sylwadau) neu 'nac ydw' i'r ymatebion hyn.

Tabl 2: Cwestiynau'r Ymgynghoriad	
C1	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 er mwyn gallu cyfeirio hysbysiadau safle sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i Orchymyn Prynu Gorfodol at "berchennog" neu "ddeiliad" y tir lle na all yr awdurdod caffael ddod o hyd i enw person sy'n meddiannu'r tir neu sydd â buddiant yn y tir ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol? Os na, pam?
C2	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 er mwyn caniatáu i ddogfennau sy'n gysylltiedig â Gorchmynion Prynu Gorfodol (gan gynnwys mapiau cysylltiedig) gael eu hadneuo i'w harchwilio mewn lleoliadau ffisegol ac ar ffurf electronig, er enghraifft, ar wefan awdurdod caffael? Os na, pam?
C3	Ydych chi'n cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 i'w gwneud yn ofynnol bod hysbysiadau papur newydd a gyhoeddir o dan y Ddeddf yn cael eu cyhoeddi yr un pryd yng nghopiau ffisegol a digidol (lle bo un) papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal lle mae tir y gorchymyn prynu gorfodol? Os na, pam?
C4	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 er mwyn caniatáu i ddogfennau a hysbysiadau gael eu cyflwyno drwy ddulliau cyfathrebu electronig yn ogystal â'r dulliau darparu gwasanaethau eraill a ganiateir eisoes o dan y Ddeddf? Os na, pam?
C5	Lle y bydd Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'n briodol ystyried gwrthwynebiadau i Orchymyn Prynu Gorfodol drwy'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn unig, a ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 er mwyn caniatáu i Orchymynion Prynu Gorfodol o'r fath gael eu hystyried gan ddefnyddio cyfuniad o'r gweithdrefnau canlynol yn unol ag amserlen a bennir gan yr arolygydd: • sylwadau ysgrifenedig, • gwrandawriad cyhoeddus, • ymchwiliad cyhoeddus? Os na, pam? [Noder. Ni fydd y diwygiad arfaethedig yn berthnasol i'r Gorchmynion Prynu Gorfodol hynny lle y bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn am ganiatâd y gwrthwynebwyr nad ymdriniwyd â'u gwrthwynebiadau i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig].
C6	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981") er mwyn caniatáu i awdurdodau caffael gadarnhau eu Gorchmynion Prynu Gorfodol eu hunain o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn y canlynol: (a) paragraff 40(a) o'r ddogfen ymgynghori ar yr amod fod y Gweinidog â chyfrifoldeb wedi dyrannu tystysgrif yn unol ag adran 16(2) o Ddeddf 1981 a bod yr amodau a nodir yn adran 14A(3) o Ddeddf 1981 wedi'u bodloni; a (b) paragraff 40(b) o'r ddogfen ymgynghori ar yr amod bod Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno tystysgrif yn unol ag adran 19(1) o Ddeddf 1981 a bod yr amodau a nodir yn adran 14A(3) o Ddeddf 1981 wedi'u bodloni? Os na, pam?

C7	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981") er mwyn caniatáu i Orchymyn Prynu Gorfodol a wneir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Tai 1985 gael ei gadarnhau o dan yr amgylchiadau canlynol: (a) os bydd sylw wedi'i wneud gan ymgymerydd statudol o dan adran 16(1) o Ddeddf 1981, neu baragraff 3(1) o Atodlen 3 iddi, heb gais am dystysgrif Deddf 1981 o dan adran 16(2) neu baragraff 3(2) o Atodlen 3, neu lle y gwrthodir cais o'r fath am dystysgrif neu y cyflwynir y cais ar ôl i'r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol ddirwyn i ben, (b) os caiff y Gorchymyn Prynu Gorfodol ei gadarnhau ar y cyd gan y Gweinidog priodol a'r Gweinidog Cymru sy'n cadarnhau? Os na, pam?
C8	A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno terfyn amser statudol o 12 wythnos ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau ar Orchymynion Prynu Gorfodol a wneir o dan y Deddfau canlynol: • Deddf Llywodraeth Leol 1972, • Deddf Tai 1985, • Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; • Deddf Cynllunio (Cynllunio Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990? Os na, pam?
C9	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Tai 1985 er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wrthod cadarnhau Gorchymyn Prynu Gorfodol a wneir o dan adran 17 o'r Ddeddf honno oni bai eu bod yn fodlon ei bod yn debygol y bydd angen y tir er mwyn darparu tai o fewn cyfnod o chwe mlynedd? Os na, pam?
C10	A ydych yn cytuno y dylai Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 gael ei diwygio i roi rhyddhad o dreth trafodiadau tir yn ar ôl i awdurdod lleol wneud gorchymyn prynu gorfodol at ddibenion hwyluso'r mathau canlynol o ddatblygiad gan awdurdod lleol: • datblygu tai; • ailddatblygu neu wella eiddo gwag? Os na, pam?
C11	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn caniatáu i hysbysiadau a dogfennau gael eu cyflwyno ar ffurf electronig ar yr amod y sicrheir y bydd partïon nad oes ganddynt fynediad electronig neu sydd wedi gofyn am gopiau caled yn parhau i dderbyn y wybodaeth berthnasol drwy'r post? Os na, pam?
C12	Lle mai Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad ar Orchymyn Prynu Gorfodol, a ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau caffael gael eu hysbysu am y terfyn amser ar gyfer cyhoeddi penderfyniad o fewn 10 diwrnod o ddiwedd yr ymchwiliad cyhoeddus? Os na, pam?

C13	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn caniatáu i gyfarfodydd cyn ymchwiliad gael eu cynnal dros y ffôn neu drwy gyfleuster fideogynadleda ar yr amod na fyddai hynny'n golygu y byddai unrhyw barti y mae'r Gorchymyn Prynu Gorfodol yn berthnasol iddo o dan anfantais? Os na, pam?
C14	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn dileu'r gofyniad i gyflwyno hysbysiad am y canlynol: (a) y bwriad i gynnal cyfarfod cyn ymchwiliad drwy gyhoeddi hysbysiad mewn un papur newydd neu fwy (b) dyddiad, amser a lleoliad cyfarfod cyn ymchwiliad naill ai drwy osod hysbysiad safle neu drwy gyhoeddi hysbysiad mewn un papur newydd neu fwy Os na, pam?
C15	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn egluro y dylid cyhoeddi hysbysiadau am ymchwiliad cyhoeddus mewn un papur newydd sy'n cael ei ddosbarthu yn yr ardal leol lle y lleolir y tir? Os na, pam?
C16	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn gallu cyflwyno hysbysiad am ymchwiliad cyhoeddus lle na ellir olrhain perchnogion neu ddeiliaid y tir neu lle y byddant yn parhau'n anhysbys ar ôl i'r awdurdod caffael gynnal ymholiadau rhesymol? Os na, pam?
C17	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn caniatáu mai dim ond lle na ddarparwyd copïau o Ddatganiad o'r Rhesymau i'r bobl gymwys pan gaiff Gorchymyn Prynu Gorfodol ei wneud y bydd yn ofynnol cyflwyno datganiadau amlinellol? Os na, pam?
C18	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn cynyddu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno Datganiadau o'r Achosion i ddim hwyrach na phedair wythnos cyn y dyddiad a drefnwyd ar gyfer cynnal yr ymchwiliad cyhoeddus lle na chynhelir cyfarfod cyn ymchwiliad rheol 4 (cyfarfod cyn ymchwiliad a gynnullir gan Weinidogion Cymru? Os na, pam?
C19	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ehangu'r terfyn amser o 5 wythnos ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig am ymchwiliad cyhoeddus? Os na, pam?
C20	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn caniatáu i ddogfennau sy'n gysylltiedig â Gorchymynion Prynu Gorfodol (gan gynnwys mapiau cysylltiedig) gael eu hadneuo i'w harchwilio mewn lleoliadau ffisegol ac ar ffurf electronig, er enghraifft, ar wefan awdurdod caffael? Os na, pam?
C21	Ydych chi'n cytuno y dylid diwygio'r drefn ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus i'w gwneud yn ofynnol bod hysbysiadau papur newydd a gyhoeddir o dan y drefn yn cael eu cyhoeddi yr un pryd yng nghopïau ffisegol a digidol (lle bo un) papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal lle mae tir y gorchymyn prynu gorfodol? Os na, pam?

C22	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig er mwyn cynnwys gofyniad y dylai arolygydd gynnal ymweliad safle o fewn 15 wythnos o'r dyddiad ar gyfer dechrau'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig i Orchymyn Prynu Gorfodol? Os na, pam?
C23	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig er mwyn nodi mai'r dull rhagnodedig ar gyfer rhoi cydsyniad i ddefnyddio'r weithdrefn yw yr ystyrir bod pob gwrthwynebydd nad ymdriniwyd â'i wrthwynebiadau wedi rhoi ei gydsyniad oni fydd yn hysbysu Gweinidogion Cymru ei fod am i ymchwiliad cyhoeddus gael ei gynnal? Os na, pam?
C24	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag isod i wneud sylwadau os gwelwch yn dda.
C25	Hoffem gael gwybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion i wneud y canlynol: (a) moderneiddio pwerau a gweithdrefnau prynu gorfodol statudol wedi'u hategu gan ddeddfwriaeth sylfaenol, (b) gwella prosesau technegol er mwyn symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus a sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â phrynu gorfodol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?
C26	Esboniwch hefyd, yn eich barn chi, sut y bydd y cynigion yn gwneud y canlynol: (a) moderneiddio pwerau a gweithdrefnau prynu gorfodol statudol wedi'u hategu gan ddeddfwriaeth sylfaenol, (b) gwella prosesau technegol er mwyn symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus a sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â phrynu gorfodol gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 1

C1	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 er mwyn gallu cyfeirio hysbysiadau safle sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i Orchymyn Prynu Gorfodol at "berchennog" neu "ddeiliad" y tir lle na all yr awdurdod caffael ddod o hyd i enw person sy'n meddiannu'r tir neu sydd â buddiant yn y tir ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig caniatáu cyfeirio at hysbysiadau safle sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i orchymyn prynu gorfodol yn y disgrifiadau o "berchennog" neu "ddeiliad" y tir lle na all yr awdurdod caffael ddod o hyd i enw person sy'n meddiannu'r tir neu sydd â buddiant yn y tir ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	2	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	7	1	0	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	4	1	0	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	3	2	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		16	7	0	2	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	23	0
Cyfanswm y Ganran	100%	0%

Adolygiad ystadegol

- 3.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 3.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 1 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol y bydd y cynnig yn atal oedi gyda'r broses gorchmynion prynu gorfodol.
- Rhaid cynnal ymchwiliadau rhesymol a darparu canllawiau ar yr hyn sy'n cael ei ystyried yn "ymchwiliad rhesymol".
- Dylai awdurdodau caffael gadw tystiolaeth o ymchwiliadau y maent wedi ymgymryd â hwy.

Trosolwg

- 3.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill, yng nghyswllt eiddo gwag, fod angen gallu dod o hyd i berchnogion ar frys. Hefyd, amlinellodd ymatebydd arall o'r sector Eraill fod y broses bresennol o ddod o hyd i dirfeddianwyr anhysbys/nad oes modd dod o hyd iddynt, yn gymhleth, yn ddur ac yn araf. Roedd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant yn ystyried y byddai delio â lleiniau o dir heb eu cofrestru yn welliant dymunol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Nododd Awdurdod Cynllunio Lleol arall fod angen diffiniad o'r dehongliad o "berchennog" neu "ddeiliad".
- 3.4 Dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill na ddylai awdurdodau caffael gyflwyno hysbysiad i berchennog neu ddeiliad ar y safle er hwylustod.
- 3.5 Awgrymodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant fod y cynnig yn debygol o atal oedi gyda'r broses gorchmynion prynu gorfodol er bod angen canllawiau i roi rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei ystyried yn "ymchwiliad rhesymol". Yn yr un modd, gofynnodd ymatebydd o'r sector Eraill am ganllawiau ar yr hyn mae "rhesymol" yn ei olygu.
- 3.6 Dywedodd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes y dylai awdurdodau caffael ddangos eu bod wedi rhoi cynnig ar bob ymholiad ac na ddylid ei ddefnyddio fel 'llwybr byr'. Yn yr un modd, tynnodd ymatebydd o'r sector Eraill sylw at y ffaith y dylai awdurdodau caffael gadw cofnod o ymchwiliadau rhesymol os yw'n her i'r gorchymyn prynu gorfodol.
- 3.7 Amlinellodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol, er eglurder ac er mwyn caniatáu i gymunedau lleol ddeall y broses gorchmynion prynu gorfodol yn llawn, y dylid cymryd pob cam rhesymol i ganfod tirfeddianwyr ac y dylai awdurdodau caffael roi tystiolaeth o hyn. Hefyd, ystyrir bod y cynnig yn briodol gan ei fod yn rhoi cyhoeddusrwydd i ffaith y gorchymyn prynu gorfodol arfaethedig ac yn caniatáu i'r gymuned leol gymryd rhan yn y broses.

- 3.8 Ystyriodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, er bod gwerth mewn cyfeirio hysbysiadau safle at y perchennog neu'r deiliad, fod yn rhaid i awdurdodau caffael gadw prawf eu bod wedi'u derbyn er mwyn sicrhau bod y person priodol yn derbyn y dogfennau. Hefyd, mae risg y gallai fod gan yr eiddo nifer o berchenogion/deiliaid ac mai dim ond un sydd wedi cael yr hysbysiad, neu fod yr hysbysiad wedi'i dderbyn gan rywun nad oes ganddo fuddiant cyfreithiol yn yr eiddo ei hun (er enghraifft, trwyddedai neu ddeiliad dros dro), ac ni cheir trosglwyddo'r hysbysiad. Ar ben hynny, mae angen protocol clir ynghylch y chwiliadau angenrheidiol (rhai dogfennol a ffisegol ar lawr gwlad) sy'n ofynnol cyn cyfeirio hysbysiadau at y "perchennog" neu'r "deiliad" oherwydd mae risg y bydd hyn yn cael ei ddefnyddio heb ymdrech wirioneddol i ganfod pwy yw'r perchennog.
- 3.9 Awgrymodd un o'r Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes y byddai'n fwy priodol cyflwyno proses hysbysu hybrid 'hollgynhwysol' lle nodir y perchennogion go iawn ond bod proses hysbysu 'gyffredinol' yn dal i fodoli.
- 3.10 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant (na roddodd ymateb 'Ydw/Nac ydw') fod hon yn ymddangos yn ffordd resymol o foderneiddio'r broses gorchmynion prynu gorfodol.

C1 Ymateb Llywodraeth Cymru

Canllawiau ar ymchwiliad rhesymol a chael tystiolaeth angenrheidiol

Mae cyfraith achosion yn pennu beth mae "ymchwiliad rhesymol" yn ei olygu a byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys canllawiau ac arferion gorau ar gyfer y gwahanol ddulliau sydd ar gael i awdurdodau caffael er mwyn cynnal ymchwiliad rhesymol. Bydd y canllawiau a'r arferion gorau yn amlinellu camau y dylid eu cymryd i roi tystiolaeth bod ymchwiliad rhesymol wedi cael ei gynnal. Rhoddir enghreifftiau hefyd o'r mathau o dechnegau cyfeirnod tir y dylai awdurdodau caffael eu defnyddio i ganfod manylion tirlfeddianwyr cyn gosod hysbysiadau safle y rhoddir sylw iddynt yn y disgrifiad o "berchennog" neu "ddeiliad".

Diffinio "perchennog" neu "ddeiliad"

Mae diffiniad ar gyfer "perchennog" a "deiliad" eisoes wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth berthnasol ac fe ddibynnir arno.

Sicrhau prawf cywir o dderbyniad

Mae ein cynnig yn ymwneud â gosod hysbysiadau safle o dan adran 11(3) o Ddeddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981") ar neu ger tir a gynhwysir yn y gorchmyn prynu gorfodol yn unig; nid yw'n ymwneud â chyflwyno hysbysiadau unigol o dan adran 12 o'r Ddeddf honno.

Proses hysbysu hybrid

Mae'r drefn statudol ar gyfer cyhoeddi gorchmynion prynu gorfodol yn mynnu bod pawb sydd â budd yn y tir yn derbyn hysbysiadau unigol. Ar ôl cynnal ymchwiliadau rhesymol ac ymarferion cyfeirnod tir, lle mae buddiannau mewn tir yn hysbys, bydd awdurdodau caffael yn mynd rhagddynt i gyflwyno hysbysiadau gan ddefnyddio manylion personol.

Mae ein cynnig yn ymwneud â gosod hysbysiadau safle o dan adran 11(3) o Ddeddf 1981 ar neu ger tir a gynhwysir yn y gorchymyn prynu gorfodol yn unig; nid yw'n ymwneud â chyflwyno hysbysiadau unigol o dan adran 12 o'r Ddeddf honno.

Y camau nesaf

- 3.11 Mae Adran 11(4) o Ddeddf 2018 yn cael ei diwygio er mwyn caniatáu i hysbysiadau safle a osodir ar neu ger tir a gynhwysir mewn gorchymyn prynu gorfodol gael eu nodi yn y disgrifiad o "berchennog" neu "ddeiliad" y tir lle na all yr awdurdod caffael ddod o hyd i enw person sy'n meddiannu'r tir neu sydd â buddiant yn y tir ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol.
- 3.12 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi a bydd yn darparu canllawiau ac arferion gorau ar gyfer y gwahanol ddulliau sydd ar gael i awdurdodau caffael er mwyn cynnal ymchwiliad rhesymol.

4. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 2

C2	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 er mwyn caniatáu i ddogfennau sy'n gysylltiedig â gorchmynion prynu gorfodol (gan gynnwys mapiau cysylltiedig) gael eu hadneuo i'w harchwilio mewn lleoliadau ffisegol ac ar ffurf electronig, er enghraifft, ar wefan awdurdod caffael? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig caniatáu i ddogfennau sy'n gysylltiedig â gorchmynion prynu gorfodol (gan gynnwys mapiau cysylltiedig) gael eu hadneuo i'w harchwilio mewn lleoliadau ffisegol ac ar ffurf electronig, er enghraifft, ar wefan awdurdod caffael.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	1	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	4	0	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	4	1	0	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	4	1	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		15	8	0	2	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	23	0
Cyfanswm y Ganran	100%	0%

Adolygiad ystadegol

- 4.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 4.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 2 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol y bydd y cynnig yn cynyddu'r ymgysylltu â gorchmynion prynu gorfodol unigol.
- Ni ddylai adneuo electronig fod ar draul adneuo ffisegol.
- Gall cynhyrchu cynlluniau electronig ar raddfa fawr i'w hadneuo ar wefan fod yn her i rai awdurdodau lleol.
- Adneuo electronig yw'r unig ddull y dylid ei ddefnyddio oni ofynnir am gopi ffisegol.

Trosolwg

- 4.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Dywedodd un ymatebydd o'r sector Eraill y byddai unrhyw gynnydd yn y broses o adneuo dogfennau ar y rhyngwrdd ac mewn lleoliad ffisegol dynodedig yn dod â chynigion gorchmynion prynu gorfodol i sylw cynulleidfau ehangach. Roedd un ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant yn cefnogi rhoi copïau ffisegol ac electronig o ddogfennau gorchmynion prynu gorfodol ar adnau. Yn yr un modd, roedd ymatebydd o'r sector Eraill yn cytuno ag adneuo dogfennau gorchmynion prynu gorfodol yn electronig, ond dywedodd ei bod yn hanfodol bod dogfennau papur ar gael hefyd. Dywedodd un Awdurdod Cynllunio Lleol ei fod o blaid ei gwneud yn ofyniad statudol bod awdurdodau caffael yn cyhoeddi dogfennau gorchmynion prynu gorfodol ar eu gwefannau.
- 4.4 Nododd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes na ddylai adneuo dogfennau'n electronig ddisodli'r rhai ffisegol ac y dylai'r ddau opsiwn fod ar gael a dylid rhoi'r un pwys iddynt. Yn yr un modd, roedd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant yn cytuno â'r cynnig, yn amodol ar y canlynol:
- (a) bod copïau ffisegol ar gael o hyd i'w harchwilio gan y rheini nad ydynt yn gallu cael gafael ar wybodaeth electronig, a
 - (b) bod y ffaith bod dogfennau hynny ar gael i'w harchwilio'n ffisegol yn cael ei chyfleu mewn amryw o ffyrdd, nid drwy gyfathrebu electronig yn unig.
- 4.5 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant (na roddodd ymateb 'Ydw/Nac ydw') fod adneuo dogfennau gorchmynion prynu gorfodol i'w harchwilio mewn lleoliadau ffisegol ac mewn fformat electronig yn ymddangos yn ffordd resymol o foderneiddio'r broses gorchmynion prynu gorfodol.
- 4.6 Nododd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant y byddai cynhyrchu cynlluniau ar raddfa fawr ar ffurf electronig yn her i lawer o awdurdodau lleol. Nododd yr ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant y byddai adnoddau yn ffactor pwysig ar gyfer awdurdodau caffael, o ran sgiliau personél a gallu TG.

- 4.7 Roedd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol yn ystyried y cynnig yn briodol gan y bydd yn arwain at fwy o ymgysylltu a gwell dealltwriaeth o orchymyn prynu gorfodol penodol. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod amrywiaeth o ffyrdd i'r cyhoedd a'r partion yr effeithir arnynt gael gafael ar wybodaeth ynghylch gorchmynion prynu gorfodol, gan gofio nad yw llawer o bobl yn defnyddio'r rhyngwyd (yn enwedig pobl hŷn) a bod llawer o ardaloedd â chysylltedd gwael. Ar ben hynny, ni ddylai'r cymunedau hyn fod dan anfantais o ganlyniad i gymryd rhan yn y broses gorchmynion prynu gorfodol.
- 4.8 Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai'n ddigon i hysbysiadau a bennir nodi bod copïau papur o holl ddogfennau'r gorchymyn prynu gorfodol ar gael ar gais drwy ysgrifennu at y person a enwir ar yr hysbysiad neu anfon e-bost ato. Dylid hefyd ysgrifennu hyn yn Neddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981") er eglurder. Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol arall mai adneuo electronig yw'r unig ddull y dylid ei ddefnyddio oni ofynnir am gopi ffisegol.
- 4.9 Amlinellodd ymatebydd o'r sector Eraill y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol roi cyhoeddusrwydd i adneuo dogfennau gorchmynion prynu gorfodol, er enghraifft, drwy gylchlythrau e-bost rheolaidd gan gynghorwyr sir/tref. Ar ben hynny, dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid lleol am y broses o wneud penderfyniadau.

C2 Ymateb Llywodraeth Cymru

Cadw dulliau cyhoeddusrwydd eang ac adneuo dogfennau gorchmynion prynu gorfodol

Rydym yn cynnig cadw'r gofynion cyhoeddusrwydd presennol ar gyfer hyrwyddo'r broses o wneud gorchymyn prynu gorfodol, hy, hysbysiadau safle ffisegol, hysbysiadau unigol, hysbysiadau papur newydd (ffisegol a digidol) a gofynion adneuo ffisegol, ochr yn ochr â'n cynnig i adneuo dogfennau gorchymyn prynu gorfodol yn electronig. Bydd hyn yn gwella mynediad at ddogfennau gorchmynion prynu gorfodol ac yn cynyddu cyfranogiad yn y broses gorchmynion prynu gorfodol.

Adneuo dogfennau gorchmynion prynu gorfodol yn electronig yn unig a darparu dogfennau ffisegol ar gais

Ein cynnig yw cynyddu ac ehangu ymgysylltiad â'r broses gorchmynion prynu gorfodol. Rydym o'r farn y byddai dileu'r gofyniad i osod dogfennau gorchmynion prynu gorfodol ar adnau mewn lleoliadau ffisegol yn cael effaith negyddol ar ymgysylltu ac yn rhoi rhai aelodau o'r gymuned dan anfantais. Gallai hyn arwain at oblygiadau i awdurdodau caffael y sector cyhoeddus o ran cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os bydd aelodau o'r gymuned sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu rhoi dan anfantais.

Rydym yn cynnig cadw'r gofynion cyhoeddusrwydd presennol ar gyfer hyrwyddo'r broses o wneud gorchymyn prynu gorfodol, hy, hysbysiadau safle ffisegol, hysbysiadau unigol, hysbysiadau papur newydd (ffisegol a digidol) a gofynion adneuo ffisegol, ochr yn ochr â'n cynnig i adneuo dogfennau gorchymyn prynu gorfodol yn electronig.

Bydd hyn yn gwella mynediad at ddogfennau gorchmynion prynu gorfodol ac yn cynyddu cyfranogiad yn y broses gorchmynion prynu gorfodol.

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw lleihau'r costau mae awdurdodau lleol yn eu hysgwyddo yn sgil ymgymryd â gorchmynion prynu gorfodol. Ar gyfer cynlluniau mawr, mae dogfennau manwl a hir ynghlwm wrth y gorchmyn prynu gorfodol yn aml, a fydd yn golygu mwy o oblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau caffael os oes rhaid iddynt ddarparu copïau papur ar gais. O ganlyniad, ni fyddwn yn gwneud hyn yn ofyniad statudol.

Capasiti gwefan yr awdurdod lleol

Mae awdurdodau lleol yn meddu ar y profiad a'r adnoddau i gynhyrchu mapiau digidol manwl i'w gweld ar eu gwefannau. Er enghraifft, dogfennau a mapiau sy'n rhan o Gynlluniau Datblygu Lleol neu geisiadau cynllunio unigol.

Rhoi cyhoeddusrwydd i adneuo dogfennau gorchmynion prynu gorfodol newydd

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn rhoi canllawiau ar y gofynion statudol a amlinellir yn Neddf Caffael Tir 1981 ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i adneuo dogfennau gorchmynion prynu gorfodol, hy, cyflwyno hysbysiadau unigol, a chyhoeddi hysbysiadau safle a hysbysiadau papur newydd.

Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol hefyd yn darparu'r arferion gorau ar gyfer ffurfiau anstatudol o roi cyhoeddusrwydd i adneuo dogfennau gorchmynion prynu gorfodol. Er enghraifft:

- awdurdodau caffael yn cyhoeddi hysbysiadau mewn cylchlythyrau cymuned/tref/pentref, neu
- gynghorwyr sir/tref yn hysbysu'r gymuned leol drwy gylchlythyrau e-bost.

Y camau nesaf

4.10 Bydd Adran 11(2) o Ddeddf 1981 yn cael ei diwygio er mwyn caniatáu i ddogfennau sy'n gysylltiedig â gorchmynion prynu gorfodol (gan gynnwys mapiau cysylltiedig) gael eu hadneuo i'w harchwilio mewn lleoliadau ffisegol ac ar ffurf electronig, er enghraifft, ar wefan awdurdod caffael.

4.11 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi a bydd yn darparu:

- (a) canllawiau ar y gofynion statudol a amlinellir yn Neddf 1981 ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i adneuo dogfen gorchmynion prynu gorfodol, ac
- (b) arferion gorau ar gyfer ffurfiau anstatudol o roi cyhoeddusrwydd i adneuo dogfennau gorchmynion prynu gorfodol.

5. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 3

C3	Ydych chi'n cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 i'w gwneud yn ofynnol bod hysbysiadau papur newydd a gyhoeddir o dan y Ddeddf yn cael eu cyhoeddi yr un pryd yng nghopïau ffisegol a digidol (lle bo un) papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal lle mae tir y gorchymyn prynu gorfodol? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig bod hysbysiadau mewn papurau newydd yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn y copi ffisegol a digidol (lle bo un) o'r papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal lle mae tir y gorchymyn prynu gorfodol.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	1	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	2	2	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	5	0	0	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	5	0	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		16	5	2	2	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	21	2
Cyfanswm y Ganran	91%	9%

Adolygiad ystadegol

- 5.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Cafwyd gwrthwynebiad gan ddau Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 5.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 3 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol bod hysbysiadau papur newydd digidol yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â fersiynau ffisegol.
- Mynegwyd pryderon ynghylch costau cyhoeddi fersiynau ffisegol a digidol o hysbysiadau mewn papurau newydd.
- Dylid cyhoeddi hysbysiadau papur newydd mewn fformat digidol yn unig.

Trosolwg

- 5.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Nododd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant y dylid cyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd lleol ac mewn fformatau digidol. Dywedodd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes na ddylai hysbysiadau papur newydd ffisegol gael eu disodli gan fersiynau digidol ac i'r gwrthwyneb. Dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill ei bod yn hanfodol cael mynediad at fersiynau ffisegol a digidol o hysbysiadau mewn papurau newydd. Awgrymodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol fod defnyddio'r ddau ddull cyhoeddusrwydd yn cael ei ystyried yn briodol a bod hynny'n rhoi mwy o gyfle i gymunedau fod yn ymwybodol o orchmynion prynu gorfodol. Amlygodd ymatebydd o'r sector Eraill y gallai gyflwyno manylion gorchmynion prynu gorfodol i gynulleidfa ehangach. Hefyd, gall cyhoeddi hysbysiad mewn cylchgrawn tref neu bentref helpu i hysbysu poblogaeth ehangach, yn enwedig lle nad oes gan bobl fynediad at y rhyngrwyd.
- 5.4 Er bod Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno â'r cynnig, roedd yn mynegi pryder y gall cost cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd fod yn sylweddol oherwydd maint y gofod argraffu angenrheidiol ac y gall cyhoeddwyr papurau newydd gynyddu'r gost os bydd angen copi digidol o hysbysiadau hefyd.
- 5.5 Dywedodd ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall dylid sicrhau cysondeb o ran sut y bydd hysbysiadau mewn papurau newydd yn cael eu cyflwyno ar draws gwahanol gyhoeddiadau ar-lein.
- 5.6 Awgrymodd Awdurdod Cynllunio Lleol y dylid ystyried dileu'r gofyniad i roi hysbysiadau mewn papurau newydd ffisegol o ystyried dosbarthiad cyfyngedig y papurau newydd, ac y dylai codi hysbysiadau safle sicrhau cydraddoldeb yn y broses hysbysu.
- 5.7 Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol fod cyhoeddi hysbysiad digidol mewn papur newydd ar-lein yn debygol o gynyddu'r costau hysbysebu i'r awdurdod caffael gan ei bod hi'n ddrud cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd.

Awgrymodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai cyhoeddi fersiwn ddigidol o'r hysbysiad ar wefan yr awdurdod caffael yn ddigon, neu ddatblygu porth gorchmynion prynu gorfodol Cymru gyfan a fyddai ar gael i'r cyhoedd a lle gellid llwytho hysbysiadau a dogfennau. Yn yr un modd, dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol y dylid disodli'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd ffisegol a chyhoeddi hysbysiad digidol ar wefan awdurdod caffael yn lle hynny.

C3 Ymateb Llywodraeth Cymru

Costau cyhoeddi hysbysiad papur newydd ffisegol a digidol

Rydym yn cydnabod yr ymatebion i gwestiwn 3 a'r pryderon a godwyd ynghylch y costau ychwanegol posibl a allai ddeillio o gyhoeddi hysbysiadau ffisegol a digidol mewn papurau newydd. Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau costau ymgymryd â gorchmynion prynu gorfodol a dileu'r rhwystrau i ddefnyddio pwerau prynu gorfodol, rydym yn bwriadu diwygio ein cynnig i fynnu bod fersiwn ddigidol o hysbysiadau papur newydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan sy'n eiddo i awdurdod caffael ac yn cael ei chynnal ganddo yn hytrach nag mewn papur newydd digidol ar-lein.

Byddwn hefyd yn adolygu'r ffurf ragnodedig ar gyfer hysbysiadau papur newydd sydd wedi'i chynnwys yn Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 gyda'r bwriad o symleiddio ei chynnwys er mwyn lleihau costau cyhoeddi.

Cyhoeddi hysbysiadau ffisegol a digidol mewn papurau newydd

Rydym yn bwriadu cadw'r ddarpariaeth bresennol sy'n mynnu ei bod yn rhaid cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd ffisegol o dan adran 11 o Ddeddf Caffael Tir 1981, ochr yn ochr â'n cynnig diwygiedig i gyhoeddi hysbysiad digidol ar wefan sy'n eiddo i awdurdod caffael ac yn cael ei chynnal ganddo.

Cysondeb o ran sut bydd hysbysiadau papur newydd yn cael eu cyhoeddi ar draws gwahanol lwyfannau

Bydd y ffurf ragnodedig ar gyfer hysbysiadau papur newydd sydd wedi'i chynnwys yn Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 yn cael ei defnyddio ar gyfer hysbysiadau ffisegol a digidol er mwyn sicrhau cysondeb.

Dileu'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd

Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw cynyddu ac ehangu ymgysylltiad â'r broses gorchmynion prynu gorfodol. Byddai dileu'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad o orchymyn prynu gorfodol mewn papur newydd yn cael effaith negyddol ar ymgysylltu ac yn rhoi rhai aelodau o'r gymuned dan anfantais. Gallai hyn arwain at oblygiadau i awdurdodau caffael y sector cyhoeddus o ran cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os bydd aelodau o'r gymuned sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu rhoi dan anfantais.

Cyhoeddi hysbysiadau sy'n hysbysebu gorchymyn prynu gorfodol yng nghylchlythyrau trefi neu bentrefi

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn rhoi canllawiau ac arferion gorau ar gyfer cyhoeddi gorchymyn prynu gorfodol mewn fformatau anstatudol, ochr yn ochr â'r gofynion statudol ar gyfer cyflwyno hysbysiadau unigol, a chyhoeddi hysbysiadau safle a hysbysiadau papur newydd. Er enghraifft, awdurdodau caffael yn cyhoeddi hysbysiadau mewn cylchlythyrau cymuned/tref/pentref sy'n cylchredeg mewn ardal gorchymyn prynu gorfodol, a chynghorwyr sir/tref yn hysbysu'r gymuned leol drwy gylchlythyrau e-bost.

Porth gorchmynion prynu gorfodol ar-lein

Un o uchelgeisiau hirdymor Llywodraeth Cymru yw atgynhyrchu'r weithdrefn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol lle mae gorchmynion prynu gorfodol a dogfennau cysylltiedig yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru a'u cyhoeddi ar-lein drwy borth.

Y camau nesaf

- 5.8 Bydd adran 11(1) o Ddeddf Caffael Tir 1981 yn cael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau caffael gyhoeddi hysbysiad ar yr un pryd yn y ffurf a bennir:
- (a) mewn papur newydd sydd ar gael yn yr ardal lle mae'r tir sydd wedi'i gynnwys yn y gorchymyn prynu gorfodol; ac
 - (b) ar wefan y mae'r awdurdod caffael yn berchen arni ac yn ei chynnal.
- 5.9 Hefyd, cynhelir adolygiad o'r ffurf ragnodedig ar gyfer hysbysiadau papur newydd sydd wedi'i chynnwys yn Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffuriau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 gyda'r bwriad o symleiddio ei chynnwys.
- 5.10 Bydd Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi, a fydd yn darparu canllawiau ac arferion gorau ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i orchymyn prynu gorfodol mewn fformatau anstatudol, ochr yn ochr â'r gofynion statudol.

6. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 4

C4	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 er mwyn caniatáu i ddogfennau a hysbysiadau gael eu cyflwyno drwy ddulliau cyfathrebu electronig yn ogystal â'r dulliau darparu gwasanaethau eraill a ganiateir eisoes o dan y Ddeddf? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig caniatáu i ddogfennau a hysbysiadau o dan Ddeddf Caffael Tir 1981 gael eu cyflwyno drwy ddulliau cyfathrebu electronig yn ogystal â'r dulliau cyflwyno eraill a ganiateir eisoes o dan y Ddeddf.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	2	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	3	5	0	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	3	2	0	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	2	3	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		9	14	0	2	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	23	0
Cyfanswm y Ganran	100%	0%

Adolygiad ystadegol

- 6.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 6.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 4 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol o gefnogaeth yn amodol ar berson yn nodi ei barodrwydd i dderbyn dogfennau drwy gyfathrebu electronig.
- Mae angen proses glir a chadarn ar gyfer optio i mewn/allan o dderbyn dogfennau a hysbysiadau yn electronig.
- Dylai cyflwyno dogfennau a hysbysiadau yn electronig fod yn ychwanegol at eu cyflwyno drwy'r post neu drwy law.
- Bydd cynhyrchu cynlluniau ar raddfa fawr ar ffurf electronig yn heriol i lawer o awdurdodau lleol.

Trosolwg

- 6.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Nododd Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai'n symleiddio'r weithdrefn gorchmynion prynu gorfodol a dywedodd ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall y dylai cyflwyno electronig fod yn destun dull cofnodi caniatâd digon cadarn. Nododd Awdurdod Cynllunio Lleol arall mai cyflwyno'n electronig ac ar bapur fyddai orau. Ar ben hynny, os mai dim ond cyfeiriad electronig sy'n hysbys, bydd y cynnig yn ddefnyddiol.
- 6.4 Dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill, er ei fod yn cytuno, mai dim ond ar ôl derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan berson yn nodi parodrwydd i dderbyn dogfennau ar y ffurf hon y dylid caniatáu i ddeunydd gael ei gyflwyno'n electronig, ac ar yr amod nad yw'r caniatâd hwnnw wedi'i dynnu'n ôl. Yn yr un modd, nododd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnesau y dylai cyflwyno electronig fod yn amodol ar y rhagamod clir bod person wedi nodi parodrwydd i dderbyn hysbysiadau a dogfennau ar y ffurf hon barhaol.
- 6.5 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant fod angen proses glir ar gyfer optio i mewn/allan o dderbyn deunydd yn electronig, ynghyd â chanllawiau ar sut i sicrhau bod y broses cyflwyno drwy e-bost yn ddigonol.
- 6.6 Dywedodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol ei bod yn bwysig cael trefniadau wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd lle mae person yn dweud nad yw'n dymuno derbyn gohebiaeth yn electronig. Hefyd, efallai y bydd achosion lle nad yw person yn nodi ei ddewis ac mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r ddarpariaeth fod drwy'r dulliau darparu presennol neu'r ddau ddull.
- 6.7 Awgrymodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant, er ei fod cytuno, fod angen parhau i gyflwyno deunydd drwy'r post neu drwy law, ac y bydd angen llofnod neu brawf o dderbyn ym mhob achos. Hefyd, dylai dogfennau digidol fod yn ychwanegol at ddogfennau papur, nid yn eu lle, gan nad oes gan rai unigolion fynediad at fand eang cyflym neu'r sgiliau i gael mynediad at y gwasanaeth.

- 6.8 Nododd ymatebydd o'r sector Eraill y dylai dogfennau a hysbysiadau a gyflwynir yn electronig fod yn gopi o hysbysiadau ffisegol a gyflwynir i berchnogion/deiliaid.
- 6.9 Awgrymodd Awdurdod Cynllunio Lleol, mewn achosion lle cytunwyd ar hysbysiad electronig, y dylai'r awdurdod caffael anfon copi caled drwy'r post i sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno, oherwydd gallai fod yn anodd profi hynny fel arall. Yn yr un modd, nododd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnesau ei fod yn cefnogi'r cynnig, ond y dylai awdurdodau caffael allu dangos tystiolaeth o ddanfôn/derbyn dogfennau a hysbysiadau. Hefyd, nododd na ystyrir cyflwyno hysbysiadau ar-lein yn ddull dilys o gyflwyno yn y 'byd cyfreithiol', ac mai gwasanaeth danfôn a gofnodir yw'r prif ddull y dylid ei ddefnyddio i gyflwyno hysbysiadau gorchmynion prynu gorfodol.
- 6.10 Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant, er eu bod yn croesawu'r cynnig mewn egwyddor, y bydd cynhyrchu cynlluniau ar raddfa fawr ar ffurf electronig yn dipyn o her i lawer o awdurdodau lleol ac y bydd adnoddau'n ffactor pwysig. Hefyd, bydd angen ystyried sgiliau personél a gallu TG.
- 6.11 Roedd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant (na roddodd ymateb 'Ydw/Nac ydw') yn cwestiynu pa mor addas oedd e-bost ar gyfer cyflwyno dogfennau neu hysbysiadau, o ystyried y gallai'r cyfeiriadau e-bost a ddarparwyd newid yn rheolaidd. Dywedodd yr ymatebydd y byddai'n annog pobl i ddefnyddio o dulliau hyrwyddo eraill drwy gyfryngau cymdeithasol a gwefannau.
- 6.12 Er bod Awdurdod Cynllunio Lleol wedi nodi ei fod yn cytuno â'r cynnig, mynegodd sylwadau nad oeddent yn berthnasol i'r cwestiwn a ofynnwyd.

C4 Ymateb Llywodraeth Cymru

Parodrwydd i dderbyn dogfennau neu hysbysiadau drwy gyfathrebu electronig

Rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n dymuno derbyn dogfennau neu hysbysiadau drwy gyfathrebu electronig gyflwyno'r cais hwn yn ysgrifenedig cyn y gellir cytuno ar y cais. Rydym hefyd yn cynnig y bydd yn rhaid i geisiadau i dynnu caniatâd i ddefnyddio cyfathrebu electronig yn ôl gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig.

Dull cydsynio cadarn ar gyfer optio i mewn ac allan o dderbyn hysbysiadau a dogfennau drwy ddulliau cyfathrebu electronig

Rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n dymuno derbyn dogfennau neu hysbysiadau drwy gyfathrebu electronig gyflwyno eu cais yn ysgrifenedig. Rydym hefyd yn cynnig – lle mae cyfeiriadau e-bost yn newid, neu lle mae person yn dymuno tynnu caniatâd i ddefnyddio cyfathrebu electronig yn ôl – y bydd yn rhaid rhoi hyn ar bapur i'r awdurdod caffael.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys yr arferion gorau ar gyfer awdurdodau caffael sy'n defnyddio'r cyfleuster 'cadarnhad derbyn/darllen' pan ddefnyddir e-bost i gyflwyno dogfennau neu hysbysiadau er mwyn dangos prawf eu bod wedi'u danfon.

Hefyd, bydd arferion gorau'n cael eu cynnwys ar gyfer awdurdodau caffael sy'n cyflwyno dogfennau neu hysbysiadau dyblyg drwy'r post i sicrhau eu bod yn cael eu darparu ac i gyfyngu ar yr heriau cyfreithiol posibl i'r gorchymyn prynu gorfodol.

Lle na nodir bod y naill wasanaeth na'r llall yn cael ei ffafrio

Os nad yw person yn nodi sut hoffai i ddogfennau neu hysbysiadau gael eu cyflwyno iddo o dan Ddeddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981"), dilynir y drefn ddiodyn ar gyfer cyflwyno drwy'r dulliau presennol a amlinellir yn adran 6 o'r Ddeddf honno, hy, drwy eu danfon i berson, eu gadael yn ei gyfeiriad cywir, neu drwy bost cofrestredig neu wasanaeth danfon cofnodedig.

Cyflwyno dogfennau neu hysbysiadau drwy gyfathrebu electronig, drwy'r post neu drwy law

Bydd y sefyllfa ddiodyn ar gyfer cyflwyno dogfennau neu hysbysiadau o dan Ddeddf 1981 yn parhau i gael ei dilyn drwy'r dulliau cyfredol a amlinellir yn adran 6 o'r Ddeddf honno, hy, drwy eu danfon i berson, eu gadael yn ei gyfeiriad cywir, neu drwy bost cofrestredig neu wasanaeth danfon cofnodedig. I gyd-fynd â hyn, rydym yn cynnig caniatáu i bobl dderbyn dogfennau neu hysbysiadau drwy gyfathrebu electronig, ar yr amod eu bod wedi cyflwyno eu cais yn ysgrifenedig.

Dylai dogfennau a hysbysiadau a gyflwynir yn electronig fod yn gopi o hysbysiadau ffisegol a gyflwynir i berchnogion/deiliaid

Ein cynnig yw symleiddio'r broses gorchmynion prynu gorfodol er mwyn adlewyrchu arferion gweithio modern. O ganlyniad, rydym yn cynnig y bydd unrhyw un sy'n dymuno derbyn unrhyw ddogfen neu hysbysiad drwy gyfathrebu electronig yn gallu cael hynny, ar yr amod eu bod wedi cyflwyno eu cais yn ysgrifenedig.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys yr arferion gorau ar gyfer awdurdodau caffael yn cyflwyno dogfennau neu hysbysiadau dyblyg drwy'r post i sicrhau eu bod yn cael eu danfon, ac i gyfyngu ar yr heriau cyfreithiol posibl i orchymyn prynu gorfodol.

Sicrhau prawf danfon drwy gyfathrebu electronig

O dan ein cynnig, bydd yn ofynnol i awdurdodau caffael gadw cofnod o ddogfennau a hysbysiadau a gyflwynir drwy gyfathrebu electronig fel prawf eu bod yn cael eu danfon. Hefyd, rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n dymuno derbyn dogfennau neu hysbysiadau drwy gyfathrebu electronig gyflwyno'r cais hwn yn ysgrifenedig, ynghyd â cheisiadau i dynnu eu caniatâd yn ôl.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys yr arferion gorau ar gyfer awdurdodau caffael sy'n defnyddio'r cyfleuster 'cadarnhad derbyn/darllen' pan ddefnyddir e-bost i gyflwyno dogfennau neu hysbysiadau er mwyn dangos prawf eu bod wedi'u danfon.

Hefyd, bydd arferion gorau'n cael eu cynnwys ar gyfer awdurdodau caffael sy'n cyflwyno dogfennau neu hysbysiadau dyblyg drwy'r post i sicrhau eu bod yn cael eu darparu ac i gyfyngu ar yr heriau cyfreithiol posibl i'r gorchymyn prynu gorfodol.

Mae darpariaethau sy'n caniatáu i ddogfennau/trwyddedau gael eu cyflwyno drwy ddulliau electronig eisoes yn bodoli o dan adran 247 o Ddeddf Tai 2004. Hefyd, mae Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 yn caniatáu i ddogfennau neu hysbysiadau gael eu cyflwyno drwy gyfathrebu electronig o dan y rheoliadau hynny.

Capasiti gwefan yr awdurdod lleol

Mae awdurdodau lleol yn meddu ar y profiad a'r adnoddau i gynhyrchu mapiau digidol manwl i'w gweld ar eu gwefannau. Er enghraifft, dogfennau a mapiau sy'n rhan o Gynlluniau Datblygu Lleol neu geisiadau cynllunio unigol. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau a hysbysiadau o dan adran 6 o Ddeddf 1981 a'n cynigion i ganiatáu i ddogfennau a hysbysiadau gael eu cyflwyno drwy gyfathrebu electronig yn ei gwneud yn ofynnol i gopïau o fapiau gorchmynion prynu gorfodol gael eu cyflwyno i bartïon â buddiant. Nid yw Deddf 1981 ond yn mynnu bod dogfennau gorchmynion prynu gorfodol yn cael eu rhoi ar adnau ac nid yw'n mynnu bod copïau'n cael eu cyflwyno i bartïon â buddiant.

Addasrwydd e-bost fel dull cyfathrebu ar gyfer cyflwyno dogfennau neu hysbysiadau

Rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n dymuno derbyn dogfennau neu hysbysiadau drwy gyfathrebu electronig gyflwyno eu cais yn ysgrifenedig a chyflwyno cyfeiriad e-bost priodol.

Rydym hefyd yn cynnig mai cyfrifoldeb y bobl sy'n dymuno derbyn dogfennau neu hysbysiadau drwy gyfathrebu electronig fydd hysbysu awdurdodau caffael yn ysgrifenedig os bydd eu cyfeiriad e-bost yn newid neu os ydynt yn dymuno tynnu eu caniatâd i ddefnyddio cyfathrebu electronig yn ôl.

Y camau nesaf

- 6.13 Bydd Adran 6 o Ddeddf Caffael Tir 1981 yn cael ei diwygio er mwyn caniatáu i ddogfennau a hysbysiadau gael eu cyflwyno drwy ddulliau cyfathrebu electronig yn ogystal â'r dulliau darparu gwasanaethau eraill a ganiateir eisoes o dan y Ddeddf.
- 6.14 Bydd Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi a bydd arferion gorau yn cael eu darparu ar gyfer awdurdodau caffael sy'n defnyddio'r cyfleuster 'cadarnhad derbyn/darllen' pan ddefnyddir e-bost i gyflwyno dogfennau neu hysbysiadau er mwyn dangos prawf eu bod wedi'u danfon. Hefyd, bydd arferion gorau'n cael eu cynnwys ar gyfer awdurdodau caffael sy'n cyflwyno dogfennau neu hysbysiadau dyblyg drwy'r post i sicrhau eu bod yn cael eu darparu ac i gyfyngu ar yr heriau cyfreithiol posibl i'r gorchymyn prynu gorfodol.

7. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 5

C5	Lle y bydd Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'n briodol ystyried gwrthwynebiadau i orchymyn prynu gorfodol drwy'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn unig, a ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 er mwyn caniatáu i orchymynion prynu gorfodol o'r fath gael eu hystyried gan ddefnyddio cyfuniad o'r gweithdrefnau canlynol yn unol ag amserlen a bennir gan yr arolygydd: • sylwadau ysgrifenedig, • gwrandawriad cyhoeddus, • ymchwiliad cyhoeddus? Os na, pam? [Noder. Ni fydd y diwygiad arfaethedig yn berthnasol i'r gorchymynion prynu gorfodol hynny lle y bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn am ganiatâd y gwrthwynebwyr nad ymdriniwyd â'u gwrthwynebiadau i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig].
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig, pan ystyrir ei bod yn amhriodol ystyried gwrthwynebiadau drwy'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn unig, caniatáu i orchymynion prynu gorfodol gael eu hystyried gan yr arolygydd drwy gyfuniad o'r gweithdrefnau canlynol: • sylwadau ysgrifenedig, • gwrandawriad cyhoeddus, ac • ymchwiliad cyhoeddus.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	1	1	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	7	2	0	0	9
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	3	1	0	0	4
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	2	3	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1

Cyfanswm yr holl ymatebwyr	14	8	1	2	25
----------------------------	----	---	---	---	----

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	22	1
Cyfanswm y Ganran	96%	4%

Adolygiad ystadegol

- 7.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Cafwyd gwrthwynebiad gan un ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 7.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 5 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol o blaid ystyried gwrthwynebiadau i orchymyn prynu gorfodol drwy gyfuniad o weithdrefnau.
- Mae cyfuniad o weithdrefnau yn debygol o fod o fudd i orchmynion prynu gorfodol mawr a chymhleth.
- Croesewir gweithdrefn sy'n annog sylwadau ysgrifenedig.
- Mae'n bwysig bod y rhai y mae gorchymyn prynu gorfodol yn effeithio arnynt yn cadw'r hawl i gael eu clywed gan arolygydd.

Trosolwg

- 7.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol y dylai fod gan arolygwyr yr hyblygrwydd i ystyried gorchymyn prynu gorfodol drwy gyfuniad o weithdrefnau. Amlinellodd Awdurdod Cynllunio Lleol arall y dylai'r cyfuniad o weithdrefnau gael ei bennu gan yr arolygydd ar ôl ystyried hynny'n briodol gyda'r gwrthwynebwyr sydd ar ôl a'r awdurdod caffael. Mynegodd ymatebydd o'r sector Eraill ei bod yn rhaid symleiddio'r amserlen ar gyfer gorchymyn prynu gorfodol pan fo tir eiddo a/neu annedd wedi bod yn wag am fwy na 12 mis.
- 7.4 Roedd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant yn croesawu'r newid arfaethedig ac yn nodi ei fod wedi gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol mewn trefniadau cydsynio eraill, er enghraifft, Gorchmynion Cydsyniad Datblygu. Ar ben hynny, mae'n debygol o fod yn fwyaf buddiol mewn gorchmynion prynu gorfodol mawr a chymhleth neu'r rheini sydd â llawer o wrthwynebiadau. Dywedodd yr ymatebydd y bydd yn bwysig bod y partiön yn gallu rhoi sylwadau ar ddull y weithdrefn mewn perthynas ag unrhyw fater penodol, a bod arolygwyr yn gallu rheoli cyfuniad o weithdrefnau'n effeithiol a'u bod wedi'u hyfforddi'n llawn. Awgrymodd ymatebydd o'r sector Eraill hefyd y dylai sylwadau ar gynllun seilwaith mwy fod drwy gyfuniad o weithdrefnau ac nid sylwadau ysgrifenedig yn unig.

- 7.5 Amlinellodd Awdurdod Cynllunio Lleol fod y newid arfaethedig yn debyg i'r broses apeliadau cynllunio yng Nghymru. Yn yr un modd, dywedodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol fod y cynnig yn unol â phrosesau apeliadau cynllunio eraill. Nododd hefyd ei fod yn cefnogi'r cafeat sy'n nodi na fydd y diwygiad arfaethedig yn berthnasol i'r gorchmynion prynu gorfodol hynny lle y bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn am ganiatâd y gwrthwynebwyr nad ymdriniwyd â'u gwrthwynebiadau i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig. Dywedodd yr ymatebydd ei bod yn bwysig bod cymunedau neu unigolion yn fodlon bod eu sylwadau wedi cael eu hystyried yn briodol gan yr arolygydd a bydd hyn yn briodol i ategu canllawiau er mwyn egluro'r broses. Hefyd, dylid rhoi hysbysiad o'r penderfyniad a mynediad rhwydd at adroddiad yr arolygydd i bawb a gyflwynodd sylwadau.
- 7.6 Roedd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant yn ystyried y dylid pwysleisio unrhyw weithdrefn sy'n annog y posibilrwydd o ddefnyddio'r llwybr sylwadau ysgrifenedig. Hefyd, nododd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiannau efallai na fyddai modd i bawb gael gafael ar y gweithdrefnau sylwadau ysgrifenedig, felly gallai cyfuniad sicrhau'r lefel uchaf o hygyrchedd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un sydd â buddiant dilys yn cael ei eithrio. Ar ben hynny, o dan ddarpariaethau diweddar yn Neddf Busnes a Chynllunio 2020, mae'r cyfle i arolygydd ymgymryd â chyfuniad o'r mathau o weithdrefnau wedi'i gyflwyno yn Lloegr a lle Llywodraeth Cymru yw ystyried a fyddai'r dull hwnnw'n briodol i Gymru.
- 7.7 Nododd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes gefnogaeth ar y sail nad yw hawl y person y mae ei fuddiant mewn tir yn amodol ar y gorchmyn prynu gorfodol i gael ei glywed yn cael ei leihau mewn unrhyw ffordd. Gofynnodd yr ymatebydd am gadarnhad na fyddai'r cynnig yn effeithio ar hyn. Yn yr un modd, dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant fod gwerth i'r penderfyniad ar y math o weithdrefn sy'n cael ei dilyn gan yr arolygydd, ond ei bod yn hollbwysig bod person yn dal yn gallu cyflwyno ei sylwadau wyneb yn wyneb os yw'n dymuno gwneud hynny.
- 7.8 Dywedodd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes y bydd yn creu prosesau ychwanegol a lefel ychwanegol o gymhlethdod a chostau ar gyfer awdurdodau caffael a gwrthwynebwyr.

C5 Ymateb Llywodraeth Cymru

Arolygydd yn penderfynu ar weithdrefn

Yn unol â'n cynnig, disgrisiwn yr arolygydd fydd penderfynu pa weithdrefn sydd fwyaf priodol i ystyried gwrthwynebiadau i orchymyn prynu gorfodol. Pan fydd arolygydd yn credu bod defnyddio cyfuniad o weithdrefnau yn ddull derbyniol, ac yn credu y gallai'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig fod yn briodol – er enghraifft, i archwilio mater nad yw'n ddadleuol neu'n dechnegol – bydd gofyn i'r arolygydd geisio caniatâd gan yr holl wrthwynebwyr sydd ar ôl i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig at y diben hwn. Cyhoeddir ffurflen ganiatâd o dan y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.

Yn yr un modd, os bydd arolygydd yn credu bod cyfuniad o weithdrefnau yn dderbyniol ac yn pennu bod gwrandawriad a/neu ymchwiliad yn briodol i ystyried gwrthwynebiadau, bydd yr holl wrthwynebwyr sydd ar ôl yn cael gwybod am y penderfyniad hwn.

Darpariaeth Deddf Busnes a Chynllunio 2020

Roedd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“Deddf 1990”) yng Nghymru (mewn nosod adran 319B) ac yn cyflwyno'r cyfle i arolygydd ymgymryd â dull lle defnyddir cyfuniad o weithdrefnau ar gyfer y mathau canlynol o achosion yng Nghymru:

- (a) apeliadau cynllunio;
- (b) ceisiadau a elwir i mewn;
- (c) ceisiadau a wneir yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru;
- (d) apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi.

Bydd y dull cyfuniad o weithdrefnau ar gyfer gorchmynion prynu gorfodol yn dilyn y dull gweithredu o dan adran 319B o Ddeddf 1990.

Hawl unigolyn y mae gorchymyn prynu gorfodol yn effeithio arno i gael ei glywed

Nid yw ein cynnig ond yn ymwneud â'r amgylchiadau lle mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn amhriodol i bob gwrthwynebiad i orchymyn prynu gorfodol gael ei ystyried drwy'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn unig. Hynny yw, nid effeithir ar hawliau gwrthwynebwyr nad ymdriniwyd â'u gwrthwynebiadau i gael eu clywed naill ai drwy ymchwiliad cyhoeddus neu wrandawriad yn unol â'r broses gydsynio ar gyfer y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig a nodir mewn rheoliadau.

Yn unol â'n cynnig, disgresiwn yr arolygydd fydd penderfynu pa weithdrefn sydd fwyaf priodol i ystyried gwrthwynebiadau i orchymyn prynu gorfodol os yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn amhriodol i bob gwrthwynebiad i orchymyn prynu gorfodol gael ei ystyried drwy'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn unig. Pan fydd arolygydd yn credu bod defnyddio cyfuniad o weithdrefnau yn ddull derbyniol, ac yn credu y gallai'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig fod yn briodol – i archwilio mater nad yw'n ddadleuol neu'n dechnegol – bydd gofyn i'r arolygydd geisio caniatâd gan yr holl wrthwynebwyr sydd ar ôl i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig at y diben hwn. Cyhoeddir ffurflen ganiatâd o dan y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig. Yn yr un modd, os bydd arolygydd yn credu bod cyfuniad o weithdrefnau yn dderbyniol ac yn pennu bod gwrandawriad a/neu ymchwiliad yn briodol i ystyried y gwrthwynebiadau, bydd yr holl wrthwynebwyr sydd ar ôl yn cael gwybod am y penderfyniad hwn.

Ni fydd hawl gwrthwynebydd perthnasol i “gael ei glywed” o dan ein cynnig yn cael ei leihau ac ni cheir effaith arno.

Canllawiau ar y dull gweithdrefnau cyfunol

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys canllawiau ar y dull newydd o ddefnyddio cyfuniad o weithdrefnau i gynorthwyo awdurdodau caffael a gwrthwynebwyr.

Y darpariaethau presennol yn rheolau'r weithdrefn ymchwilio sy'n nodi:

- (a) mae'n rhaid darparu adroddiad yr arolygydd gyda'r llythyr penderfyniad, a
 - (b) gellir darparu copïau o'r llythyr penderfyniad neu adroddiad yr arolygydd ar gais i bartïon â buddiant,
- byddant yn cael eu cadw yn rheolau gweithdrefn yr ymchwiliad.

Creu prosesau, cymhlethdod a chostau ychwanegol ar gyfer awdurdodau caffael a gwrthwynebwyr

Bydd ein cynnig yn creu ystyriaeth ychwanegol i'r arolygydd wrth benderfynu pa weithdrefn sydd fwyaf priodol i archwilio gwrthwynebiadau i orchymyn prynu gorfodol.

Mae gan arolygwyr yng Nghymru brofiad o'r dull hwn drwy weithdrefnau ymchwilio ar gyfer apeliadau cynllunio a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys canllawiau ar y dull gweithdrefnau cyfunol ar gyfer gorchmynion prynu gorfodol i gynorthwyo awdurdodau caffael a gwrthwynebwyr.

Gan y gallai ein cynnig helpu i leihau hyd ymchwiliadau, nid ydym yn cytuno y bydd awdurdodau caffael a gwrthwynebwyr yn wynebu cynnydd yn eu costau drwy gyflwyno'r dull gweithdrefnau cyfunol.

Y camau nesaf

- 7.9 Caiff Adran 13A(3) o Ddeddf Caffael Tir 1981 ei diwygio er mwyn caniatáu i orchmynion prynu gorfodol gael eu hystyried drwy gyfuniad o weithdrefnau, pan ystyrir ei bod yn amhriodol i wrthwynebiadau i'r gorchymyn prynu gorfodol gael eu hystyried drwy'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn unig.
- 7.10 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi ac yn darparu canllawiau ar y dull gweithdrefnau cyfunol er mwyn cynorthwyo awdurdodau caffael a gwrthwynebwyr.

8. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 6

C6	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981") er mwyn caniatáu i awdurdodau caffael gadarnhau eu gorchmynion prynu gorfodol eu hunain o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn y canlynol: (a) paragraff 40(a) o'r ddogfen ymgynghori ar yr amod fod y Gweinidog â chyfrifoldeb wedi dyrannu tystysgrif yn unol ag adran 16(2) o Ddeddf 1981 a bod yr amodau a nodir yn adran 14A(3) o Ddeddf 1981 wedi'u bodloni; a (b) paragraff 40(b) o'r ddogfen ymgynghori ar yr amod bod Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno tystysgrif yn unol ag adran 19(1) o Ddeddf 1981 a bod yr amodau a nodir yn adran 14A(3) o Ddeddf 1981 wedi'u bodloni? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig caniatáu i awdurdodau caffael gadarnhau eu gorchmynion prynu gorfodol eu hunain dan amgylchiadau lle mae'r tir sy'n cael ei gaffael: (a) yn cynnwys: • tir a gaffaelwyd gan ymgymerydd statudol at ddibenion ei ymgymeriad, • os yw'r ymgymerydd statudol hwnnw wedi cyflwyno sylw i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am noddi ei fusnes ('y Gweinidog priodol') na chafodd ei dynnu'n ôl, • a bod y Gweinidog hwnnw yn fodlon bod y tir i'w gaffael yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ymgymeriad neu fod buddiant mewn unrhyw ran o'r tir yn gysylltiedig â'r dibenion hynny; neu (b) tir sy'n rhan o gomin, man agored, neu randir gardd gae neu danwydd, ar yr amod: (i.) bod y Gweinidog cyfrifol wedi cyflwyno tystysgrif yn unol ag adran 16(2) o Ddeddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981") a bod yr amodau a nodir yn adran 14A(3) o'r Ddeddf honno wedi'u bodloni; neu fod Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno tystysgrif yn unol ag adran 19(1) o Ddeddf 1981 a bod yr amodau a nodir yn adran 14A(3) o'r Ddeddf wedi'u bodloni.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	1	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	1	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	7	0	0	1	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	0	1	2	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	4	0	0	3	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		15	1	3	6	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	16	3
Cyfanswm y Ganran	84%	16%

Adolygiad ystadegol

- 8.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Cafwyd gwrthwynebiadau gan ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, ac ymatebydd o'r sector Eraill. Ni wnaeth tri ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant, Awdurdod Cynllunio Lleol, na dau ymatebydd o'r sector Eraill ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 8.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 6 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol o gefnogaeth yn amodol ar y meini prawf cymhwyso.
- Bydd yn symleiddio'r broses gorchmynion prynu gorfodol.
- Pryderon bod y mesurau gwarchod a roddir i ymgwymerwyr statudol yn cael eu lleihau.

Trosolwg

- 8.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant y byddai'n ffafriol ac yn effeithiol o ran amser dan yr amgylchiadau. Nid oedd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol yn gwrthwynebu'r cynnig yn amodol ar y meini prawf cymhwyso. Nododd hefyd ei bod yn bwysig bod pobl yn gallu gweld proses glir a thryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dywedodd un ymatebydd o'r sector Eraill y byddai'n symleiddio'r drefn ac yn golygu bod modd delio â gorchmynion prynu gorfodol yn gynt.
- 8.4 Dywedodd ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall nad oes angen caniatâd gan yr ymgymerydd statudol perthnasol. Ar ben hynny, nid oes unrhyw arwydd o sut y cyflwynir sylwadau i'r Gweinidog priodol a sut y byddai'r ymgymerydd statudol perthnasol yn rhan o benderfyniad o'r fath.
- 8.5 Nododd ymatebydd o'r sector Eraill y dylai Gweinidogion Cymru orfod cadarnhau'r holl orchmynion prynu gorfodol ac na ddylai unrhyw awdurdod caffael allu cymeradwyo eu gorchmynion prynu gorfodol eu hunain.
- 8.6 Nododd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes fod y warchodaeth a roddir i ymgymerwyr statudol o dan adran 16 o'r Ddeddf yn hanfodol os ydynt am barhau â'u gweithrediadau statudol a chyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol yn hyderus eu bod yn cael eu gwarchod. Dywedodd yr ymatebydd nad oedd yn ymddangos bod y cynnig yn cadw'r mesurau gwarchod hanfodol hyn a'i fod yn ceisio tynnu dyfarnwr diduedd (y gweinidog cyfrifol) o'r broses gwarchodaeth statudol. Hefyd, nid oedd hyn yn cyfiawnhau ymgais i leihau'r warchodaeth a roddir i ymgymerwyr statudol. Dywedodd yr ymatebydd na allai gytuno â chynnig a oedd yn diwygio deddfwriaeth a gynlluniwyd i warchod gallu ymgymerydd statudol i gyflawni ei ymrwymiad statudol ac a fyddai'n arwain at wanhau'r mesurau gwarchod hynny.

C6 Ymateb Llywodraeth Cymru

Dileu rôl y gweinidog cyfrifol a gwanhau'r broses gwarchodaeth statudol

Nid yw ein cynnig yn ceisio diwygio rôl y gweinidog priodol o dan adran 16 o Ddeddf 1981 nac yn gwanhau'r warchodaeth statudol a roddir i ymgymerwyr statudol.

Dim ond pan fydd gweinidog priodol yn ystyried sylw a wneir gan ymgymerydd statudol o dan adran 16 o Ddeddf 1981 ac yn cyflwyno tystysgrif yn unol â hynny y mae ein cynnig yn berthnasol.

Pan fo gweinidog priodol yn ystyried sylwadau a wneir gan ymgymerydd statudol o dan adran 16 o Ddeddf 1981 ac yn gwrthod cyflwyno tystysgrif, hy, pan nad yw'n fodlon:

- (a) y gellir prynu'r tir, nid ei ddisodli, heb effaith andwyol ddifrifol ar gynnal yr ymgymeriad; neu
- (b) os caiff y tir ei brynu, y gellir ei ddisodli gan dir arall sy'n eiddo i'r ymgymerwyr, neu sydd ar gael i'w gaffael ganddynt, heb amharu'n ddifrifol ar gyflawni'r ymgymeriad,

na fydd y meini prawf ar gyfer caniatáu i awdurdodau caffael gadarnhau eu gorchmynion prynu gorfodol eu hunain yn cael eu bodloni.

O dan yr amgylchiadau hyn, bydd Gweinidogion Cymru yn dal yn gyfrifol am gadarnhau'r gorchymyn prynu gorfodol.

Ni fydd ein cynnig yn diwygio'r darpariaethau o dan adran 16 o Ddeddf 1981 sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu gallu ymgymerydd statudol i gyflawni ei ymrwymiad statudol yng ngŵydd gorchymyn prynu gorfodol.

Ymgymerydd statudol ddim yn rhan o'r penderfyniad i ddirprwyo penderfyniad

Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad i ddirprwyo'r gwaith o gadarnhau gorchymyn prynu gorfodol i awdurdod caffael gan ddefnyddio'r pŵer sydd ar gael o dan adran 14A o Ddeddf 1981. Nid oes angen caniatâd corff statudol arall.

O dan ein cynnig, lle mae gorchymyn prynu gorfodol yn cynnwys tir sydd wedi'i gaffael gan ymgymerydd statudol at ddibenion ei ymgymerydd, ar yr amod:

(a) bod y meini prawf cymhwys o dan adran 14A wedi'u bodloni, hy, nid oes unrhyw wrthwynebiadau i'r gorchymyn prynu gorfodol ar ôl (gan gynnwys gan ymgymerydd statudol) ac mae'r gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu statudol wedi'u bodloni, a

(b) bod y gweinidog priodol wedi cyflwyno tystysgrif o dan adran 16,

bydd Gweinidogion Cymru yn gallu arfer y pŵer o dan adran 14A o Ddeddf 1981 i ddirprwyo'r gwaith o gadarnhau'r gorchymyn prynu gorfodol i'r awdurdod caffael. Nid oes angen caniatâd gan yr ymgymerydd statudol perthnasol.

Mae'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â sut y byddai "sylwadau'n cael eu rhoi i'r Gweinidog priodol" a "sut byddai'r ymgymerydd statudol perthnasol yn rhan o benderfyniad o'r fath" yn cael eu darparu o dan adran 16 o Ddeddf 1981. Mae swyddogaeth y Gweinidog priodol o dan adran 16 yn weithdrefn ar wahân i'r canlynol:

- (a) dirprwyo penderfyniad cadarnhau o dan adran 14A o Ddeddf 1981; a
- (b) chadarnhau gorchymyn prynu gorfodol.

Ni ddylai unrhyw awdurdod caffael allu cymeradwyo ei orchymyn prynu gorfodol ei hun

Mae'r pŵer Gweinidogion Cymru i ddirprwyo penderfyniadau cadarnhau ynghylch gorchymynion prynu gorfodol i awdurdodau caffael wedi'i sefydlu o dan adran 14A o Ddeddf 1981. Nid oedd egwyddor y pŵer hwn yn destun yr ymgynghoriad hwn.

Y camau nesaf

8.7 Bydd adran 14A o Ddeddf 1981 yn cael ei diwygio i ganiatáu i awdurdodau caffael gadarnhau eu gorchmynion prynu gorfodol eu hunain o dan yr amgylchiadau lle mae'r tir sy'n cael ei gaffael:

(a) yn cynnwys:

- tir a gaffaelwyd gan ymgymerydd statudol at ddibenion ei ymgymeriad,
- os yw'r ymgymerydd statudol hwnnw wedi cyflwyno sylw i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am noddi ei fusnes ('y Gweinidog priodol') na chafodd ei dynnu'n ôl,
- a bod y Gweinidog hwnnw yn fodlon bod y tir i'w gaffael yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ymgymeriad neu fod buddiant mewn unrhyw ran o'r tir yn gysylltiedig â'r dibenion hynny; neu

(b) tir sy'n rhan o gomin, man agored, neu randir gardd gae neu danwydd,

a lle mae'r penderfyniadau canlynol gan Weinidogion wedi'u gwneud:

- (i.) mae'r Gweinidog priodol wedi cyflwyno tystysgrif yn unol ag adran 16(2) o Ddeddf 1981 a bod yr amodau a nodir yn adran 14A(3) o'r Ddeddf wedi'u bodloni; neu
- (ii.) mae Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno tystysgrif yn unol ag adran 19(1) o Ddeddf 1981 a bod yr amodau a nodir yn adran 14A(3) o'r Ddeddf wedi'u bodloni.

9. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 7

C7	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981") er mwyn caniatáu i orchymyn prynu gorfodol a wneir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Tai 1985 gael ei gadarnhau o dan yr amgylchiadau canlynol: (a) os bydd sylw wedi'i wneud gan ymgymerydd statudol o dan adran 16(1) o Ddeddf 1981, neu baragraff 3(1) o Atodlen 3 iddi, heb gais am dystysgrif Deddf 1981 o dan adran 16(2) neu baragraff 3(2) o Atodlen 3, neu lle y gwrthodir cais o'r fath am dystysgrif neu y cyflwynir y cais ar ôl i'r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau i'r gorchymyn prynu gorfodol ddirwyn i ben, (b) os caiff y gorchymyn prynu gorfodol ei gadarnhau ar y cyd gan y Gweinidog priodol a'r Gweinidog Cymru sy'n cadarnhau? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig caniatáu i orchymyn prynu gorfodol a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Tai 1985 gael ei gadarnhau: (a) os bydd sylw wedi'i wneud gan ymgymerydd statudol o dan adran 16(1) o Ddeddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981"), neu Atodlen 3 iddi, heb gais am dystysgrif o dan Ddeddf 1981, neu lle y gwrthodir cais o'r fath am dystysgrif neu y cyflwynir y cais ar ôl i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau i'r gorchymyn prynu gorfodol ddirwyn i ben, ac (b) os caiff y gorchymyn prynu gorfodol ei gadarnhau ar y cyd gan y Gweinidog priodol a'r Gweinidog Cymru sy'n cadarnhau.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	0	1	1	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	1	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	0	0	2	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	2	2	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	3	0	0	4	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	1	1

Cyfanswm yr holl ymatebwyr	11	0	4	10	25
-----------------------------------	-----------	----------	----------	-----------	-----------

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	11	4
Cyfanswm y Ganran	73%	27%

Adolygiad ystadegol

- 9.1 O'r ymatebwyr hynny a roddodd ymateb, roedd y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig. Hefyd, ni chafwyd ymateb gan 40% o'r ymatebwyr. Roedd ymatebwyr o blith Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant o'i blaid. Cafwyd gwrthwynebiadau gan un o'r Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, a dau ymatebydd o'r sector Eraill. Ni wnaeth yr ymatebwyr canlynol ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.
- pedwar Corff Proffesiynol / Grŵp Buddiant,
 - dau Awdurdod Cynllunio Lleol,
 - dau o'r sector Eraill,
 - un o'r Sector Gwirfoddol, ac
 - un Ymgynghorydd Cynllunio / Busnes.

Themâu allweddol

- 9.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 7 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol o blaid y cynnig.
- Ni ddylid gwanhau'r warchodaeth a roddir i ymgymerydd statudol.

Trosolwg

- 9.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Dywedodd un ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol, er nad roddodd ymateb 'Ydw/Nac ydw', y dylid cael proses briodol i gymunedau ymgysylltu â hi.
- 9.4 Dywedodd ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall fod ymestyn y pwerau y gellir cadarnhau gorchymyn prynu gorfodol oddi tanynt yn cael ei ystyried yn anghymesur wrth gymhwyso hynny i dir ymgymerydd statudol.
- 9.5 Roedd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes yn dweud, er mwyn "moderneiddio" y broses, na ddylid gwanhau'r warchodaeth a roddir i ymgymerydd statudol o dan adran 16(2) o Ddeddf 1981. Nododd yr ymatebydd fod y cynnig wedi methu cydbwyso'r angen am dai ac adfywio ychwanegol yn erbyn anghenion ymgymerydd statudol i gadw'r tir sydd ei angen i'w galluogi i gydymffurfio â dyletswyddau a rhwymedigaethau statudol. Hefyd, nododd y bydd yn creu ansicrwydd gweithredol i ymgymerydd statudol ar adeg pan mae angen sicrwydd a hyder ar yr economi. Yn ogystal, mae'n ceisio symud y "cydbwysedd cyfartal" a sefydlwyd yn Neddf 1981 o blaid awdurdodau caffael, sy'n anfantais i ymgymerydd statudol.

- 9.6 Tynnodd ymatebydd o'r sector Eraill sylw at bryderon ynghylch archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ei ardal ac fe nododd bod awdurdodau lleol yn camddefnyddio eu pwerau mewn perthynas â thai ac na ddylid darparu rhagor o bwerau heb eu harchwilio. Ar ben hynny, nododd na ddylai adran 31(2) o Ddeddf 1981 gael ei hymestyn i gynnwys Deddf 1972 neu Ddeddf 1985 ac mai'r Gweinidog priodol ddylai barhau i ddarparu'r dystysgrif angenrheidiol o dan adran 16 o Ddeddf 1981. Amlinellodd yr ymatebydd hefyd na ddylai gorchmynion prynu gorfodol gynnwys y disgrifiad amwys o "dir" gan y gallai arwain at gaffael a lleihau'r tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas er mwyn bodloni'r gofyniad i adeiladu tai nad oes eu hangen ar awdurdodau lleol ac na allant ddarparu ar eu cyfer.
- 9.7 Dywedodd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes (na roddodd ymateb 'Ydw/Nac ydw') nad oedd yn deall y cwestiwn.

C7 Ymateb Llywodraeth Cymru

Effaith anghymesur ar ymgymerydd statudol yn sgil ymestyn y pwerau i gadarnhau gorchymyn prynu gorfodol

Mae'r egwyddor ar gyfer caniatáu i orchmynion prynu gorfodol gael eu cadarnhau ar y cyd pan fydd y gweinidog sy'n penderfynu a'r gweinidog priodol yn caffael tir ymgymerydd statudol heb gyflwyno dystysgrif o dan 16 o Ddeddf 1981 wedi'i sefydlu o dan adran 31 o'r Ddeddf honno.

Rydym felly'n anghytuno bod ein cynnig i ymestyn y pŵer presennol o dan adran 31 o Ddeddf 1981 i orchmynion prynu gorfodol a wneir o dan Ddeddf 1972 neu Ddeddf 1985 yn anghymesur wrth ei gymhwyso i dir ymgymerydd statudol.

Cydbwysu anghenion ymgymerydd statudol i gydymffurfio â'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau statudol

Nid yw ein cynnig yn effeithio ar hawliau ymgymerydd statudol i gyflwyno sylwadau ar Orchymyn Prynu Statudol (a wneir naill ai o dan Ddeddf 1972 neu Ddeddf 1985 ac sy'n cynnwys tir a brynwyd ganddynt at ddibenion eu hymgymeriad) i'r gweinidog priodol o dan adran 16 o Ddeddf 1981. Hefyd, nid yw ein cynnig yn effeithio ar allu ymgymerydd statudol i barhau i gadw'r tir sydd ei angen arnynt er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau a'u rhwymedigaethau statudol.

Rydym felly'n anghytuno â'r sylwadau y bydd ymgymerydd statudol dan anfantais o ganlyniad i weithredu'r cynnig, neu y bydd yn creu ansicrwydd gweithredol i ymgymerydd statudol.

Mae'r ddarpariaeth bresennol o dan adran 31(2) o Ddeddf 1981 eisoes yn berthnasol i orchmynion prynu gorfodol a wnaed o dan adran 226 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 003/2019: Prynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)' yn cadarnhau y gellir gwneud gorchmynion prynu gorfodol o dan adran 226 at ddibenion cynlluniau adfywio a thai. Felly, mae'r pŵer eisoes yn bodoli o dan adran 31(2) o Ddeddf 1981 i gymeradwyo caffael tir ymgymerydd statudol yn orfodol at ddibenion tai ac adfywio.

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw galluogi awdurdodau lleol i gaffael tir ac adeiladau segur at ddibenion cyflenwi mwy o dai cymdeithasol ar fyrder, ac i gefnogi'r adferiad yn ystod y cyfnod yn union ar ôl Covid-19. Ystyrir at ba ddefnyddiau y gellir gwneud gorchmynion prynu gorfodol dan Ddeddf 1972 a Deddf 1985, hy, bydd adfywio a thai yn cefnogi'r gweithgarwch hwn.

Pwerau awdurdodau lleol mewn perthynas â thai

Ni fydd ein cynnig yn effeithio ar allu Gweinidog priodol i gyflwyno tystysgrifau o dan adran 16 o Ddeddf 1981 ynghylch gorchmynion prynu gorfodol a wneir o dan Ddeddf 1972 neu Ddeddf 1985.

Mae'r pwerau galluogi presennol sy'n gysylltiedig â phrynu gorfodol yn caniatáu i orchmynion prynu gorfodol gael eu gwneud ar gyfer prynu tir, hy, adran 226 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, a darperir diffiniad o "dir" yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

Er mwyn i broses prynu tir yn orfodol at ddibenion tai symud ymlaen, mae polisi cynllunio cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i achos cryf er budd y cyhoedd gael ei ddangos gan awdurdodau caffael er mwyn ymyrryd â hawliau preifat unigolyn. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio gorchmynion prynu gorfodol fel adnodd creu lleoedd gweithredol er mwyn helpu i gefnogi'r adferiad ar ôl pandemig Covid-19.

Roedd sylwadau a wnaed ynghylch proses y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac archwilio CDLI penodol y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad ac nid ymatebwyd iddynt.

Y camau nesaf

- 9.8 Caiff adran 31(2) o Ddeddf 1981 ei diwygio er mwyn caniatáu i orchmynion prynu gorfodol a wneir o dan Ddeddf 1972 a Deddf 1985 gael eu cadarnhau:
- (a) os bydd sylw wedi'i wneud gan ymgymerydd statudol o dan adran 16(1) o Ddeddf 1981, neu Atodlen 3 iddi, heb gais am dystysgrif o dan Ddeddf 1981, neu lle y gwrthodir cais o'r fath am dystysgrif neu y cyflwynir y cais ar ôl i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau i'r gorchymyn prynu gorfodol ddirwyn i ben, ac
 - (b) os caiff y gorchymyn prynu gorfodol ei gadarnhau ar y cyd gan y Gweinidog priodol a'r Gweinidog Cymru sy'n cadarnhau.

10. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 8

C8	A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno terfyn amser statudol o 12 wythnos ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau ar orchmynion prynu gorfodol a wneir o dan y Deddfau canlynol: • Deddf Llywodraeth Leol 1972, • Deddf Tai 1985, • Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; • Deddf Cynllunio (Cynllunio Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990? Os na, pam?
-----------	---

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylid cyflwyno terfyn amser statudol o 12 wythnos ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau ar fathau penodol o orchmynion prynu gorfodol.

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	1	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	2	0	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	4	1	0	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	3	2	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		16	7	0	2	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	23	0
Cyfanswm y Ganran	100%	0%

Adolygiad ystadegol

- 10.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 10.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 8 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol y bydd y cynnig yn rhoi mwy o sicrwydd i awdurdodau caffael a gwrthwynebwyr o ran y cynlluniau sy'n mynd rhagdynt.
- Dylid caniatáu i'r amserlenni gael eu hymestyn dan rai amgylchiadau.
- Gellid rhoi amserlenni statudol ar gyfer pob gorchymyn prynu gorfodol.
- Ni ddylai amserlenni statudol fod ar draul ystyried sylwadau gan wrthwynebwyr.

Trosolwg

- 10.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y byddai cyflwyno amserlenni statudol yn rhoi mwy o sicrwydd i wrthwynebwyr. Yn yr un modd, nododd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y bydd awdurdodau caffael yn cael mwy o sicrwydd o ran eu cynlluniau yn y dyfodol. Nododd ymatebydd arall o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y byddai'r cynnig yn rhoi mwy o sicrwydd i randdeiliaid wrth baratoi ar gyfer gweithredu gorchymyn prynu gorfodol. Amlinellodd un ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol bod y newidiadau i gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau i'w croesawu oherwydd y dylai hyn helpu i leihau ansicrwydd i bob parti yn y broses. Awgrymodd un ymatebydd o'r sector Eraill fod amserlenni statudol yn hanfodol er mwyn cynnal momentwm wrth fwrw ymlaen â chynlluniau gorchmynion prynu gorfodol.
- 10.4 Dywedodd un o'r ymatebwyr o'r sector Eraill y byddai'n ymddangos yn ystyriaeth wag os mai dim ond rhoi sêl bendith ar adroddiad yr arolygydd heb roi ystyriaeth ddyladwy i wrthwynebiadau fyddai hyn yn ei olygu. Ar ben hynny, y gobaith yw y byddai Gweinidogion Cymru yn rhoi ystyriaeth briodol i sylwadau gwrthwynebwyr yn hytrach na dibynnu ar adroddiad yr arolygydd yn unig.
- 10.5 Amlinellodd Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai'n ddefnyddiol caniatáu i'r amserlen statudol gael ei hymestyn, yn unol â threfniant y cytunir arno, mewn amgylchiadau annisgwyl.
- 10.6 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant na ddylai amserlen wedi'i diffinio fod ar draul gallu unigolion, yn enwedig y rheini sydd ag eiddo wedi'i gaffael, i gyflwyno sylwadau digonol ac i'r rheini gael eu hystyried.
- 10.7 Roedd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnesau yn cytuno â'r amserlenni statudol ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau ynghylch gorchmynion prynu gorfodol ond awgrymodd y dylent hefyd gynnwys darparu adroddiadau arolygwyr yn unol â'r broses ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008.

- 10.8 Holodd Awdurdod Cynllunio Lleol a ellid rhoi amserlenni statudol ar gyfer pob math o orchmynion prynu gorfodol hyd yn oed os rhoddir rhai hirach ar gyfer rhai mathau o orchmynion prynu gorfodol. Ar ben hynny, byddai hyn yn ei gwneud yn haws rheoli prosiectau.

C8 Ymateb Llywodraeth Cymru

Rhoi ystyriaeth ddyladwy i sylwadau gwrthwynebwyr

Ni fydd ein cynnig yn effeithio ar y broses bresennol o wneud penderfyniadau ynghylch cadarnhau gorchmynion prynu gorfodol lle mae Gweinidogion Cymru yn rhoi ystyriaeth briodol i adroddiadau'r arolygwyr sy'n cynnwys sylwadau gwrthwynebwyr er mwyn helpu i lywio eu penderfyniad.

Mae ein cynnig yn ymwneud â chyflwyno amserlenni statudol ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau yn unig ac ni fydd yn effeithio ar allu partïon â buddiant i gyflwyno sylwadau ar orchymyn prynu gorfodol ac i'r rheini gael eu hystyried yn amserol gan arolygydd.

Caniatáu i amserlenni gael eu hystyried

Rydym yn cytuno â'r awgrym y dylid caniatáu estyniadau i'r amserlen statudol o dan amgylchiadau penodol a bydd hyn yn cael ei ddatblygu.

Amserlenni ar gyfer pob math o orchmynion prynu gorfodol

Rydym yn ystyried y bydd y mathau canlynol o orchmynion prynu gorfodol (hy, cynllunio, adfywio, tai, adeiladau rhestredig y mae angen eu hatgyweirio) yn helpu:

- (a) Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaeth i alluogi awdurdodau lleol i gaffael tir ac adeiladau segur at ddibenion cyflenwi mwy o dai cymdeithasol ar fyrder, ac
- (b) awdurdodau lleol a'u cymunedau i adfer yn ystod y cyfnod yn union ar ôl Covid-19.

O ganlyniad, blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw canolbwyntio'r gwaith o symleiddio'r diwygiadau ar y mathau hyn o orchmynion prynu gorfodol.

Amserlenni statudol sy'n cynnwys darparu adroddiadau arolygwyr

Bydd cymhlethdod gorchymyn prynu gorfodol a'r materion a godir ynddo yn pennu am ba hyd y bydd angen i arolygydd baratoi ei adroddiad ar gyfer Gweinidogion Cymru. Nid ydym felly'n credu ei bod yn gymesur cyflwyno amserlenni statudol i arolygwyr ddarparu eu hadroddiadau i Weinidogion Cymru ar yr un pryd ag yr ydym yn cyflwyno:

- (a) amserlenni statudol ar gyfer pennu rhai mathau o orchmynion prynu gorfodol, a
- (b) therfyn o 10 diwrnod ar gyfer rhoi gwybod i bartïon y mae'r gorchymyn prynu gorfodol yn berthnasol iddynt am yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r penderfyniad pan gynhelir ymchwiliad cyhoeddus ac mai Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad ynghylch y gorchymyn prynu gorfodol.

Y camau nesaf

10.9 Bydd terfyn amser statudol o 12 wythnos yn cael ei gyflwyno ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau ynghylch gorchmynion prynu gorfodol a wneir o dan y Deddfau canlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 1972,
- Deddf Tai 1985,
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; a
- Deddf Cynllunio (Cynllunio Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

10.10 Caniateir i'r amserlen statudol gael ei hatal a'i hymestyn a bydd yn ofynnol i bawb sydd wedi gwneud gwrthwynebiad parhaus i orchymyn prynu gorfodol, ynghyd â'r awdurdod caffael, gael eu hysbysu o'r penderfyniad hwn.

11. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 9

C9	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Tai 1985 er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wrthod cadarnhau gorchymyn prynu gorfodol a wneir o dan adran 17 o'r Ddeddf honno oni bai eu bod yn fodlon ei bod yn debygol y bydd angen y tir er mwyn darparu tai o fewn cyfnod o chwe mlynedd? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wrthod cadarnhau gorchymyn prynu gorfodol a wneir o dan adran 17 o Ddeddf Tai 1985 oni bai eu bod yn fodlon ei bod yn debygol y bydd angen y tir er mwyn darparu tai o fewn cyfnod o chwe blynedd.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	1	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	1	0	1	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	3	1	0	1	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	4	1	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		16	5	0	4	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	21	0
Cyfanswm y Ganran	100%	0%

Adolygiad ystadegol

- 11.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant, Awdurdod Cynllunio Lleol, nac ymatebydd o'r sector Eraill ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 11.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 9 fel a ganlyn:

- Mae'r consensws cyffredinol bod y cyfnod presennol o ddeng mlynedd yn rhy hir ac y dylid ei leihau.
- Bydd y cynnig yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth ar gyfer cwblhau'r broses gaffael.
- Nid yw chwe blynedd yn hir yn y broses datblygu tai, yn enwedig os oes cyfyngiadau eraill i'w goresgyn.

Trosolwg

- 11.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Dywedodd un ymatebydd o'r sector Eraill fod y cyfnod presennol o 10 mlynedd yn rhy hir ac y byddai unrhyw ostyngiad yn cael ei gefnogi. Amlinellodd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y byddai'r cynnig yn caniatáu cysondeb â'r ddarpariaeth ar gyfer cwblhau'r broses gaffael. Dywedodd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes fod y cynnig yn un synhwyrol y gellid ei leihau ymhellach. Roedd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant yn cytuno bod y cynnig yn rhoi mwy o degwch i'r rheini mae gorchmynion prynu gorfodol o'r fath ar gyfer tai yn effeithio arnynt.
- 11.4 Dywedodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol fod ganddo brofiad o broses y Cynllun Datblygu Lleol lle mae tir yn cael ei ddyrannu neu lle mae caniatâd yn cael ei roi ac nad yw'r datblygiad yn digwydd, felly mae hyd at 6 blynedd o ostyngiad yn y cyfnod i'w groesawu.
- 11.5 Er ei fod yn cytuno â'r cynnig, roedd Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y dylai'r dystiolaeth fod yn ofynnol er mwyn dangos ei bod yn debygol y bydd angen tir ar gyfer darparu tai. Hefyd, nid yw chwe blynedd yn hir yn y broses datblygu tai, yn enwedig os oes cyfyngiadau eraill i'w goresgyn a allai oedi'r broses ddatblygu.
- 11.6 Er bod ymatebydd o'r sector Eraill yn cytuno â'r cynnig, mynegodd sylwadau nad oeddent yn berthnasol i'r cwestiwn a ofynnwyd.

C9 Ymateb Llywodraeth Cymru

Tystiolaeth yn ofynnol i ddangos ei bod yn debygol y bydd angen tir i ddarparu tai

Un o'r gofynion ar gyfer cyfiawnhau gorchymyn prynu gorfodol at ddibenion tai yw bod yn rhaid i awdurdodau ddangos, drwy dystiolaeth, bod achos cryf er budd y cyhoedd dros wneud y gorchymyn prynu gorfodol a bod y tir yn angenrheidiol er mwyn symud y cynllun yn ei flaen.

Mae canllawiau ar y cyfiawnhad sydd ei angen ar gyfer gorchymyn prynu gorfodol at ddibenion tai, a'r materion sy'n dylanwadu ar brynu gorfodol, wedi'u cynnwys yng Nghylchlythyr 003/2019 Llywodraeth Cymru: Prynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)'.

Dim ond mewn achosion lle mae naill ai'n amhosibl neu'n anymarferol prynu'r tir neu'r adeiladau drwy gytundeb y dylid defnyddio pwerau prynu gorfodol, a lle mae'r budd i'r cyhoedd o wneud hynny yn drech na hawliau'r unigolion hynny yr effeithir arnynt.

Efallai na fydd gan awdurdod lleol sy'n dymuno bwrw ymlaen â chynllun tai ddewis ond defnyddio ei bwerau prynu gorfodol os yw'r holl lwybrau eraill ar gyfer caffael y tir wedi bod yn aflwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth bresennol o dan adran 17(4) o Ddeddf Tai 1985 yn caniatáu i awdurdod tai lleol ddefnyddio pwerau prynu gorfodol er efallai na fydd angen uniongyrchol am y tir o fewn deng mlynedd, hy, mae'n bosibl y bydd angen mesur cynllunio caffael tir ar gyfer safle. Nid yw geiriad adran 17(4) bellach yn adlewyrchu blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i alluogi awdurdodau i gyflenwi mwy o dai cymdeithasol ar fyrder.

Lleihau'r cyfnod gofynnol ar gyfer y tir er mwyn darparu llety tai ymhellach
Er cysondeb, bydd ein diwygiad arfaethedig o chwe blynedd mewn perthynas â bod angen tir er mwyn darparu tai yn gydnaws â'r un cyfnod ar gyfer cwblhau'r trefniadau ar gyfer caffael tir unwaith y caiff gorchymyn prynu gorfodol ei gadarnhau.

Y camau nesaf

- 11.7 Bydd Adran 17(4) o Ddeddf Tai 1985 yn cael ei diwygio er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wrthod cadarnhau gorchymyn prynu gorfodol a wneir o dan yr adran honno oni bai eu bod yn fodlon ei bod yn debygol y bydd angen y tir er mwyn darparu tai o fewn cyfnod o chwe blynedd.

12. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 10

C10	A ydych yn cytuno y dylai Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 gael ei diwygio i roi rhyddhad o dreth trafodiadau tir yn ar ôl i awdurdod lleol wneud gorchymyn prynu gorfodol at ddibenion hwyluso'r mathau canlynol o ddatblygiad gan awdurdod lleol: • datblygu tai; • ailddatblygu neu wella eiddo gwag? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar y posibilrwydd o ddiwygio Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i roi rhyddhad o dreth trafodiadau tir yn ar ôl i awdurdod lleol wneud gorchymyn prynu gorfodol at ddibenion hwyluso'r mathau canlynol o ddatblygiad gan awdurdod lleol: • datblygu tai; • ailddatblygu neu wella eiddo gwag?	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	2	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	1	0	1	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	4	0	0	1	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	2	1	2	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	1	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		14	4	2	5	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	18	2
Cyfanswm y Ganran	90%	10%

Adolygiad ystadegol

- 12.1 Cafwyd ymatebion cadarnhaol i'r cynnig gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant o blaid. Cafwyd gwrthwynebiad gan ddau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant, un Awdurdod Cynllunio Lleol, un ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol, nac ymatebydd o'r sector Eraill ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 12.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 10 fel a ganlyn:

- Byddai'r rhyddhad ychwanegol o'r Dreth Trafodiadau Tir yn lleihau costau ymgymryd â gorchymyn prynu gorfodol a gallai ehangu'r defnydd o bwerau prynu gorfodol.
- Ni ddylid cyfyngu'r rhyddhad ychwanegol rhag y Dreth Trafodiadau Tir i'r mathau hynny o ddatblygiadau a amlinellir yn yr ymgynghoriad.

Trosolwg

- 12.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Nododd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y byddai rhyddhad ychwanegol o'r Dreth Trafodiadau Tir yn helpu awdurdodau lleol gyda materion cysylltiedig ag adnoddau ac yn ehangu'r defnydd o bwerau prynu gorfodol. Nododd Awdurdod Cynllunio Lleol arall fod y broses gorchymynion prynu gorfodol yn gostus i awdurdodau lleol a bod manteision dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd neu ddarparu tai cymdeithasol yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru i gynyddu'r ddarpariaeth tai. Ar ben hynny, nododd y dylai awdurdodau lleol gael eu heithrio rhag talu'r Dreth Trafodiadau Tir.
- 12.4 Dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill na ddylai awdurdodau lleol dalu'r Dreth Trafodiadau Tir ar dir sy'n cael ei gaffael ganddynt ar ôl gwneud gorchymyn prynu gorfodol o dan unrhyw weithdrefn ddeddfwriaethol, oherwydd bod hyn yn cynyddu cost y fenter pan maent eisoes yn defnyddio pwerau eithriadol i sicrhau canlyniad er budd y cyhoedd.
- 12.5 Awgrymodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y byddai rhyddhad ychwanegol o'r Dreth Trafodiadau Tir yn annog awdurdodau lleol a allai fod wedi cael eu rhwystro gan y costau ychwanegol i wneud mwy o ddefnydd o orchymynion prynu gorfodol. Hefyd, dylid ystyried ehangu'r mathau o ddatblygiadau y mae'r rhyddhad ychwanegol yn berthnasol iddynt, er enghraifft, i gynnwys seilwaith galluogi fel cynlluniau ffyrdd a all esgor ar gyfleoedd i ddatblygu tai yn aml. Nododd yr ymatebydd y byddai canllawiau'n ddefnyddiol er mwyn deall y mathau o gynlluniau y bwriedir i'r rhyddhad ychwanegol eu targedu.

Yn yr un modd, mynegodd Awdurdod Cynllunio Lleol ei fod yn cefnogi rhyddhad ychwanegol o'r Dreth Trafodiadau Tir ac fe nododd na ddylid cyfyngu hynny i'r mathau o ddatblygiadau a amlinellir yn yr ymgynghoriad.

- 12.6 Dywedodd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, er bod y cynnig yn un synhwyrol, ei fod yn pwysleisio'r angen i gadw gwarchodaeth statudol lawn ar gyfer ymgymerydd statudol.
- 12.7 Nododd ymatebydd arall o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes y dylai'r rhyddhad ychwanegol rhag y Dreth Trafodiadau Tir hefyd fod ar gael i hawlwyd 'Cymryd Tir' sy'n dymuno disodli'r tir a gaffaelwyd yn orfodol er cydraddoldeb.
- 12.8 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant nad oedd yn glir pam y dylai awdurdod lleol gael ei ryddhau o'r rhwymedigaeth i dalu'r Dreth Trafodiadau Tir yng nghyswllt caffael tir, ar wahân i'r ffaith syml fod caffael dan orchymyn prynu gorfodol yn llai costus yn sgil hynny. Ar ben hynny, gallai fod yn gymhellant ariannol i ddefnyddio'r broses gorchymyn prynu gorfodol yn hytrach na chaffael drwy gytundeb, a byddai hynny'n gwrthdaro â pholisi cynllunio cenedlaethol. Hefyd, nododd fod y cynnig hwn yn rhoi mantais annheg i awdurdodau lleol sydd â phwerau gorchymyn prynu gorfodol dros sefydliadau eraill sy'n adeiladu tai, p'un a ydynt yn ddarparwyr tai cymdeithasol, yn Gorfforaethau Trefi Newydd neu'n ddatblygwyr preifat. Roedd yr ymatebydd hefyd yn cwestiynu'r rhesymeg dros ryddhau awdurdodau lleol o'r Dreth Trafodiadau Tir mewn perthynas â mathau penodol o ddatblygiadau.
- 12.9 Nododd ymatebydd arall o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant na ddylai'r Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer tir sy'n cael ei gaffael yn orfodol fod yn wahanol i unrhyw sefyllfa arall. Roedd yr ymatebydd hefyd o'r farn ei bod yn debygol nad talu'r Dreth Trafodiadau Tir fyddai'r gost/ffactor tyngedfennol neu'r unig beth mae hyfywedd y prosiect yn ddibynnol arno.
- 12.10 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant (na roddodd ymateb 'Ydw/Nac ydw') y byddai'r cynnig yn ddefnyddiol i leihau costau caffael gorfodol.

C10 Ymateb Llywodraeth Cymru

Lleihau costau caffael tir yn orfodol

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd a dwyn gwaith awdurdodau lleol o ddarparu tai cymdeithasol ymlaen. Mae ein cynnig yn canolbwyntio ar annog awdurdodau lleol i hwyluso'r gweithgareddau hyn.

Gall awdurdodau lleol yn defnyddio pwerau prynu gorfodol roi sicrwydd o ran cyflawniad cynlluniau datblygu. Fodd bynnag, gall defnyddio gorchymyn prynu gorfodol fod yn gostus, yn enwedig lle bônt yn ymwneud â chynlluniau datblygu ar raddfa fawr. Gan nad yw deddfwriaeth iawndal tir wedi'i datganoli i Weinidogion Cymru, byddwn yn edrych ar ffyrdd posibl o leihau'r costau sydd ynghlwm wrth ymgymryd â gorchymyn prynu gorfodol drwy feysydd cyfrifoldeb datganoledig.

Y camau nesaf

- 12.11 Ar ôl ystyried yr ymatebion i gwestiwn 10 a'r pryderon a godwyd yn ofalus, rydym yn bwriadu dadansoddi'r cynnig ymhellach drwy gynnal prosiect ar gostau prynu gorfodol. Bydd y prosiect costau prynu gorfodol yn cael ei roi ar waith er mwyn datblygu ac archwilio amryw o opsiynau ar gyfer lleihau'r costau sydd ynghlwm wrth ymgymryd â gorchymyn prynu gorfodol. O ganlyniad, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno ar hyn o bryd.

13. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 11

C11	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn caniatáu i hysbysiadau a dogfennau gael eu cyflwyno ar ffurf electronig ar yr amod y sicrheir y bydd partion nad oes ganddynt fynediad electronig neu sydd wedi gofyn am gopïau caled yn parhau i dderbyn y wybodaeth berthnasol drwy'r post? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig caniatáu i hysbysiadau a dogfennau gael eu cyflwyno ar ffurf electronig o dan y weithdrefn ymholiadau prynu gorfodol, ar yr amod y sicrheir y bydd partion nad oes ganddynt fynediad electronig neu sydd wedi gofyn am gopïau caled yn parhau i dderbyn yr wybodaeth berthnasol drwy'r post.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	1	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	2	0	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	3	1	1	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	3	2	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		15	7	1	2	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	22	1
Cyfanswm y Ganran	96%	4%

Adolygiad ystadegol

- 13.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwifoddol o blaid. Cafwyd gwrthwynebiad gan ymatebydd o'r sector Eraill. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 13.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 11 fel a ganlyn:

- Roedd consensws cyffredinol ynghylch y gefnogaeth i'r cynnig, yn amodol ar berson yn datgan ei barodrwydd i dderbyn dogfennau ar y ffurf hon.
- Copïau caled ddylai'r fformat diofyn fod oni bai fod y person yn dewis derbyn gohebiaeth yn electronig.
- Mae angen rhoi mesurau diogelu priodol ar waith i sicrhau nad yw partïon dan anfantais, er enghraifft, o ran mynediad i'r rhyngrwyd.

Trosolwg

- 13.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Dywedodd un Awdurdod Cynllunio Lleol ei fod yn welliant realistig i'r weithdrefn ymholiadau cyhoeddus ynghylch prynu gorfodol, a nododd ymatebydd o'r sector Eraill y byddai'n gwella mynediad cyhoeddus effeithlon. Cadarnhaodd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes ei bod yn ffordd synhwyrol ymlaen ar yr amod bod mesurau gwarchod angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith.
- 13.4 Mynegodd ymatebydd o'r sector Eraill gefnogaeth i'r cynnig ar yr amod bod gwarchodaeth yn cael ei roi i unrhyw un sy'n penderfynu ei fod yn dymuno / ddim yn dymuno dilyn y llwybr electronig. Ar ben hynny, rhaid cael hysbysiad ysgrifenedig gan berson yn nodi parodrwydd i dderbyn dogfennau ar y ffurf electronig, lle nad yw'r cyfryw ganiatâd wedi'i dynnu'n ôl yn ysgrifenedig.
- 13.5 Nododd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y dylai'r holl hysbysiadau a gohebiaeth barhau i gael eu hanfon fel copïau caled oni bai fod person yn dewis derbyn gohebiaeth yn electronig.
- 13.6 Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant fod angen gofalu bod gan awdurdodau lleol y gallu TG i sicrhau y gellir cyflwyno mapiau ar raddfa fawr yn electronig ac ar ffurf sy'n hygyrch i dderbynwyr a allai fod â mynediad cyfyngedig at y rhyngrwyd neu offer TG annigonol. Nododd yr ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y bydd angen rhoi mesurau gwarchod priodol ar waith i sicrhau nad yw partïon dan anfantais (ee, materion fel mynediad) ac y dylid parhau i ddarparu copïau caled lle bo hynny'n briodol.
- 13.7 Dywedodd ymatebydd o'r Sector Gwifoddol ei bod yn bwysig bod cyfathrebu electronig yn ddull ychwanegol o ddarparu gwybodaeth. Ar ben hynny, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod amrywiaeth o ffyrdd i'r cyhoedd a'r partïon yr effeithir arnynt gael gafael ar wybodaeth ynghylch gorchmynion prynu gorfodol, gan gofio nad yw llawer o bobl yn defnyddio'r rhyngrwyd o hyd, yn enwedig pobl hŷn. Hefyd, mae llawer o ardaloedd yng Nghymru sydd â chysylltedd gwael o hyd ac ni ddylai'r cymunedau hyn fod dan anfantais.

- 13.8 Dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill y gellid cyflwyno dogfennau'n electronig ond bod rhaid cyflwyno copïau caled bob amser. Hefyd, ni all copïau electronig ddisodli copïau caled.

C11 Ymateb Llywodraeth Cymru

Gwarchod y rhai sy'n dewis/ddim yn dewis derbyn hysbysiadau neu ddogfennau drwy ddulliau cyfathrebu electronig

Anfon drwy'r post fydd y drefn ddiofyn ar gyfer cyflwyno hysbysiadau neu ddogfennau o hyd o dan y weithdrefn ymholiadau cyhoeddus prynu gorfodol.

Rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n dymuno derbyn hysbysiadau neu ddogfennau drwy ddulliau cyfathrebu electronig gyflwyno'r cais hwn yn ysgrifenedig, ynghyd â cheisiadau i dynnu eu caniatâd yn ôl.

Problemau cysylltedd a sicrhau mynediad i bawb

Anfon drwy'r post fydd y drefn ddiofyn ar gyfer cyflwyno hysbysiadau neu ddogfennau o hyd o dan y weithdrefn ymholiadau cyhoeddus prynu gorfodol.

Rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n dymuno derbyn hysbysiadau neu ddogfennau drwy ddulliau cyfathrebu electronig gyflwyno'r cais hwn yn ysgrifenedig, ynghyd â cheisiadau i dynnu eu caniatâd yn ôl.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys yr arferion gorau ar gyfer awdurdodau caffael sy'n cyflwyno dogfennau neu hysbysiadau dyblyg drwy'r post i sicrhau eu bod yn cael eu danfon, ac i gyfyngu ar yr heriau posibl i'r gorchymyn prynu gorfodol.

Capasiti gwefan yr awdurdod lleol

Mae awdurdodau lleol yn meddu ar y profiad a'r adnoddau i gynhyrchu mapiau digidol manwl i'w gweld ar eu gwefannau. Er enghraifft, dogfennau a mapiau sy'n rhan o Gynlluniau Datblygu Lleol neu geisiadau cynllunio unigol. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau a hysbysiadau dan y weithdrefn ymholiadau prynu gorfodol a'n cynigion yn mynnu bod copïau o fapiau gorchmynion prynu gorfodol yn cael eu cyflwyno i bartïon â buddiant. Nid yw'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus ar gyfer prynu gorfodol ond yn mynnu bod dogfennau gorchmynion prynu gorfodol sy'n ymwneud ag ymchwiliad cyhoeddus yn cael eu rhoi ar adnau ac nid yw'n mynnu bod copïau'n cael eu cyflwyno i bartïon â buddiant.

Fel mater o drefn, rhaid cyflwyno pob hysbysiad a dogfen ar ffurf copi caled

Anfon drwy'r post fydd y drefn ddiofyn ar gyfer cyflwyno hysbysiadau neu ddogfennau o hyd o dan y weithdrefn ymholiadau cyhoeddus prynu gorfodol.

Rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n dymuno derbyn hysbysiadau neu ddogfennau drwy ddulliau cyfathrebu electronig gyflwyno'r cais hwn yn ysgrifenedig, ynghyd â cheisiadau i dynnu eu caniatâd yn ôl.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys yr arferion gorau ar gyfer awdurdodau caffael sy'n cyflwyno dogfennau neu hysbysiadau dyblyg drwy'r post i sicrhau eu bod yn cael eu danfon, ac i gyfyngu ar yr heriau posibl i'r gorchymyn prynu gorfodol.

Y camau nesaf

- 13.9 Caiff y weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus prynu gorfodol ei diwygio er mwyn caniatáu i hysbysiadau a dogfennau gael eu cyflwyno ar ffurf electronig, ar yr amod y sicrhau bod partïon nad oes ganddynt fynediad electronig neu sydd wedi gofyn am gopiâu caled yn parhau i dderbyn yr wybodaeth berthnasol drwy'r post.
- 13.10 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi ac yn darparu arferion gorau ar gyfer awdurdodau caffael sy'n cyflwyno dogfennau neu hysbysiadau dyblyg drwy'r post i sicrhau eu bod yn cael eu danfon, ac i gyfyngu ar yr heriau posibl i'r gorchymyn prynu gorfodol.

14. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 12

C12	Lle mai Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad ar orchymyn prynu gorfodol, a ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau caffael gael eu hysbysu am y terfyn amser ar gyfer cyhoeddi penderfyniad o fewn 10 diwrnod o ddiwedd yr ymchwiliad cyhoeddus? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig bod yn rhaid i awdurdodau caffael gael gwybod o fewn 10 diwrnod i ddiwedd yr ymchwiliad cyhoeddus i orchymyn prynu gorfodol beth yw'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r penderfyniad pan mai Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	1	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	7	1	0	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	4	0	0	1	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	2	3	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		16	6	0	3	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	22	0
Cyfanswm y Ganran	100%	0%

Adolygiad ystadegol

- 14.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant nac un ymatebydd o'r sector Eraill ymateb i'r cwestiwn yma yn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 14.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 12 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol y bydd y cynnig yn rhoi sicrwydd ac eglurder o ran cynlluniau gorchmynion prynu gorfodol sy'n mynd rhagddynt.
- Dylid hysbysu pob parti sy'n ymwneud â gorchymyn prynu gorfodol o'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r penderfyniad ar yr un pryd.

Trosolwg

- 14.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Mae ymatebydd o'r sector Eraill, dau Gorff Proffesiynol / Grŵp Buddiant, Awdurdod Cynllunio Lleol, ac ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol wedi cadarnhau bod eglurhad o'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau i'w groesawu oherwydd gall fod yn anodd cynllunio ymlaen llaw a bydd yn helpu i gynyddu tryloywder. Hefyd, bydd yn rhoi sicrwydd ac eglurder o ran cynlluniau gorchmynion prynu gorfodol ar gyfer y dyfodol.
- 14.4 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol y dylai pob parti mewn gorchymyn prynu gorfodol gael gwybod ar yr un pryd am yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi penderfyniad ar orchymyn prynu gorfodol, nid dim ond yr awdurdod caffael.
- 14.5 Amlygodd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnesau y byddai o gymorth pe bai'n ofynnol i arolygwyr, ar ddiwedd ymchwiliad cyhoeddus, roi syniad o'r amser y rhagwelir y bydd yn ei gymryd i benderfyniad gael ei wneud neu pryd bydd eu hadroddiad yn cael ei anfon at Weinidogion Cymru.

C12 Ymateb Llywodraeth Cymru

Rhoi gwybod i bob parti cysylltiedig â gorchymyn prynu gorfodol am yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau

Rydym yn cynnig y bydd pob parti mewn ymchwiliad cyhoeddus yn cael gwybod yn ysgrifenedig beth yw'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r penderfyniad cyn pen 10 diwrnod i ddiwedd yr ymchwiliad.

Syniad o'r amser a gymerir i wneud penderfyniad neu i anfon adroddiad yr arolygydd at Weinidogion Cymru

Gan fod natur a chymhlethdod gorchmynion prynu gorfodol yn gallu amrywio fesul achos, nid ydym yn credu ei bod yn rhesymol ei wneud yn ofyniad statudol i arolygwyr wneud y canlynol:

- (a) darparu eu hadroddiadau i Weinidogion Cymru gydag amserlen benodedig, neu
- (b) nodi ar ddiwedd ymchwiliad cyhoeddus pa bryd y bydd eu hadroddiad ar gael i Weinidogion Cymru.

Credwn fod ein cynnig i gyflwyno amserlenni statudol ar gyfer penderfynu ar rai mathau o Orchmynion Prynu Cyhoeddus, ynghyd â'r terfyn amser arfaethedig o 10 diwrnod i gadarnhau'r amserlen ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau lle cynhelir ymchwiliad cyhoeddus, yn rhoi sicrwydd i bawb sy'n rhan o'r broses gorchmynion prynu gorfodol.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys canllawiau ar yr amserlenni dangosol ynghylch pryd bydd arolygwyr yn darparu eu hadroddiadau i Weinidogion Cymru ar ôl cynnal ymchwiliad cyhoeddus.

Y camau nesaf

- 14.6 Bydd y weithdrefn ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus prynu gorfodol yn cael ei diwygio i nodi bod rhaid hysbysu'r awdurdodau caffael o'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r penderfyniad cyn pen 10 diwrnod i ddiwedd ymchwiliad cyhoeddus pan mai Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad ar y gorchymyn prynu gorfodol.
- 14.7 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi a bydd yn cynnwys canllawiau ar yr amserlenni dangosol ynghylch pryd bydd arolygwyr yn darparu eu hadroddiadau i Weinidogion Cymru ar ôl cynnal ymchwiliad cyhoeddus.

15. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 13

C13	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn caniatáu i gyfarfodydd cyn ymchwiliad gael eu cynnal dros y ffôn neu drwy gyfleuster fideogynadleda ar yr amod na fyddai hynny'n golygu y byddai unrhyw barti y mae'r gorchymyn prynu gorfodol yn berthnasol iddo o dan anfantais? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig caniatáu i gyfarfodydd cyn-ymchwiliad gael eu cynnal dros y ffôn neu drwy gyfleuster fideogynadleda ar yr amod na fyddai hynny'n golygu bod unrhyw barti y mae'r gorchymyn prynu gorfodol yn berthnasol iddo o dan anfantais.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	1	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	2	0	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	4	1	0	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	4	1	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		17	6	0	2	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	23	0
Cyfanswm y Ganran	100%	0%

Adolygiad ystadegol

- 15.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 15.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 13 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol o gefnogaeth ar yr amod nad oes unrhyw barti â buddiant dan anfantais a bod arweiniad ar ystyr "dan anfantais" yn cael ei ddarparu.
- Mae'r profiad a gafwyd o ganlyniad i bandemig Covid-19 yn golygu bod hwn bellach yn opsiwn realistig.
- Dylid cadw'r opsiwn o gael cyfarfod cyn-ymchwiliad wyneb yn wyneb.

Trosolwg

- 15.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Roedd ymatebydd o'r sector Eraill ac ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol yn cefnogi'r cynnig ar yr amod nad yw unrhyw barti â buddiant yn cael ei roi dan anfantais. Yn ogystal, mynegodd Awdurdod Cynllunio Lleol gefnogaeth i'r cynnig a dywedodd y byddai'n fantais mewn perthynas ag ymestyn gweithdrefn yr ymchwiliad.
- 15.4 Amlinellodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant fod y cynnig yn opsiwn realistig i lawer oherwydd y profiad a gafwyd o ganlyniad i bandemig Covid-19. Dywedodd ymatebydd arall o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant fod y cynnig yn foderneiddiad rhesymol o ystyried y profiadau a'r dysgu sydd wedi deillio o bandemig Covid-19.
- 15.5 Gofynnodd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant am arweiniad pellach ar y diffiniad o'r term "dan anfantais".
- 15.6 Amlygodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y bydd angen bod yn ofalus er mwyn sicrhau bod partion â buddiant yn gallu cael mynediad at gyfleusterau ffôn neu fideo gynadledd, yn enwedig mewn rhai ardaloedd.
- 15.7 Roedd ymatebydd o'r sector Eraill o'r farn y gellid cynnal cyfarfodydd cyn-ymchwiliad drwy gynhadledd fideo ond nid dros y ffôn.
- 15.8 Amlinellodd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnesau yr opsiwn o gynnal cyfarfod cyn-ymchwiliad wyneb yn wyneb, efallai yn ôl disgrisiwn yr arolygydd neu ar gais ffurfiol y prif bartion. Hefyd, ar gyfer cynigion dadleuol yng nghyswllt caffael gorfodol, mae'n fuddiol cynnal cyfarfodydd cyn-ymchwiliad wyneb yn wyneb.

C13 Ymateb Llywodraeth Cymru

Diffiniad o'r term "dan anfantais"

Cynigiwn fod geiriad y ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth yn cael ei ddrafftio i sicrhau nad oes amwysedd o ran y termau a ddefnyddir a bod diffiniadau perthnasol yn cael eu darparu. Rydym o blaid defnyddio'r geiriad "*ni fyddai'n rhoi unrhyw un o'r partiön dan anfantais*" gan ei fod yn cael ei sefydlu o dan y drefn gwrandawiadau ar gyfer ceisiadau angenrheidiol am fforddfraint.

Sicrhau mynediad i bob parti

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn darparu canllawiau ac arferion gorau ar gyfer cynnal cyfarfodydd cyn-ymchwiliad dros y ffôn neu drwy gyfleuster fideogynadledda. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau nad yw partiön y mae gorchymyn prynu gorfodol yn berthnasol iddynt yn cael eu rhoi dan anfantais.

Rydym yn cynnig y bydd Gweinidogion Cymru neu arolygwyr yn gallu canslo cyfarfod cyn-ymchwiliad dros y ffôn neu drwy gyfleusterau fideo a dychwelyd i gyfarfod wyneb yn wyneb pan fydd risg o roi parti â buddiant dan anfantais.

Cyfarfodydd cyn-ymchwiliad a gynhelir drwy gynhadledd fideo yn unig

Rydym yn cynnig cynnal cyfarfodydd cyn-ymchwiliad dros y ffôn neu drwy gyfleuster fideo yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru neu arolygydd.

Opsiwn i gael cyfarfodydd cyn-ymchwiliad wyneb yn wyneb

Rydym yn cynnig cynnal cyfarfodydd cyn-ymchwiliad dros y ffôn neu drwy gyfleuster fideo yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru neu arolygydd. Yn yr un modd, byddwn yn parhau i sicrhau bod modd cynnal cyfarfodydd cyn-ymchwiliad wyneb yn wyneb.

Rydym yn cynnig y bydd Gweinidogion Cymru neu arolygwyr yn gallu canslo cyfarfod cyn-ymchwiliad dros y ffôn neu drwy gyfleusterau fideo a dychwelyd i gyfarfod wyneb yn wyneb pan fydd risg o roi parti â buddiant dan anfantais.

Y camau nesaf

- 15.9 Bydd y weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus ar gyfer prynu gorfodol yn cael ei diwygio er mwyn caniatáu i gyfarfodydd cyn-ymchwiliad gael eu cynnal dros y ffôn neu drwy gyfleuster fideogynadledda ar yr amod na fyddai hynny'n golygu y byddai unrhyw barti y mae'r gorchymyn prynu gorfodol yn berthnasol iddo o dan anfantais.
- 15.10 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi a bydd yn darparu canllawiau ar gynnal cyfarfodydd cyn-ymchwiliad dros y ffôn neu drwy gyfleuster fideogynadledda i sicrhau nad oes unrhyw barti â buddiant yn cael ei roi dan anfantais.

16. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 14

C14	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn dileu'r gofyniad i gyflwyno hysbysiad am y canlynol: (a) y bwriad i gynnal cyfarfod cyn ymchwiliad drwy gyhoeddi hysbysiad mewn un papur newydd neu fwy (b) dyddiad, amser a lleoliad cyfarfod cyn ymchwiliad naill ai drwy osod hysbysiad safle neu drwy gyhoeddi hysbysiad mewn un papur newydd neu fwy Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig dileu'r gofyniad i hysbysu ynghylch: (a) y bwriad i gynnal cyfarfod cyn-ymchwiliad drwy gyhoeddi hysbysiad mewn un neu ragor o bapurau newydd (b) dyddiad, amser a lleoliad cyfarfod cyn-ymchwiliad naill ai drwy osod hysbysiad safle neu drwy gyhoeddi hysbysiad mewn un neu ragor o bapurau newydd	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	0	2	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	1	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	1	2	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	1	3	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	2	0	3	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	0	1	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		9	2	12	0	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	11	12
Cyfanswm y Ganran	48%	52%

Adolygiad ystadegol

- 16.1 Roedd rhaniad bron yn gyfartal rhwng yr ymatebwyr a oedd yn cytuno/anghytuno â'r cynnig, er bod mwyafrif bach o'r ymatebwyr yn anghytuno. Cafwyd gwrthwynebiad gan Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac ymatebwyr o'r Sector Gwirfoddol. Roedd ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, pum Awdurdod Cynllunio Lleol, ymatebydd o'r sector Eraill, a dau Gorff Proffesiynol / Grŵp Buddiant o blaid. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 16.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 14 fel a ganlyn:

- Gallai dileu'r gofyniad i hysbysebu cyfarfodydd cyn-ymchwiliad mewn papur newydd ac ar y safle eithrio rhai partion â buddiant ac arwain at oedi a heriau i orchymyn prynu gorfodol.
- Dylid parhau i ddarparu rhyw fath o hysbysiad papur newydd.
- Dylai'r wybodaeth fod ar gael yn electronig ar wefan yr awdurdod caffael

Trosolwg

- 16.3 Yn gyffredinol, cafwyd ymateb cymysg i'r cynnig. O'r ymatebwyr hynny a roddodd sylwadau, roedd y rhan fwyaf yn negyddol. Mynegodd Awdurdod Cynllunio Lleol gefnogaeth lwyr i'r cynnig. Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol arall, er ei fod yn dangos cefnogaeth, os nad yw person yn cael gwybod am gyfarfod cyn-ymchwiliad, y gallai hynny arwain at oedi a heriau i'r gorchymyn prynu gorfodol. Awgrymodd ymatebydd o'r sector Eraill, er ei fod yn mynegi cefnogaeth, y dylid parhau i gyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd gan ei fod er budd y cyhoedd.
- 11.4 Dywedodd Corff Proffesiynol / Grŵp Buddiant y byddai dileu'r gofyniad i roi gwybod am gyfarfodydd cyn-ymchwiliad drwy hysbysiadau mewn papurau newydd ac ar safleoedd yn ymddangos yn groes i natur agored a thryloyw'r broses. Ar ben hynny, er bod costau ynghlwm wrth gyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd ac ar safleoedd, dylid sicrhau gwybodaeth gyhoeddus barhaus. Awgrymodd yr ymatebydd y gellid ategu hyn drwy sicrhau ei fod ar gael yn electronig ar wefan yr awdurdod caffael.
- 16.5 Nododd Awdurdod Cynllunio Lleol, drwy beidio â hysbysebu'r cyfarfod cyn-ymchwiliad yn ehangach, fod risg y bydd nifer o bartion anhysbys sydd heb eu cynnwys yn y gwaith o gynnal yr ymchwiliad yn dod i'r ymchwiliad, a allai arwain at oedi yn y gweithrediadau. Ar ben hynny, dylai hysbysebu'r cyfarfod cyn-ymchwiliad mewn papurau newydd ac ar y safle helpu i leihau'r risg.

- 16.6 Amlinellodd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes fod hysbysebu'r cyfarfodydd cyn-ymchwiliad yn wybodaeth allweddol er mwyn hysbysu'r cyhoedd.
- 16.7 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant, os yw'r ymchwiliad i fod yn gyhoeddus, yna dylid hefyd hysbysebu'r cyfarfod cyn-ymchwiliad er mwyn cynorthwyo partïon â buddiant, nid dim ond y rheini yr effeithir arnynt yn uniongyrchol. Yn yr un modd, amlinellodd ymatebydd o'r sector Eraill y byddai cyflwyno hysbysiad o gyfarfod cyn-gwrandawriad mewn papur newydd neu hysbysiad safle yn gyfle arall i ddwyn y cynigion i sylw'r partïon â buddiant. Hefyd, dylid gwrthod dileu'r meini prawf ar gyfer hysbysebu gwrandawiadau o unrhyw fath.
- 16.8 Nododd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, er ei fod o'r farn bod y gweithdrefnau hysbysu ar gyfer cyfarfod cyn-ymchwiliad efallai braidd yn ormodol, fod gan bryniant gorfodol y potensial i effeithio ar fwy o bobl na'r rheini sydd dan fygythiad uniongyrchol yn sgil colli eu buddiant mewn tir. Ar ben hynny, er mwyn bod yn deg, dylid parhau i ddarparu rhyw fath o hysbysiad papur newydd – un papur newydd yn unig o bosibl. Hefyd, gallai'r cynnig leihau gallu trydydd partïon i gymryd rhan yn y broses.
- 16.9 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant fod papurau newydd yn aml yn opsiwn sy'n cael ei ffafrio ac yn brif ffynhonnell newyddion ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn sy'n gallu cael eu heithrio'n ddigidol. Yn yr un modd, awgrymodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol y gallai'r cynnig roi rhai pobl dan anfantais ac y dylid darparu cymaint o gyfleoedd â phosibl er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau o'r fath a galluogi ymgysylltu priodol. Hefyd, er y gallai defnyddio dulliau electronig gynyddu ymwybyddiaeth, ystyrir y dylai'r holl ddulliau cyhoeddusrwydd presennol barhau.
- 16.10 Nododd Awdurdod Cynllunio Lleol, er bod costau ynghlwm wrth gyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd ac ar safleoedd, ei bod yn hanfodol bod yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ac nad yw cyfathrebu electronig bob amser yn ddigon dibynadwy na chadarn mewn llawer o ardaloedd gwledig.
- 16.11 Amlinellodd ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall y dylai'r holl gyfarfodydd fod yn dryloyw a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl. Yn yr un modd, tynnodd ymatebydd o'r sector Eraill sylw at yr holl fathau o gyhoeddusrwydd y mae angen eu defnyddio i sicrhau ymwybyddiaeth.

C14 Ymateb Llywodraeth Cymru

Er ein bod yn credu bod y gweithdrefnau hysbysu ar gyfer cyfarfodydd cyn-ymchwiliad yn ormodol, rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd mewn ymatebion i gwestiwn 14. Er mwyn cynnal tegwch a thryloywder, cynyddu ymgysylltiad â'r broses gorchmynion prynu gorfodol, a lleihau'r heriau posibl i orchmynion prynu gorfodol, byddwn yn diwygio ein cynnig.

O dan ein cynnig diwygiedig, rydym yn bwriadu diwygio'r weithdrefn bresennol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd cyn-ymchwiliad o dan reolau 5(5) a 6(5) o Reolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010 drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau caffael roi hysbysiad o ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod cyn-ymchwiliad ddim hwy na phythefnos cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer cynnal y cyfarfod cyn-ymchwiliad, a hynny drwy gymryd un neu ragor o'r camau canlynol:

- (a) gosod hysbysiad safle, a
- (b) chyhoeddi hysbysiad mewn un papur newydd lleol (sy'n gyson â'n cynnig i gyhoeddi hysbysiadau o ymchwiliadau cyhoeddus mewn un papur newydd lleol), a
- (c) chyhoeddi fersiwn ddigidol o'r hysbysiad papur newydd ar wefan sy'n eiddo i'r awdurdod caffael ac yn cael ei chynnal ganddo (sy'n gyson â'n cynigion ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau papur newydd ar yr un pryd mewn fformat digidol ar wefannau awdurdodau caffael).

Er mwyn lleihau'r costau o ymgymryd â gorchymyn prynu gorfodol, byddwn yn mynd ar drywydd ein cynnig i ddileu'r gofyniad o dan reolau 5(1) a 6(1) o Reolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010 i awdurdodau caffael gyhoeddi hysbysiad mewn un neu ragor o bapurau newydd ynghylch bwriad Gweinidogion Cymru i gynnal cyfarfod cyn-ymchwiliad.

Y camau nesaf

16.12 Bydd y weithdrefn ymholiadau cyhoeddus ar gyfer prynu gorfodol yn cael ei diwygio er mwyn:

- (a) dileu'r gofyniad bod awdurdodau caffael yn cyhoeddi hysbysiad mewn un neu ragor o bapurau newydd yn nodi bwriad Gweinidogion Cymru i gynnal cyfarfod cyn-ymchwiliad; ac
- (b) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau caffael roi gwybod am ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod cyn-ymchwiliad dim hwyrach na 2 wythnos cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer cynnal y cyfarfod, drwy gymryd un neu ragor o'r camau canlynol:
 - (i.) gosod hysbysiad safle, a
 - (ii.) chyhoeddi hysbysiad mewn un papur newydd lleol, a
 - (iii.) chyhoeddi fersiwn ddigidol o'r hysbysiad papur newydd ar wefan sy'n eiddo i'r awdurdod caffael ac yn cael ei chynnal ganddo.

17. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 15

C15	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn egluro y dylid cyhoeddi hysbysiadau am ymchwiliad cyhoeddus mewn un papur newydd sy'n cael ei ddosbarthu yn yr ardal leol lle y lleolir y tir? Os na, pam?
Mae'r broses ymgynghori yn cynnig egluro y dylid cyhoeddi hysbysiadau am ymchwiliad cyhoeddus mewn un papur newydd sy'n cael ei ddosbarthu yn yr ardal leol lle y lleolir y tir.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	1	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	2	1	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	2	1	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	4	1	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		15	6	2	2	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	21	2
Cyfanswm y Ganran	91%	9%

Adolygiad ystadegol

- 17.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Cafwyd gwrthwynebiadau gan un Awdurdod Cynllunio Lleol ac un ymatebydd o'r sector Eraill. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 17.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 15 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol o gefnogaeth, ond dylid cadw hysbysiadau mewn papurau newydd.
- Rhoi hysbysiad digidol yn lle cyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd.

Trosolwg

- 17.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill y dylid parhau i gyhoeddi hysbysiadau am ymchwiliadau cyhoeddus mewn papurau newydd. Mynegodd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes ei gefnogaeth i'r cynnig a dywedodd y dylid parhau i ddarparu rhyw fath o hysbysiad papur newydd o ran tegwch. Dywedodd ymatebydd arall o'r sector Eraill y dylai bod gan y papur newydd sy'n cael ei ddosbarthu yn ardal y gorchymyn prynu gorfodol gysylltiad gwirioneddol â'r cynllun.
- 17.4 Tynnodd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant sylw at rai papurau newydd sydd â chylchrediad uwch nag eraill, felly mae angen gofalu bod hysbysiadau'n cael digon o gyhoeddusrwydd.
- 17.5 Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol, er ei fod yn cytuno â'r cynnig, y dylai'r gofynion cyhoeddusrwydd gynnwys hysbysiad safle a hysbyseb ddigidol yn unig.
- 17.6 Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol nad oes angen cyhoeddi hysbysiad o ymchwiliad cyhoeddus mewn papur newydd ac y dylid disodli hyn drwy gyhoeddi hysbysiad ar wefan awdurdod caffael yn unig.
- 17.7 Dywedodd un ymatebydd o'r sector Eraill y dylid defnyddio pob prif bapur newydd lleol.

C15 Ymateb Llywodraeth Cymru

Gofyn am hysbysiad safle a hysbyseb ddigidol yn unig

Un o ddibenion ein diwygiadau i'r broses gorchmynion prynu gorfodol yw cynyddu ac ehangu'r ymgysylltiad. Felly, bydd y dulliau cyhoeddusrwydd presennol a amlinellir yn Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010 yn cael eu cadw a'u gwella gan y gofyniad i awdurdodau caffael gyhoeddi copi digidol o'r hysbysiad papur newydd ar-lein.

Diben y cynnig hwn yw egluro y dylid cyhoeddi hysbysiadau o ymchwiliad cyhoeddus mewn un papur newydd lleol yn unig er mwyn lleihau amwysedd yn y broses ar gyfer awdurdodau caffael.

Cyhoeddi hysbysiad o ymchwiliad cyhoeddus ar wefan awdurdod caffael yn unig

Ein cynnig yw cynyddu ac ehangu ymgysylltiad â'r broses gorchmynion prynu gorfodol. Byddai dileu'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad ymchwiliad cyhoeddus i orchymyn prynu gorfodol mewn papur newydd yn cael effaith negyddol ar ymgysylltu ac yn rhoi rhai aelodau o'r gymuned dan anfantais. Gallai hyn arwain at oblygiadau i awdurdodau caffael y sector cyhoeddus o ran cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os bydd aelodau o'r gymuned sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu rhoi dan anfantais.

Cyhoeddi hysbysiadau ym mhob prif bapur newydd lleol

Bydd y dulliau cyhoeddusrwydd presennol a amlinellir yn Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010 yn cael eu cadw a'u gwella gan y gofyniad i awdurdodau caffael gyhoeddi copi digidol o'r hysbysiad papur newydd ar-lein.

Dylai pwrpas y cynnig hwn i egluro hysbysiadau ymchwiliad cyhoeddus gael ei gyhoeddi mewn un papur newydd lleol yn unig er mwyn lleihau amwysedd yn y broses ar gyfer awdurdodau caffael. Mae ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi hysbysiad ym mhob papur newydd mawr lleol yn debygol o gynyddu'r costau a ysgwyddir gan awdurdodau caffael wrth ymgymryd â gorchmyn prynu gorfodol. Mae llawer o awdurdodau lleol yn ystyried bod y costau o ymgymryd â gorchmyn prynu gorfodol yn rhwstr i ddefnyddio eu pwerau prynu gorfodol. Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw edrych ar ffyrdd o leihau costau gorchmynion prynu gorfodol.

Parhau i gyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd a sicrhau cyhoeddusrwydd digonol i hysbysiadau papurau newydd

Un o ddibenion y diwygiadau i'r broses gorchmynion prynu gorfodol yw cynyddu ac ehangu'r ymgysylltiad. Felly, bydd y dulliau cyhoeddusrwydd presennol a amlinellir yn Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010 yn cael eu cadw a'u gwella gan y gofyniad i awdurdodau caffael gyhoeddi copi digidol o'r hysbysiad papur newydd ar-lein.

Dylai pwrpas y cynnig hwn i egluro hysbysiadau ymchwiliad cyhoeddus gael ei gyhoeddi mewn un papur newydd lleol yn unig er mwyn lleihau amwysedd yn y broses ar gyfer awdurdodau caffael.

Y camau nesaf

- 17.8 Bydd gweithdrefn yr ymchwiliadau cyhoeddus i brynu gorfodol yn cael ei diwygio er mwyn egluro y dylid cyhoeddi hysbysiadau am ymchwiliad cyhoeddus mewn un papur newydd sy'n cael ei ddosbarthu yn yr ardal leol lle y lleolir tir y gorchmynion prynu gorfodol.

18. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 16

C16	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn gallu cyflwyno hysbysiad am ymchwiliad cyhoeddus lle na ellir olrhain perchnogion neu ddeiliaid y tir neu lle y byddant yn parhau'n anhysbys ar ôl i'r awdurdod caffael gynnal ymholiadau rhesymol? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiad am ymchwiliad cyhoeddus lle na ellir olrhain perchnogion neu ddeiliaid y tir neu lle y byddant yn parhau'n anhysbys ar ôl i'r awdurdod caffael gynnal ymholiadau rhesymol.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	2	0	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	7	1	0	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	3	1	1	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	3	1	1	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	1	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		16	4	2	3	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	20	2
Cyfanswm y Ganran	91%	9%

Adolygiad ystadegol

- 18.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant o blaid. Cafwyd gwrthwynebiadau gan ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant ac ymatebydd o'r sector Eraill. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant nac un ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 18.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 16 fel a ganlyn:

- Mae'r cynnig yn rhoi eglurder i awdurdodau caffael.
- Dylid diffinio ymchwiliad rhesymol i sicrhau nad yw'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd.
- Gallai'r dull arfaethedig o gyflwyno hysbysiad gael ei gamddehongli a pheri dryswch.

Trosolwg

- 18.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Amlinellodd Awdurdod Cynllunio Lleol ei fod croesawu eglurhad ynghylch cyflwyno hysbysiadau pan fo'r tirfeddiannwr yn anhysbys neu pan nad oes modd dod o hyd iddo. Awgrymodd ymatebydd o'r sector Eraill fod y cynnig yn helpu i osgoi man gwan neu ddiffyg sy'n bresennol.
- 18.4 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant ei bod yn bwysig cael protocol clir ynghylch y chwiliadau angenrheidiol i gynnal ymchwiliad rhesymol na ddylid ond eu defnyddio fel dewis olaf. Ar ben hynny, mae risg y bydd y dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n rhy reolaidd ac y bydd gorddibyniaeth ar chwiliadau bwrdd gwaith heb ymdrech i ganfod perchnogaeth ar lawr gwlad. Yn yr un modd, gofynnodd ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall i ddiffiniad o ymchwiliad rhesymol gael ei ddarparu, gan gynnwys pa dystiolaeth y bydd awdurdodau caffael yn ei darparu a'r camau i'w cymryd.
- 18.5 Roedd ymatebydd o'r sector Eraill yn cytuno â'r cynnig ac yn nodi nad yw'n gallu gweld unrhyw anhawster o ran cyflwyno hysbysiad i rywun nad yw ei hunaniaeth yn hysbys os yw'n eiddo sydd wedi'i sefydlu. Fodd bynnag, cododd yr ymatebydd bryder ynghylch rhoi hysbysiad i "ryw berson ar y tir" neu drwy adael yr hysbysiad "ar neu gerllaw'r tir" a allai gael ei gamddefnyddio gan nad oes unrhyw ffordd o ddweud pwy yw'r person hwnnw ac a oes ganddo hawl i fod yno mewn gwirionedd. Holodd yr ymatebydd a fyddai'n well cyflwyno'r hysbysiadau mewn papur newydd a chodi hysbysiad safle gan ychwanegu'r geiriau "perchnogion a deiliaid".
- 18.6 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant (na roddodd ymateb 'Ydw/Nac ydw') y gallai'r gwasanaeth arfaethedig gael ei gamddehongli a pheri dryswch. Awgrymodd fod angen rhoi mwy o feddwl i hyn a darparu mwy o eglurder.
- 18.7 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant nad yw'n cynnig digon o warchodaeth i'r holl berchnogion a deiliaid tir.

- 18.8 Nododd ymatebydd o'r sector Eraill ei bod yn bwysig cyflwyno hysbysiad i berson a enwir ac nad yw gadael hysbysiad, neu gopi ohono, ar neu gerllaw'r tir yn foddhaol gan y gallai fynd ar goll neu gall person feddwl nad yw'r hysbysiad yn cael ei gyflwyno iddo. Ar ben hynny, nid yw'r gofyniad i roi hysbysiad i berson ar y tir yn briodol oherwydd efallai na fydd gan y person hwnnw gysylltiad â'r perchennog na'r deiliad cyfreithlon, er enghraifft; gallai fod yn ymwelydd neu'n dresmaswr. Dywedodd yr ymatebydd nad oedd yn ystyried bod y gofyniad ar awdurdod caffael i wneud "ymchwiliad rhesymol" yn ddigonol.

C16 Ymateb Llywodraeth Cymru

Cyflwyno hysbysiad i berchennog neu ddeiliad anhysbys drwy adael yr hysbysiad, neu gopi ohono, ar neu gerllaw tir

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw symleiddio'r broses gorchmynion prynu gorfodol a chael gwared ar rwystrau rhag defnyddio pwerau prynu gorfodol. Un o'r rhwystrau sy'n atal datblygiad cynlluniau yw pan fydd perchnogion tir yn dal i fod yn anhysbys neu nad oes modd dod o hyd iddynt ar ôl ymchwiliadau rhesymol. Gan fod ymchwiliad rhesymol wedi cael ei gynnal gan awdurdod caffael, credwn ei bod yn gymesur caniatáu i gynlluniau symud ymlaen drwy gyflwyno hysbysiadau gan ddefnyddio termau cyffredinol fel "perchennog", "lesddeiliad", "tenant" neu "ddeiliad".

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd mewn ymatebion i gwestiwn 16 ynghylch cyflwyno hysbysiad drwy ei adael, neu gopi ohono, ar neu gerllaw tir. Mewn ymateb, rydym yn bwriadu diwygio ein cynnig er mwyn iddo fod yn berthnasol i gyflwyno hysbysiadau mewn papurau newydd a gosod hysbysiadau safle yn benodol o dan reol bresennol rhif 13 yn Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys canllawiau ac arferion gorau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau o ymchwiliadau cyhoeddus lle na ellir dod o hyd i berchnogion na deiliaid neu eu bod yn dal yn anhysbys ar ôl i awdurdodau caffael gynnal ymchwiliad rhesymol i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n gywir.

Diffiniad o ymchwiliad rhesymol a phrotocol clir ar gyfer ymgymryd â chyfeiriadau tir

Mae cyfraith achosion yn pennu beth mae "ymchwiliad rhesymol" yn ei olygu a byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys canllawiau ac arferion gorau ar gyfer y gwahanol ddulliau sydd ar gael i awdurdodau caffael er mwyn cynnal ymchwiliad rhesymol. Bydd y canllawiau a'r arferion gorau yn amlinellu'r camau y dylid eu cymryd i roi tystiolaeth bod ymchwiliad rhesymol wedi cael ei gynnal. Rhoddir enghreifftiau hefyd o'r mathau o dechnegau cyfeirnod tir y dylai awdurdodau caffael eu defnyddio i ganfod manylion tîrfeddianwyr cyn rhoi sylw i hysbysiadau yn y disgrifiad o "berchennog" neu "ddeiliad".

Y camau nesaf

- 18.9 Bydd y weithdrefn ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus i brynu gorfodol yn cael ei diwygio er mwyn caniatáu i hysbysiad o ymchwiliad cyhoeddus gael ei roi mewn papur newydd ac i hysbysiad safle gael ei osod lle na ellir dod o hyd i berchnogion neu ddeiliaid, neu lle bônt yn anhysbys, drwy gyfeirio'r mater atynt yn ôl y disgrifiad o "berchennog", "lesddeiliad", "tenant" neu "ddeiliad" y tir (gan ei ddisgrifio) ar yr amod bod ymchwiliad rhesymol wedi'i gynnal gan yr awdurdod caffael.
- 18.10 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi a bydd yn rhoi canllawiau ac arferion gorau ar gyfer y canlynol:
- cyflwyno hysbysiadau am ymchwiliadau cyhoeddus lle na ellir olrhain perchnogion neu ddeiliaid y tir neu lle bônt yn dal yn anhysbys ar ôl i'r awdurdod caffael gynnal ymholiadau rhesymol; a
 - bod y camau y dylid eu cymryd i ddarparu tystiolaeth o ymchwiliad rhesymol wedi cael eu cymryd.

19. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 17

C17	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn caniatáu mai dim ond lle na ddarparwyd copïau o Ddatganiad o'r Rhesymau i'r bobl gymwys pan gaiff gorchymyn prynu gorfodol ei wneud y bydd yn ofynnol cyflwyno datganiadau amlinellol? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig caniatáu i ddatganiadau amlinellol gael eu cyflwyno dim ond lle nad oes copïau o'r Datganiad o'r Rhesymau wedi'u darparu i bobl gymwys pan wneir gorchymyn prynu gorfodol.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	1	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	1	0	1	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	1	0	2	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	4	1	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		16	4	0	5	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	20	0
Cyfanswm y Ganran	100%	0%

Adolygiad ystadegol

- 19.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Ni wnaeth dau Gorff Proffesiynol / Grŵp Buddiant, dau ymatebydd o'r sector Eraill nac Awdurdod Cynllunio Lleol ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 19.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 17 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol y bydd y cynnig yn sicrhau llai o ddyblygu, ac yn lleihau'r amser a'r costau dan sylw i awdurdodau caffael.
- Gwneud Datganiad o'r Rhesymau yn ofyniad statudol.
- Rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng yr hyn sy'n Ddatganiad o'r Rhesymau a Datganiad Amlinellol.

Trosolwg

- 19.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Roedd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant wedi dweud y byddai'r newid yn sicrhau bod llai o wybodaeth yn cael ei dyblygu. Dywedodd ymatebydd arall o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y dylai'r cynnig leihau'r amser a'r costau dan sylw i awdurdodau caffael a bydd yn golygu na fydd gwrthwynebwyr yn cael eu gorlwytho â gwaith papur ychwanegol, dyblyg.
- 19.4 Er bod Awdurdod Cynllunio Lleol yn cefnogi'r cynnig, holodd a ellid rhoi'r gofyniad i baratoi Datganiad o'r Rhesymau ar sail statudol gan ei fod yn rhan safonol o'r broses prynu gorfodol. Roedd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio/Busnes hefyd wedi awgrymu y gellid gwneud cynhyrchu Datganiad o'r Rhesymau yn ofyniad statudol. Amlinellodd yr ymatebydd ei bod yn rhaid cael gwahaniaeth clir ynghylch beth sy'n ddatganiad amlinellol a beth sy'n Ddatganiad o'r Rhesymau.
- 19.5 Dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill, a oedd yn cytuno â'r cynnig, ei bod yn rhaid amlygu ei bod yn dal yn rhaid i awdurdod caffael sydd wedi methu darparu Datganiadau o'r Rhesymau ar y cam gwneud gorchymyn prynu gorfodol ddarparu datganiad amlinellol. Gofynnodd yr ymatebydd hefyd a ellid ychwanegu datganiad at Ddatganiad o'r Rhesymau i nodi y bydd yn dyblu fel datganiad amlinellol os gofynnir am ymchwiliad cyhoeddus.

C17 Ymateb Llywodraeth Cymru

Gofyniad statudol i lunio Datganiad o'r Rhesymau

Fel rhan o'r diwygiadau i'r broses gorchymynion prynu gorfodol, roeddem wedi ystyried gwneud cyhoeddi Datganiad o'r Rhesymau yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Caffael Tir 1981. Fodd bynnag, mae cynhyrchu Datganiad o'r Rhesymau yn arfer safonol sydd wedi hen ennill ei blwyf ac mae'n ofyniad polisi o dan Gylchlythyr 003/2019 Llywodraeth Cymru: Prynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)'. Felly, nid ydym yn credu bod angen ei wneud yn ofyniad statudol i awdurdodau caffael gyhoeddi Datganiad o'r Rhesymau pan fyddant yn gwneud gorchymyn prynu gorfodol.

Gwahaniaethu rhwng Datganiad o'r Rhesymau a Datganiad Amlinellol
Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn rhoi arweiniad ar beth yw datganiad amlinellol ac o dan ba amgylchiadau y dylid paratoi un.

Ategir hyn gan ganllawiau yng Nghylchlythyr 003/2019 Llywodraeth Cymru: Prynu Gorfodol yng Nghymru a Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)' ynghylch a ddylid cynhyrchu Datganiad o'r Rhesymau.

Datganiad yn cadarnhau y bydd Datganiad o'r Rhesymau yn dyblygu fel datganiad amlinellol

Rydym yn cynnig y bydd rheolau gweithdrefn yr ymchwiliad yn cael eu geirio i sicrhau pan na fydd Datganiad o'r Rhesymau wedi cael ei gynhyrchu gan awdurdod caffael ar y cam gwneud gorchymyn prynu gorfodol y bydd angen i'r awdurdod caffael gyflwyno datganiad amlinellol.

Mae Cylchlythyr 003/2019 Llywodraeth Cymru: Prynu Gorfodol yng Nghymru a Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)' yn cael ei ddiweddarau gyda chanllawiau ar gynnwys datganiad mewn Datganiad o'r Rhesymau i ddynodi a fydd yn dyblygu i fod yn ddatganiad amlinellol pan gynhelir ymchwiliad cyhoeddus.

Yn yr un modd, byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn rhoi enghraifft o Ddatganiad o'r Rhesymau a fydd yn adlewyrchu'r canllawiau diwygiedig.

Y camau nesaf

- 19.6 Bydd y weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus prynu gorfodol yn cael ei diwygio er mwyn caniatáu i ddatganiadau amlinellol gael eu cyflwyno dim ond lle nad oes copïau o'r Datganiad o'r Rhesymau wedi'u darparu i bersonau cymwys pan wneir gorchymyn prynu gorfodol.
- 19.7 Bydd Cylchlythyr 003/2019 Llywodraeth Cymru: Prynu Gorfodol yng Nghymru a Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)' yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newid arfaethedig i weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus prynu gorfodol. Bydd hefyd yn adlewyrchu'r arfer o gynnwys datganiad mewn Datganiad o'r Rhesymau sy'n nodi y bydd yn dyblygu i fod yn ddatganiad amlinellol os bydd y gorchymyn prynu gorfodol yn destun ymchwiliad cyhoeddus.
- 19.8 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi a bydd yn rhoi arweiniad ar yr amgylchiadau pan ddylid llunio datganiadau amlinellol. Bydd hefyd yn cynnwys enghraifft o Ddatganiad o'r Rhesymau a fydd yn adlewyrchu'r canllawiau diweddaraf yng Nghylchlythyr 003/2019 Llywodraeth Cymru: Prynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)'.

20. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 18

C18	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn cynyddu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno Datganiadau o'r Achosion i ddim hwyrach na phedair wythnos cyn y dyddiad a drefnwyd ar gyfer cynnal yr ymchwiliad cyhoeddus lle na chynhelir cyfarfod cyn ymchwiliad rheol 4 (cyfarfod cyn ymchwiliad a gynnullir gan Weinidogion Cymru? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig cynyddu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno Datganiadau o'r Achosion i ddim hwyrach na phedair wythnos cyn y dyddiad a drefnwyd ar gyfer cynnal yr ymchwiliad cyhoeddus lle na chynhelir cyfarfod cyn-ymchwiliad rheol 4 (hy cyfarfod cyn-ymchwiliad a gynnullir gan Weinidogion Cymru).	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	2	0	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	8	0	0	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	4	0	0	1	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	4	0	1	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		20	1	1	3	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	21	1
Cyfanswm y Ganran	95%	5%

Adolygiad ystadegol

- 20.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Cafwyd gwrthwynebiad gan ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant. Ni wnaeth un ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 20.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 18 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol o blaid ymestyn yr amserlen ar gyfer cyflwyno Datganiadau Achos i ddim hwyrach na phedair wythnos cyn y dyddiad a drefnwyd i gynnal yr ymchwiliad cyhoeddus.
- Dylid gorfodi'r terfyn amser.
- Ychydig iawn o amser a fydd gan wrthwynebwyr i baratoi tystiolaeth mewn ymateb i Ddatganiad Achos.

Trosolwg

- 20.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Nododd ymatebydd o'r sector Eraill y dylid cael dull gweithredu cyson. Awgrymodd un ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol, er ei fod yn cytuno, ei bod hi'n bwysig gorfodi terfyn amser o'r fath gan fod y gostyngiad o 2 wythnos yn rhoi llai o amser i drydydd partïon asesu achos ac felly byddai unrhyw ostyngiad pellach yn niweidiol i bartïon eraill. Hefyd, dylid dosbarthu datganiadau i bob parti yn ddi-oed ar ôl eu cyflwyno.
- 20.4 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant fod Datganiad Achos yn rhoi amlinell i wrthwynebwyr o ymateb yr awdurdod caffael i'w gwrthwynebiad a bod angen i wrthwynebwyr baratoi eu tystiolaeth yn briodol ar gyfer unrhyw ymchwiliad gorchymyn prynu gorfodol. Ar ben hynny, pe bai'r Datganiad Achos yn cael ei ddarparu dim ond 4 wythnos cyn unrhyw ymchwiliad, ni fyddai hyn yn rhoi llawer o amser i wrthwynebydd baratoi tystiolaeth mewn ymateb i'r Datganiad Achos hwnnw. Roedd yr ymatebydd yn tanlinellu y byddai hyn yn rhoi gwrthwynebwyr dan anfantais o'i gymharu ag awdurdodau caffael.

C18 Ymateb Llywodraeth Cymru

Rhoi gwrthwynebwyr dan anfantais

O dan ein cynnig gwreiddiol, lle na chynhelir cyfarfod cyn-ymchwiliad rheol 4, byddai wedi bod yn rhaid i awdurdodau caffael gyflwyno eu Datganiad Achos i'r rheini sy'n parhau i wrthwynebu 4 wythnos cyn cynnal yr ymchwiliad cyhoeddus. Yn ymarferol, byddai hyn wedi digwydd wythnos cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno prawf y dystiolaeth i'r arolygydd.

Rydym o'r farn bod yr amseriad yn gyfyngedig iawn o dan y weithdrefn bresennol ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus i brynu gorfodol, sy'n golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau caffael gyflwyno Datganiadau Achosion cyn pen 6 wythnos i'r dyddiad perthnasol pan na chynhelir cyfarfod cyn-ymchwiliad rheol 4. Er ein bod wedi ymrwymo o hyd i ddiwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus ar gyfer prynu gorfodol, rydym yn cydnabod yr ymatebion i gwestiwn 18 a'r pryderon a godwyd.

I gydbwysu tegwch yn erbyn dileu rhwystrau i ddefnyddio pwerau prynu gorfodol drwy osod llai o gyfyngiadau ar adnoddau awdurdodau caffael, byddwn yn diwygio ein cynnig er mwyn:

- Rhoi 4 wythnos ychwanegol i awdurdodau caffael baratoi a chyflwyno eu Datganiadau Achosion pan na chynhelir cyfarfod cyn-ymchwiliad rheol 4, hy, bydd yn rhaid i awdurdodau caffael gyflwyno eu Datganiadau Achosion cyn pen 10 wythnos i'r dyddiad perthnasol yn lle'r 6 wythnos sydd ar gael o dan y weithdrefn bresennol ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus prynu gorfodol.
- Bydd gwrthwynebwyr yn cael 9 wythnos i ystyried Datganiad Achos awdurdod caffael cyn cyflwyno prawf y dystiolaeth i'r arolygydd yn lle'r 13 wythnos sydd ar gael o dan y weithdrefn bresennol ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus prynu gorfodol. Bydd y cyfnod hwn hefyd ar gael i awdurdodau caffael ystyried a pharatoi ymateb i Ddatganiad Achos gwrthwynebydd os caiff un ei gyflwyno.

Gorfodi dyddiadau cau

Bydd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno Datganiad Achos yn cael ei gyfleu i'r holl bartïon sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad cyhoeddus ar ddechrau gweithdrefn yr ymchwiliad. Bydd copi o Ddatganiad Achos hefyd yn cael ei roi ar adnau i drydydd partïon ei weld tan ddechrau'r ymchwiliad cyhoeddus.

O dan reolau'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus i brynu gorfodol, ceir cyfnod hysbysu sylfaenol ar gyfer pennu a rhoi cyhoeddusrwydd i'r hysbysiad o'r ymchwiliad cyhoeddus. Nid oes modd cwtogi ar y cyfnod hwn ac felly mae'n caniatáu cyfnod penodol i drydydd partïon weld dogfennau'r ymchwiliad (gan gynnwys Datganiadau Achosion) tra byddant ar adnau.

Y camau nesaf

- 20.5 Bydd y weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus prynu gorfodol yn cael ei diwygio i gynyddu'r amserlen ar gyfer cyflwyno Datganiad Achos gan awdurdod caffael i ddim hwyrach na 10 wythnos ar ôl y dyddiad perthnasol pan na chynhelir cyfarfod cyn-ymchwiliad rheol 4 (hy, cyfarfod cyn-ymchwiliad a elwir gan Weinidogion Cymru).

21. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 19

C19	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ehangu'r terfyn amser o 5 wythnos ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig am ymchwiliad cyhoeddus? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ehangu'r terfyn amser o 5 wythnos ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig am ymchwiliad cyhoeddus.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	1	1	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	0	1	1	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	3	2	0	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	4	0	1	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		15	4	3	3	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	19	3
Cyfanswm y Ganran	86%	14%

Adolygiad ystadegol

- 21.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Cafwyd gwrthwynebiadau gan ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Awdurdod Cynllunio Lleol, ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant nac un Awdurdod Cynllunio Lleol ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 21.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 19 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol o gefnogaeth yn amodol ar amgylchiadau eithriadol ar gyfer ymestyn y terfyn amser o 5 wythnos.
- Ni ddylai ymestyn y terfyn amser o 5 wythnos fod yn benagored.
- Pryderon y bydd ymestyn y terfyn amser o 5 wythnos yn achosi oedi o ran symud gorchymyn prynu gorfodol rhagddo.

Trosolwg

- 21.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Nododd un ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol y dylid ond defnyddio'r estyniad o 5 wythnos i'r terfyn amser pan fydd hynny'n hanfodol ac wedyn bod penderfyniad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd. Roedd ymatebydd o'r sector Eraill yn cytuno mewn amgylchiadau eithriadol y dylai Gweinidogion Cymru gael ymestyn y terfyn amser o 5 wythnos ar yr amod bod arwydd clir ynghylch pam y caniatwyd yr estyniad. Roedd yr ymatebydd yn tynnu sylw at y ffaith ar gyfer gorchymyn prynu gorfodol adfywio ar raddfa fawr neu orchymyn prynu gorfodol gyda llawer o wrthwynebwyr y derbynnir efallai na fydd 5 wythnos yn ddigon hir i drefnu'r ymchwiliad ac i roi hysbysiadau priodol. Dywedodd ymatebydd arall o'r sector Eraill na ddylid ymestyn y terfyn amser ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ymchwiliad cyhoeddus ddim mwy na 8 wythnos.
- 21.4 Roedd un ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor ond yn mynegi pryder os byddai'r disgresiwn a roddid i Weinidogion Cymru yn benagored. Ar ben hynny, bod y cynnig yn ymddangos yn groes i gynigion Llywodraeth Cymru i symleiddio'r broses gorchymynion prynu gorfodol.
- 21.5 Roedd Awdurdod Cynllunio Lleol wedi amlinellu, gan fod y broses gorchymyn prynu gorfodol eisoes yn hir, y byddai'r cynnig ond yn ei wneud yn hirach fyth. Yn yr un modd, awgrymodd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes y byddai o bosibl yn oedi prosiectau.
- 21.6 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant y gallai'r cynnig oedi'r broses gorchymyn prynu gorfodol, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos bod y gallu i ymestyn y terfyn amser yn benagored. Ar ben hynny, bod y terfyn amser presennol o 5 wythnos yn ddigonol er y gallai fod rhai amgylchiadau lle byddai estyniad o fudd. Er enghraifft, lle mae cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud rhwng yr awdurdod caffael a'r gwrthwynebydd. Roedd yr ymatebydd yn credu petai newid yn cael ei gyflwyno, y dylid ei ganiatáu mewn amgylchiadau penodol a bod terfyn amser ar unrhyw estyniad.

C19 Ymateb Llywodraeth Cymru

Estyniadau penagored ac oedi posibl wrth fwrw ymlaen â gorchymyn prynu gorfodol

Er y gallai ein cynnig achosi oedi wrth drefnu ymchwiliad cyhoeddus, dylid ei gydbwyso yn erbyn posibilrwydd cwtagi hyd ymchwiliadau cyhoeddus os caniateir mwy o amser i awdurdodau caffael ystyried ac ymateb/trafod â gwrthwynebwyr. Gallai hyn helpu i leihau nifer y materion i'w harchwilio mewn ymchwiliad. Gallai ein cynnig hefyd helpu i leihau cost gorchmynion prynu gorfodol i awdurdodau caffael a gwrthwynebwyr os cwtagir ar ymchwiliadau cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd yn yr ymatebion i gwestiwn 19 sy'n ymwneud â chaniatáu cyfnod estyniad penagored a'r posibilrwydd o achosi hynny. Yn yr ysbryd o symleiddio proses gorchmynion prynu gorfodol, rydym yn bwriadu diwygio ein cynnig er mwyn i Weinidogion Cymru allu ymestyn y terfyn amser o 5 wythnos ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ymchwiliad cyhoeddus hyd at uchafswm o 3 wythnos.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys canllawiau ar sut bydd y weithdrefn newydd yn gweithio, gan gynnwys enghreifftiau o'r amgylchiadau lle gellir ymestyn y dyddiad cau ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ymchwiliad cyhoeddus.

Rhoi arwydd clir pam mae terfyn amser o 5 wythnos yn cael ei ymestyn

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi gwybod i bawb sydd â buddiant mewn gorchymyn prynu gorfodol pam mae'r terfyn amser ar gyfer cyhoeddi hysbysiad ysgrifenedig o ymchwiliad cyhoeddus wedi cael ei ymestyn.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys canllawiau ar sut bydd y weithdrefn newydd yn gweithio, gan gynnwys enghreifftiau o'r amgylchiadau lle gellir ymestyn y dyddiad cau ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ymchwiliad.

Y camau nesaf

- 21.7 Bydd y weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus yn cael ei diwygio er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ehangu'r terfyn amser o 5 wythnos ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig am ymchwiliad cyhoeddus hyd at uchafswm o 3 wythnos.
- 21.8 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi a bydd yn cynnwys canllawiau ar sut bydd y weithdrefn newydd yn gweithio, gan gynnwys enghreifftiau o'r amgylchiadau lle gellir ymestyn y dyddiad cau ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ymchwiliad.

22. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 20

C20	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn caniatáu i ddogfennau sy'n gysylltiedig â gorchmynion prynu gorfodol (gan gynnwys mapiau cysylltiedig) gael eu hadneuo i'w harchwilio mewn lleoliadau ffisegol ac ar ffurf electronig, er enghraifft, ar wefan awdurdod caffael? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig caniatáu i ddogfennau sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad cyhoeddus gorchymyn prynu gorfodol (gan gynnwys mapiau cysylltiedig) gael eu hadneuo i'w harchwilio mewn lleoliadau ffisegol ac ar ffurf electronig.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	2	0	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	3	0	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	3	2	0	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	4	1	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		15	8	0	2	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	23	0
Cyfanswm y Ganran	100%	0%

Adolygiad ystadegol

- 22.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac o'r Sector Gwirfoddol o blaid. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 22.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 20 fel a ganlyn:

- Dylai dulliau adneuo ffisegol ac electronig fod ar gael.
- Dim ond ar gais y dylid darparu copïau ffisegol o ddogfennau'r gorchymyn prynu gorfodol.
- Dylid rhoi amser i awdurdodau caffael sicrhau bod gan eu gwefannau'r swyddogaethau angenrheidiol i brosesu cynlluniau ar raddfa fawr ac ati.

Trosolwg

- 22.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Awgrymodd ymatebydd o'r sector Eraill y byddai system adneuo electronig yn helpu i oresgyn yr anawsterau a gaiff gwrthwynebwyr wrth edrych ar ddogfennau gorchymynion prynu gorfodol sydd ar adnau mewn lleoliadau ffisegol. Hefyd, dywedodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol ac ymatebydd o'r sector Eraill y dylai dulliau adneuo ffisegol ac electronig fod ar gael.
- 22.4 Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol er nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn atal cyhoeddi ar wefan awdurdod caffael, y cefnogir gosod hyn ar sail statudol.
- 22.5 Roedd Awdurdod Cynllunio Lleol wedi dweud mai dim ond ar gais y dylid darparu copïau ffisegol o ddogfennau'r gorchymyn prynu gorfodol. Yn yr un modd, roedd Awdurdod Cynllunio Lleol arall wedi amlinellu y dylai hysbysiadau cyhoeddus penodedig nodi bod copïau papur holl ddogfennau'r gorchymyn prynu gorfodol ar gael drwy gais ysgrifenedig neu e-bost i unigolyn a enwir ar yr hysbysiad.
- 22.6 Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y dylid rhoi amser i awdurdodau caffael sicrhau bod eu gwefannau'n cynnwys y swyddogaethau angenrheidiol i allu prosesu cynlluniau ar raddfa fawr ac ati.
- 22.7 Roedd ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth/Sector Cyhoeddus Arall wedi amlinellu y dylid hefyd rhoi gwybod i gynghorau tref a chymuned yn yr ardal dan sylw.

C20 Ymateb Llywodraeth Cymru

Darparu copïau ffisegol o ddogfennau'r gorchymyn prynu gorfodol ar gais
Bydd y gofynion cyhoeddusrwydd presennol ar gyfer hysbysebu ymchwiliad cyhoeddus a amlinellir yn Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010, hy, hysbysiadau safle ffisegol, hysbysiadau unigol, hysbysiadau mewn papur newydd a gofynion adneuo yn cael eu cadw ochr yn ochr â'r gofyniad newydd i gyhoeddi dogfennau adneuo yn ddigidol. Bydd hyn yn gwella mynediad at ddogfennau gorchymynion prynu gorfodol â'r ymgysylltiad â nhw.

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw lleihau'r costau i awdurdodau caffael am ymgymryd â gorchymyn prynu gorfodol.

Mae'n gyffredin i gynlluniau mawr sy'n ymwneud â phrynu gorfodol gynhyrchu dogfennau manwl a hir. Petai'n rhaid i awdurdodau caffael ddarparu ac anfon copïau ffisegol o ddogfennau o'r fath ar gais, gallai hyn gynyddu'r galw ar adnoddau a chostau awdurdodau caffael. O'r herwydd, nid ydym yn cytuno y dylai fod yn ofyniad statudol i awdurdodau caffael ddarparu copïau ffisegol o ddogfennau gorchmynion prynu gorfodol ar gais.

Capasiti gwefan yr awdurdod lleol

Mae awdurdodau lleol yn meddu ar y profiad a'r adnoddau i gynhyrchu mapiau digidol manwl i'w gweld ar eu gwefannau.

Er enghraifft, dogfennau a mapiau sy'n rhan o Gynlluniau Datblygu Lleol neu geisiadau cynllunio unigol.

Hysbysu cynghorau cymuned a thref

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn rhoi arweiniad helaeth ac arferion gorau i awdurdodau caffael eu dilyn wrth ymgysylltu â chymunedau lleol a chyfathrebu â nhw drwy gydol y broses gorchmynion prynu gorfodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cynghorau cymuned a thref yn cael gwybod am gynigion gorchmynion prynu gorfodol o'r dechrau, adeg yr ymchwiliad a hyd at eu rhoi ar waith.

Y camau nesaf

- 22.8 Bydd y weithdrefn ymchwiliadau cyhoeddus yn cael ei diwygio er mwyn caniatáu i ddogfennau sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad gorchmynion prynu gorfodol (gan gynnwys mapiau cysylltiedig) gael eu hadneuo i'w harchwilio mewn lleoliadau ffisegol ac ar ffurf electronig ar wefannau awdurdodau caffael.
- 22.9 Bydd Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi a fydd yn rhoi arweiniad helaeth ac arferion gorau i awdurdodau caffael eu dilyn wrth ymgysylltu â chymunedau lleol a chyfathrebu â nhw drwy gydol y broses gorchmynion prynu gorfodol.

23. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 21

C21	Ydych chi'n cytuno y dylid diwygio'r drefn ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus i'w gwneud yn ofynnol bod hysbysiadau papur newydd a gyhoeddir o dan y drefn yn cael eu cyhoeddi yr un pryd yng nghopiau ffisegol a digidol (lle bo un) papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal lle mae tir y gorchymyn prynu gorfodol? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig bod hysbysiadau mewn papurau newydd dan y weithdrefn ymchwiliadau prynu gorfodol yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn y copi ffisegol a digidol (lle bo un) o'r papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal lle y lleolir tir y gorchymyn prynu gorfodol.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	2	0	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	2	2	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	5	0	0	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	5	0	0	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		18	3	2	2	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	21	2
Cyfanswm y Ganran	91%	9%

Adolygiad ystadegol

- 23.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol o blaid. Cafwyd gwrthwynebiadau gan ddau Awdurdod Cynllunio Lleol er nad oedd un Awdurdod Cynllunio Lleol wedi darparu sylwadau. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 23.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 21 fel a ganlyn:
- Consensws cyffredinol o blaid cyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd sy'n ymwneud ag ymchwiliadau cyhoeddus ar yr un pryd yn fersiynau ffisegol a digidol y papurau newydd.
 - Mynegwyd pryderon ynghylch costau ychwanegol cyhoeddi hysbysiad ffisegol a digidol mewn papur newydd.
 - Awgrymiadau ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd digidol yn unig.

Trosolwg

- 23.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Dywedodd un ymatebydd o'r sector Eraill fod cyfryngau digidol, yn ogystal â hysbysiad mewn papur newydd ffisegol, yn gallu helpu i roi gwybod am orchymyn prynu gorfodol. Dywedodd un ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol y dylai dulliau ffisegol a digidol gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu posibl â'r broses gorchmynion prynu gorfodol.
- 23.4 Cododd Awdurdod Cynllunio Lleol bryderon ynghylch y costau posibl a ysgwyddir gan awdurdodau caffael i gyhoeddi hysbysiadau ffisegol a digidol mewn papur newydd. Yn yr un modd, cadarnhaodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant y gall hysbysiadau mewn papurau newydd fod yn ddrud iawn. Hefyd, gallai cyhoeddi hysbysiadau digidol ochr yn ochr â hysbysiadau ffisegol mewn papurau newydd fod yn fan cychwyn ar gyfer trosglwyddo i system ddigidol fodern lle byddai hysbysiadau'n cael eu cyhoeddi'n electronig, er enghraifft, drwy gyfryngau cymdeithasol ac optio i mewn i dderbyn e-bost.
- 23.5 Awgrymodd Awdurdod Cynllunio Lleol y dylai hysbysiad safle a hysbysiad digidol fod yn ddigon ac ystyried dosbarthiad llai papurau newydd ffisegol. Yn yr un modd, mynegodd ymatebydd o'r sector Eraill y farn bod mwy o bobl leol yn defnyddio'r rhyngwrdd o'i gymharu â phrynu papur newydd ffisegol.

- 23.6 Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol fod cyhoeddi hysbysiad digidol mewn papur newydd ar-lein yn debygol o gynyddu'r costau hysbysebu i'r awdurdod caffael gan ei bod hi'n ddrud cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd.
- Awgrymodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai cyhoeddi fersiwn ddigidol o'r hysbysiad ar wefan yr awdurdod caffael yn ddigon neu ddatblygu porth gorchmynion prynu gorfodol Cymru gyfan a fyddai ar gael i'r cyhoedd a lle gellid llwytho hysbysiadau a dogfennau.

C21 Ymateb Llywodraeth Cymru

Costau cyhoeddi hysbysiad papur newydd ffisegol a digidol

Rydym yn cydnabod yr ymatebion i gwestiwn 21 a'r pryderon a godwyd ynghylch y costau ychwanegol posibl drwy gyhoeddi fersiynau ffisegol a digidol o hysbysiadau mewn papurau newydd. Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau costau ymgymryd â gorchmynion prynu gorfodol a dileu'r rhwystrau i ddefnyddio pwerau prynu gorfodol, rydym yn bwriadu diwygio ein cynnig i fynnu bod fersiwn ddigidol o hysbysiadau papur newydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan sy'n eiddo i awdurdod caffael ac yn cael ei chynnal ganddo yn hytrach nag mewn papur newydd ar-lein.

Cyhoeddi hysbysiadau ffisegol a digidol mewn papurau newydd

Rydym yn bwriadu cadw'r ddarpariaeth bresennol sy'n mynnu ei bod yn rhaid cyhoeddi hysbysiad o ymchwiliad cyhoeddus mewn papur newydd ffisegol o dan reol 13 Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010 ochr yn ochr â'n cynnig diwygiedig i gyhoeddi hysbysiad digidol ar wefan sy'n eiddo i awdurdod caffael ac yn cael ei chynnal ganddo.

Dileu'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd

Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw cynyddu ac ehangu ymgysylltiad â'r broses gorchmynion prynu gorfodol. Byddai dileu'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad o orchymyn prynu gorfodol mewn papur newydd ffisegol yn cael effaith negyddol ar ymgysylltu ac yn rhoi rhai aelodau o'r gymuned dan anfantais. Gallai hyn arwain at oblygiadau i awdurdodau caffael y sector cyhoeddus o ran cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os bydd aelodau o'r gymuned sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu rhoi dan anfantais.

Porth gorchmynion prynu gorfodol ar-lein

Un o uchelgeisiau hirdymor Llywodraeth Cymru yw mabwysiadu'r arfer o brosesu ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol lle mae gorchmynion prynu gorfodol a dogfennau cysylltiedig yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru a'u cyhoeddi ar borth ar-lein.

Y camau nesaf

- 23.7 Bydd y weithdrefn ymchwiliadau prynu gorfodol yn cael ei diwygio i fynnu bod awdurdodau caffael yn cyhoeddi hysbysiad o ymchwiliad cyhoeddus ar yr un pryd:
- (a) mewn papurau newydd sydd ar gael yn yr ardal lle y lleolir y tir sydd wedi'i gynnwys yn y gorchymyn; ac
 - (b) ar wefan y mae'r awdurdod caffael yn berchen arni ac yn ei chynnal.

24. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 22

C22	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig er mwyn cynnwys gofyniad y dylai arolygydd gynnal ymweliad safle o fewn 15 wythnos o'r dyddiad ar gyfer dechrau'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig i orchymyn prynu gorfodol? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylai arolygydd gynnal ymweliad safle cyn pen 15 wythnos i'r dyddiad ar gyfer dechrau'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	1	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	7	0	1	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	5	0	0	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	3	1	0	3	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		18	3	1	3	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	21	1
Cyfanswm y Ganran	95%	5%

Adolygiad ystadegol

- 24.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ac o'r Sector Gwirfoddol o blaid. Cafwyd gwrthwynebiad gan Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni wnaeth tri ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 24.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 22 fel a ganlyn:

- Consensws cyffredinol y bydd y terfyn amser arfaethedig ar gyfer ymweliadau safle yn rhoi eglurder ac yn helpu i gyflymu'r broses gorchmynion prynu gorfodol.
- Dylai'r terfyn amser ar gyfer ymweliadau safle fod yn fyrrach.
- Rhaid i arolygwyr gadw'r disgresiwn i ymweld â safle yn ôl yr angen.

Trosolwg

- 24.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Dywedodd un o ymatebwyr y Sector Gwirfoddol y byddai'r cynnig yn helpu i gyflymu'r broses gorchmynion prynu gorfodol ac yn rhoi mwy o sicrwydd i gymunedau. Yn yr un modd, dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill y dylid gwneud y diwygiad arfaethedig am resymau sy'n ymwneud ag eglurder a sicrhau bod y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn dod i ben yn brydlon.
- 24.4 Awgrymodd un o'r Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y dylid monitro'r amserlen arfaethedig a gwneud asesiad ynghylch a fyddai amserlen dynnach yn fwy priodol. Ar ben hynny, dylid ystyried 15 wythnos fel uchafswm.
- 24.5 Holodd un ymatebydd o'r sector Eraill a ddylid gostwng y terfyn amser i 12 wythnos. Yn yr un modd, dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol y dylai'r amserlen fod yn fyrrach gan fod y terfyn amser arfaethedig o 15 wythnos yn ymestyn y broses gorchymyn prynu gorfodol.
- 24.6 Nododd ymatebydd o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, er y byddai'r cynnig yn helpu i symleiddio'r broses gorchymyn prynu gorfodol, fod angen gofalu na ddiddymir disgresiwn arolygydd i ymweld â safle yn ôl yr angen a chynifer o weithiau ag sy'n ofynnol.

C22 Ymateb Llywodraeth Cymru

Terfyn amser

Mae'r terfyn amser arfaethedig o 15 wythnos ar gyfer cynnal ymweliad safle dan y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn seiliedig ar arferion sefydledig o dan weinyddiaethau y bydd ymarferwyr prynu gorfodol (hy asiantau, syrfewyr a chyfreithwyr) yn gyfarwydd â nhw. Bydd y terfyn amser arfaethedig o 15 wythnos yn uchafswm.

Disgresiwn yr Arolygydd

Bydd trefnu a chynnal ymweliadau safle o dan y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn dal yn benderfyniad i arolygwyr ei wneud. Fodd bynnag, o dan ein cynnig ni, yr unig gyfyngiad fydd y bydd yn rhaid i arolygwyr gwblhau eu hymweliad safle cyn pen 15 wythnos i ddyddiad dechrau'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.

Y camau nesaf

- 24.7 Bydd y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig prynu gorfodol yn cael ei diwygio er mwyn cynnwys gofyniad y dylai arolygydd gynnal ymweliadau safle cyn pen 15 wythnos i ddyddiad dechrau'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig i orchymyn prynu gorfodol.

25. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 23

C23	A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig er mwyn nodi mai'r dull rhagnodedig ar gyfer rhoi cydsyniad i ddefnyddio'r weithdrefn yw yr ystyrir bod pob gwrthwynebydd nad ymdriniwyd â'i wrthwynebiadau wedi rhoi ei gydsyniad oni fydd yn hysbysu Gweinidogion Cymru ei fod am i ymchwiliad cyhoeddus gael ei gynnal? Os na, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig diwygio'r dull penodedig ar gyfer rhoi cydsyniad i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig fel bod pob gwrthwynebydd nad ymdriniwyd â'i wrthwynebiadau wedi rhoi ei gydsyniad oni fydd yn hysbysu Gweinidogion Cymru ei fod am i ymchwiliad cyhoeddus gael ei gynnal.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	1	0	0	2
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	0	1	1	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	1	1	0	8
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	3	0	2	0	5
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	1	3	1	2	7
F	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	1	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		11	6	5	3	25

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	17	5
Cyfanswm y Ganran	77%	23%

Adolygiad ystadegol

- 25.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr o blith yr Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes, Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant o blaid. Cafwyd gwrthwynebiadau gan ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdod Cynllunio Lleol, ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant, a dau ymatebydd o'r sector Eraill. Ni wnaeth dau ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant nac un ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 25.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 23 fel a ganlyn:

- Rhaid ei gwneud yn glir i wrthwynebwyr, os ydynt yn dymuno cael eu clywed mewn ymchwiliad cyhoeddus, y bydd yn rhaid iddynt ddychwelyd eu ffurflen ganiatâd.
- Dylai fod angen caniatâd ysgrifenedig gan wrthwynebwyr i ddefnyddio sylwadau ysgrifenedig er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ynghylch eu bwriad.
- Mae angen bod yn ofalus os yw ffurflenni caniatâd yn cael eu cyflwyno drwy gyfathrebu electronig ac mae angen disgrisiwn.

Trosolwg

- 25.3 At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Awgrymodd un ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y dylid esbonio hyn yn glir iawn i'r holl wrthwynebwyr fel nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch sut caiff y penderfyniad ei wneud i ddefnyddio'r sylwadau ysgrifenedig, Dywedodd ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall y dylid darparu cadarnhad a thystiolaeth i gadarnhau'r camau a gymerwyd i roi gwybod i'r gwrthwynebydd y bydd y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn cael ei defnyddio. Dywedodd un Awdurdod Cynllunio Lleol fod ymchwiliadau cyhoeddus yn aml yn cael eu gweld fel rhywbeth i ddal pethau'n ôl felly mae'r rhagdybiaeth o ddefnyddio sylwadau ysgrifenedig yn newid cadarnhaol.
- 25.4 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y dylid gofyn i bob gwrthwynebydd ymateb i'r ffurflen ganiatâd os yw'n dymuno gweld ymchwiliad cyhoeddus yn cael ei gynnal. Yn yr un modd, awgrymodd un o'r Ymgynghorwyr Cynllunio / Busnes y dylai'r ffurflen ganiatâd benodedig fod mor syml a hawdd ei defnyddio â phosibl. Holodd yr ymatebydd hefyd a ellid ymestyn y cyfnod hysbysu o 14 i 21 diwrnod.
- 25.5 Roedd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant yn cytuno y byddai'r newid yn golygu na fyddai ymchwiliadau cyhoeddus diangen yn cael eu cynnal a byddai'n golygu bod rhagor o orchmynion prynu gorfodol yn cael eu trin drwy sylwadau ysgrifenedig. Dywedodd yr ymatebydd y bydd angen ei gwneud yn glir iawn i wrthwynebwyr bod angen ymateb rhagweithiol i'r ffurflen ganiatâd er mwyn gofyn am ymchwiliad cyhoeddus.
- 25.6 Dywedodd Awdurdod Cynllunio Lleol os caiff ffurflen ganiatâd ei hanfon yn electronig fod risg na fydd y gwrthwynebydd yn ei derbyn ac na ddylid cael cydsyniad tybiedig.

Yn yr un modd, amlinellodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant fod ansicrwydd ynghylch sicrhau bod gwrthwynebwyr yn ymwybodol o faterion, er enghraifft, os cyfyd materion megis peidio â derbyn gohebiaeth electronig. Ar ben hynny, mae'n dipyn o gam tybio cydsyniad ar gyfer y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig wrth ddelio â chaffael tir.

- 25.7 Dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill ei bod hi'n hanfodol bod tystiolaeth o'r penderfyniad i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig drwy ganiatâd ysgrifenedig y gwrthwynebwyr sydd ar ôl er mwyn sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch eu bwriad a dim tybiaethau ynghylch eu barn.
- 25.8 Awgrymodd ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall nad yw'r cyhoedd efallai'n llawn ddeall y goblygiadau mai'r sefyllfa ddiofyn yw'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig. Hefyd, ei bod hi'n well cael disgresiwn ynghylch pa bryd y gellir defnyddio'r broses hon, yn enwedig pan fydd gwrthwynebwyr yn methu ag ymateb.
- 25.9 Dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill y dylai fod yn rhaid i'r gwrthwynebwyr sydd ar ôl barhau i roi eu caniatâd ysgrifenedig.
- 25.10 Dywedodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol nad oedd wedi nodi ateb y naill ffordd na'r llall y byddai angen gofalu bod yr 14 diwrnod yn berthnasol hy bod ffactorau'n cael eu hystyried fel oedi yn y post neu fod pobl i ffwrdd. Hefyd, dylid gwneud y weithdrefn yn glir i drydydd partion cyn gynted ag y bo modd yn y broses er mwyn osgoi esgeulustod posibl.

C23 Ymateb Llywodraeth Cymru

Caniatâd ysgrifenedig gan y gwrthwynebwyr sydd ar ôl i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig

Cedwir y ddarpariaeth i anfon ffurflen ganiatâd at bob gwrthwynebydd sydd ar ôl dan Reoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004. Mae ein cynnig yn ymwneud â'r ffaith ei bod yn rhaid i'r rheini sy'n dal i wrthwynebu ddychwelyd eu ffurflen ganiatâd i Weinidogion Cymru gan amlinellu eu dymuniad i gael eu clywed mewn ymchwiliad cyhoeddus.

Rydym o'r farn y bydd ein cynnig yn caniatáu i'r rheini sy'n dal i wrthwynebu fynegi eu dewisiadau'n fwy hwylus ac y bydd yn dileu unrhyw amheuaeth ynghylch pa weithdrefn maent yn dymuno ei defnyddio i ystyried eu gwrthwynebiadau.

Caniatâd tybiedig ar gyfer defnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig a chyfathrebu electronig ddim yn cael ei dderbyn

Mae Rheoliad 12 Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 yn datgan fod modd cyflwyno dogfennau neu hysbysiadau drwy'r post neu drwy gyfathrebu electronig. Rydym yn cynnig diweddarau'r weithdrefn i wneud yn glir y bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n dymuno cael ffurflen ganiatâd drwy ddull electronig gyflwyno eu cais yn ysgrifenedig.

Rydym hefyd yn cynnig os bydd cyfeiriadau e-bost yn newid, neu os bydd rhywun yn dymuno tynnu ei ganiatâd yn ôl i ddefnyddio cyfathrebu electronig, y bydd yn rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig. Bydd yn rhaid i awdurdodau caffael gadw cofnod o gyflwyno ffurflenni caniatâd drwy gyfathrebu electronig fel prawf o ddanfon.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys yr arferion gorau ar gyfer awdurdodau caffael sy'n defnyddio'r cyfleuster 'cadarnhad derbyn/darllen' pan ddefnyddir e-bost i gyflwyno ffurflenni caniatâd er mwyn dangos prawf eu bod wedi'u danfon. Hefyd, bydd arferion gorau'n cael eu cynnwys ar gyfer awdurdodau caffael sy'n cyflwyno ffurflenni caniatâd dyblyg drwy'r post i sicrhau eu bod yn cael eu darparu ac i gyfyngu ar yr heriau cyfreithiol posibl i'r gorchymyn prynu gorfodol.

Cedwir y ddarpariaeth i anfon ffurflen ganiatâd at bob gwrthwynebydd sydd ar ôl dan Reoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004.

Mae ein cynnig yn ymwneud â'r ffaith ei bod yn rhaid i'r rheini sy'n dal i wrthwynebu ddychwelyd eu ffurflen ganiatâd i Weinidogion Cymru gan amlinellu eu dymuniad i gael eu clywed mewn ymchwiliad cyhoeddus.

Rydym o'r farn y bydd ein cynnig yn caniatáu i'r rheini sy'n dal i wrthwynebu fynegi eu dewisiadau'n fwy hwylus ac y bydd yn dileu unrhyw amheuaeth ynghylch pa weithdrefn maent yn dymuno ei defnyddio i ystyried eu gwrthwynebiadau.

Darparu tystiolaeth o'r penderfyniad i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig a'i chyfleu i wrthwynebwyr

Cedwir y ddarpariaeth i anfon ffurflen ganiatâd at bob gwrthwynebydd sydd ar ôl dan Reoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004. Mae ein cynnig yn ymwneud â'r ffaith ei bod yn rhaid i'r rheini sy'n dal i wrthwynebu ddychwelyd eu ffurflen ganiatâd i Weinidogion Cymru gan amlinellu eu dymuniad i gael eu clywed mewn ymchwiliad cyhoeddus.

Rydym o'r farn y bydd ein cynnig yn caniatáu i'r rheini sy'n dal i wrthwynebu fynegi eu dewisiadau'n fwy hwylus ac y bydd yn dileu unrhyw amheuaeth ynghylch pa weithdrefn maent yn dymuno ei defnyddio i ystyried eu gwrthwynebiadau.

Bydd Arolygiaeth Cynllunio Cymru yn parhau i gyfleu'r penderfyniad i bob parti ynghylch pa weithdrefn a ddefnyddir i ystyried gwrthwynebiadau i orchymyn prynu gorfodol.

Ymestyn y cyfnod hysbysu o 14 i 21 diwrnod

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw symleiddio'r broses gorchmynion prynu gorfodol a chael gwared ar rwystrau rhag defnyddio pwerau prynu gorfodol. O'r herwydd, rydym yn credu bod y dyddiad cau o 14 diwrnod ar gyfer dychwelyd ffurflenni caniatâd yn gymesur â'r camau sydd angen eu cymryd gan y sawl sy'n parhau i wrthwynebu.

Byddwn yn adolygu'r ffurflen ganiatâd benodedig sydd wedi'i chynnwys yn Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 i sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio a'i deall. Hefyd, bod y dull newydd o roi caniatâd i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn glir.

Sicrhau y cydymffurfir â'r cyfnod hysbysu 14 diwrnod

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys canllawiau ac arferion gorau i awdurdodau caffael eu dilyn er mwyn helpu'r sawl sy'n parhau i wrthwynebu i lynu wrth y dyddiad cau o 14 diwrnod ar gyfer dychwelyd ffurflenni caniatâd. Er enghraifft, caniatáu diwrnod ychwanegol ar gyfer derbyn ffurflen ganiatâd drwy'r post.

Bydd Arolygiaeth Cynllunio Cymru yn parhau i gyfleu'r penderfyniad i bob parti ynghylch pa weithdrefn a ddefnyddir i ystyried gwrthwynebiadau i orchymyn prynu gorfodol.

Cadw disgrisiwn i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig

Cedwir y ddarpariaeth i anfon ffurflen ganiatâd at bob gwrthwynebydd sydd ar ôl dan Reoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004.

Rydym o'r farn y bydd ein cynnig yn caniatáu i'r rheini sy'n dal i wrthwynebu fynegi eu dewisiadau'n fwy hwylus ac y bydd yn dileu unrhyw amheuaeth ynghylch pa weithdrefn maent yn dymuno ei defnyddio i ystyried eu gwrthwynebiadau.

Y camau nesaf

- 25.11 Bydd y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig ar gyfer prynu gorfodol yn cael ei diwygio er mwyn i'r dull penodedig ar gyfer rhoi cydsyniad i ddefnyddio'r weithdrefn fynnu bod pob gwrthwynebydd sydd ar ôl yn dychwelyd ffurflen ganiatâd at Weinidogion Cymru yn eu hysbysu eu bod yn dymuno cael eu clywed mewn ymchwiliad cyhoeddus.
- 25.12 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi a bydd yn rhoi canllawiau ac arferion gorau ynglŷn â'r ffordd newydd o roi caniatâd er mwyn defnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig a chyflwyno/dychwelyd ffurflenni caniatâd.
- 25.13 Bydd y ffurflen ganiatâd benodedig sydd wedi'i chynnwys yn Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 yn cael ei diwygio i sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio a'i deall.

26. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 24

C24	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag isod i wneud sylwadau os gwelwch yn dda.
Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i ymatebwyr wneud unrhyw sylwadau eraill sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad a oedd yn berthnasol yn eu barn nhw.	

Themâu allweddol

26.1 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 24 fel a ganlyn:

- Dylai awdurdodau caffael ymgysylltu'n gynnar a gweithio'n agos gyda phartïon yr effeithir arnynt a'r gymuned ehangach.
- Dylai awdurdodau caffael sicrhau yr ymgynghorir â phob aelod o'r gymuned wrth werthuso effeithiau gorchymyn prynu gorfodol.
- Efallai y bydd rhai o'r cynigion yn rhoi gwrthwynebwyr a phartïon sydd â buddiant dan anfantais, ac efallai y byddant yn mynd yn groes i'r nod cyffredinol o symleiddio'r broses gorchmynion prynu gorfodol.
- Mae costau gweithredu gorchymyn prynu gorfodol yn rhwystro awdurdodau lleol rhag defnyddio eu pwerau prynu gorfodol.
- Dylid adolygu hysbysiadau penodedig.
- Dylid gosod Dyletswydd Gofal ar awdurdodau caffael i leihau'r effaith ar hawlwr.
- Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau caffael dalu iawndal yn brydlon.

Trosolwg

26.2 Amlinellodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant y byddai'n hoffi gweld profiad hawlwr yn gwella, gan gynnwys:

- ymgysylltu cynnar gwell gan awdurdodau caffael,
- rhannu tystiolaeth brisio yn fwy agored a thalu'n brydlon am yr hawliau sy'n cael eu caffael, a
- rhoi'r hawlwr wrth galon y broses.

Hefyd, y dylai awdurdodau caffael fod yn ymwybodol o'r tarfu difrifol y gall gorchymyn prynu gorfodol ei gael ar fusnesau ffermio. Er enghraifft, mewn nifer o achosion dim ond rhan o'r fferm fydd yn cael ei chaffael ac ni fydd y busnes (sydd wedi'i adeiladu dros genedlaethau yn aml) yn adleoli ond yn aros yn ei le drwy'r cyfnod adeiladu ac yn bodoli ochr yn ochr â'r cynllun. Roedd yr ymatebydd hefyd wedi nodi y dylai awdurdodau caffael gyllidebu'n realistig ar gyfer costau cyngor proffesiynol fel nad yw hawlwr dan anfantais a'u bod yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer ffioedd proffesiynol sy'n deillio o ymgysylltu'n gynnar â phartïon yr effeithir arnynt.

26.3 Roedd ymatebydd o blith Asiantaethau'r Llywodraeth/Sector Cyhoeddus Arall wedi dweud bod angen i awdurdodau caffael weithio'n agosach gyda chynghorau tref a chymuned a pharchu eu gwerth.

- 26.4 Roedd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant wedi sôn y dylai awdurdodau caffael roi blaenoriaeth iddynt i wella'r ddarpariaeth o dai cymdeithasol hygyrch o ansawdd uchel a sicrhau bod pobl anabl yn gallu cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymuned. Hefyd, dylid ystyried pobl anabl gan fod yr amgylchedd adeiledig o'u cwmpas yn cael effaith anghymesur arnynt yn aml, a dylid ei ystyried yn gyfle i gynyddu ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth pobl anabl mewn cymuned.
- 26.5 Roedd ymatebydd arall o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant wedi sôn y dylid gofalu i sicrhau nad yw'r rheini heb fynediad i'r rhynggrwyd dan anfantais oherwydd y cynigion sy'n cael eu hamlinellu yn yr ymgynghoriad. Roedd yr ymatebydd hefyd wedi codi pryderon y gallai rhai o'r cynigion roi gwrthwynebwyr a phartïon sydd â buddiant dan anfantais oherwydd y newidiadau i amseru cyflwyno Datganiadau Achosion. Hefyd, gall y gallu i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi llythyrau dyddiad perthnasol fynd yn groes i'r nod o symleiddio proses y gorchymyn prynu gorfodol.
- 26.6 Roedd Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cadarnhau mai cost sylweddol yw'r gofynion hysbysebu mewn papurau newydd oherwydd maint yr hysbysiadau a bod awdurdodau lleol yn rheoli eu costau drwy gyhoeddi'r hysbysiad penodedig yn y ffont lleiaf sydd ar gael. Roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gofyn i'r hysbysiad papur newydd penodedig gael ei adolygu gan nad yw'n hawdd ei ddefnyddio ac mae faint o fanylion sydd i'w cynnwys yn gallu codi'r costau cyhoeddi.
- 26.7 Roedd ymatebydd o'r sector 'Eraill' wedi amlinellu bod eu cyngor wedi oedi cynllun hyd yn oed ar ôl iddo benderfynu bwrw ymlaen â gorchymyn prynu gorfodol oherwydd costau ei weithredu ac mae angen rhoi sylw i hyn.
- 26.8 Dywedodd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant fod angen rhoi Dyletswydd Gofal statudol ar awdurdodau caffael er mwyn lleihau'r effeithiau ar hawlwr, gan gynnwys o'r ymgynghoriad cyntaf, hyd at y gwrandawriad a'r cam adeiladu. Ar ben hynny, dylai hyn gael ei ategu gan broses gyflym i gyfeirio anghydfodau at arbenigwr annibynnol i'w datrys. Roedd yr ymatebydd yn dweud y byddai hyn yn gwella prosesau cyfathrebu awdurdodau caffael ac yn helpu i leihau'r effeithiau ar hawlwr. Dywedodd yr ymatebydd hefyd ei bod yn bwysig bod iawndal yn cael ei dalu'n brydlon i hawlwr a'i fod mor agos at yr amser pan fydd colledion yn codi oherwydd nad yw hawliadau terfynol yn cael eu setlo'n aml am flynyddoedd lawer ar ôl cwblhau'r cynllun, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n rhaid i'r hawlydd dalu'r gost. Hefyd, dylai awdurdodau caffael dalu iawndal ymlaen llaw cyn iddynt gymryd meddiant neu fynd ar y tir (pa un bynnag sydd gyntaf) ac nid yw cyfradd llog statudol o 0% yn rhoi unrhyw gymhelliant i gaffaelwyr setlo hawliadau am iawndal yn gyflym sy'n rhoi gormod o bwysau ariannol ac emosiynol ar yr hawlydd.
- 26.9 Roedd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant wedi gofyn am esboniad ynghylch a fydd cysylltiadau'n cael eu gwneud gyda'r broses gorchymyn prynu gorfodol a phroses Cydsynio Seilwaith arfaethedig Cymru wrth fynd drwy Lywodraeth Cymru.
- 26.10 Dywedodd ymatebydd o'r sector 'Eraill' y dylai'r broses gorchymynion prynu gorfodol ddechrau'n awtomatig os yw tir a/neu anheddau wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy.

- 26.11 Dywedodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol fod rhywfaint o ailadrodd yng nghwestiynau'r ymgynghoriad, a holodd a fyddai nifer y cwestiynau a ofynnwyd fod wedi golygu nad oedd pobl eisiau cymryd rhan.

C24 Ymateb Llywodraeth Cymru

Ymgysylltu a gweithio'n agos gyda phartïon yr effeithir arnynt a'r gymuned ehangach

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn rhoi arweiniad ac arferion gorau i awdurdodau caffael eu dilyn wrth ymgysylltu â chymunedau lleol a chyfathrebu â phawb y mae gorchymyn prynu gorfodol yn effeithio arnynt. Bydd hyn yn golygu bod awdurdodau caffael:

- yn ymgysylltu'n gynnar â phobl sydd â buddiant mewn tir a'r gymuned ehangach,
- yn rhannu'r dystiolaeth prisio â chynghorwyr proffesiynol,
- yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu ffioedd proffesiynol
- yn talu iawndal yn brydlon, ac
- y gwahanol ddulliau o ymgynghori y gellir ymgymryd â nhw (yn ddigidol ac wyneb yn wyneb).

Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol hefyd yn darparu canllawiau technegol ac arferion gorau i awdurdodau caffael eu hystyried wrth brynu buddiannau busnes neu denant amaethyddol yn orfodol.

Mae ein cynigion yn canolbwyntio ar symleiddio'r broses gorchmynion prynu gorfodol a chynyddu'r ymgysylltu ag adran ehangach o'r gymuned. Mae ein hymateb, a amlinellir yn yr adroddiad hwn, i awgrymiadau o ddiwygiadau eraill a gyflwynwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn, yn enwedig ynghylch cyfathrebu electronig a chyhoeddi hysbysiadau papur newydd digidol yn unig, yn adlewyrchu'r effaith anghymesur bosibl y gallent ei chael ar bobl â nodweddion gwarchodedig a'r rheini sydd â mynediad gwael neu ddim mynediad at y rhynggrwyd. Lle rydym o'r farn y byddai'r diwygiadau a awgrymwyd gan ymatebwyr yn cael effaith negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig neu eraill yn ein cymunedau, maent wedi cael eu gwrthod.

Anfanteision posibl y diwygiadau arfaethedig i wrthwynebwyr

Er y gallai ein cynnig i ganiatáu i Weinidogion Cymru ymestyn y dyddiad cau ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ymchwiliad cyhoeddus oedi'r broses o drefnu'r ymchwiliad cyhoeddus, dylid cydbwysu hyn â'r posibilrwydd o gwtogi hyd ymchwiliad cyhoeddus. Er enghraifft, os caniateir mwy o amser i awdurdod caffael ystyried ac ymateb/trafod â gwrthwynebwyr, gallai hyn helpu i leihau nifer y materion sydd i'w harchwilio yn yr ymchwiliad cyhoeddus. Gallai ein cynnig hefyd helpu i leihau cost gyffredinol gorchymyn prynu gorfodol i awdurdodau caffael a gwrthwynebwyr os cwtogir hyd yr ymchwiliad cyhoeddus.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch caniatáu cyfnod ymestyn penagored, ac wrth ymroi i symleiddio'r broses gorchmynion prynu gorfodol, byddwn yn diwygio ein cynnig er mwyn galluogi i Weinidogion Cymru gael estyniad o 3 wythnos i'r cyfnod y mae'n rhaid iddynt roi hysbysiad ysgrifenedig o ymchwiliad cyhoeddus o dan reolau presennol rhif 3 yn Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol a fydd yn cynnwys canllawiau ar sut bydd y dull newydd yn gweithio, gan gynnwys enghreifftiau o'r amgylchiadau lle gellir ymestyn y dyddiad cau ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ymchwiliad cyhoeddus.

Mewn perthynas â'n cynnig ar gyfer cyflwyno Datganiadau o Achosion lle na chynhelir cyfarfod cyn-ymchwiliad. Rydym o'r farn bod yr amseriadau o dan y rheolau presennol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau caffael gyflwyno Datganiadau o Achosion cyn pen 6 wythnos i'r dyddiad perthnasol, yn gyfyngol. Fodd bynnag, er ein bod wedi ymrwymo i ddiwygio'r rheolau presennol o hyd, rydym yn cydnabod y pryderon y byddai ein cynnig gwreiddiol wedi rhoi llai o amser i wrthwynebwyr baratoi tystiolaeth mewn ymateb i Ddatganiad Achos awdurdod caffael, a allai fod wedi eu rhoi dan anfantais.

I gydbwyso tegwch yn erbyn dileu rhwystrau i ddefnyddio pwerau prynu gorfodol drwy osod llai o gyfyngiadau ar adnoddau awdurdodau caffael, byddwn yn diwygio ein cynnig er mwyn:

- Rhoi 4 wythnos ychwanegol i awdurdodau caffael baratoi a chyflwyno eu Datganiadau Achosion pan na chynhelir cyfarfod cyn-ymchwiliad rheol 4, hy, bydd yn rhaid i awdurdodau caffael gyflwyno eu Datganiadau Achosion cyn pen 10 wythnos i'r dyddiad perthnasol yn lle'r 6 wythnos sydd ar gael o dan y weithdrefn bresennol ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus prynu gorfodol.
- Bydd gwrthwynebwyr yn cael 9 wythnos i ystyried Datganiad Achos awdurdod caffael cyn cyflwyno prawf y dystiolaeth i'r arolygydd yn lle'r 13 wythnos sydd ar gael o dan y weithdrefn bresennol ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus prynu gorfodol. Bydd y cyfnod hwn hefyd ar gael i awdurdodau caffael ystyried a pharatoi ymateb i Ddatganiad Achos gwrthwynebydd os caiff un ei gyflwyno.

Costau ymgymryd â gorchymyn prynu gorfodol

Rydym yn cydnabod y gall costau ymgymryd â gorchymyn prynu gorfodol rwystro awdurdodau lleol rhag defnyddio eu pwerau prynu gorfodol.

Fel rhan o'n agenda diwygio ar gyfer cryfhau'r defnydd o orchmynion prynu gorfodol a dileu'r rhwystrau i ddefnyddio pwerau prynu gorfodol yng Nghymru, byddwn yn ymgymryd â phrosiect i ddatblygu a bwrw ymlaen ag opsiynau ar gyfer lleihau costau ymgymryd â gorchmynion prynu gorfodol. Rydym yn awyddus i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid i ddeall y mater a datblygu ateb sy'n adlewyrchu'r materion yn y maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli i Weinidogion Cymru.

Un o'r opsiynau posibl fydd symleiddio'r hysbysiad papur newydd penodedig.

Rhoi Dyletswydd Gofal ar awdurdodau caffael

Mae nifer o ddyletswyddau statudol eisoes yn bodoli ar gyfer awdurdodau caffael y sector cyhoeddus ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw wrth ddefnyddio eu pwerau prynu gorfodol. Ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol") sy'n rhoi dyletswydd arnynt i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru wrth arfer eu swyddogaethau er mwyn cyflawni saith nod llesiant cyffredinol.

I ddangos bod saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael eu hystyried, rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried y 'Pum Ffordd o Weithio' sydd yn y Ddeddf wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau, gan gynnwys prynu gorfodol. Un o'r 'Pum Ffordd o Weithio' yw "cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt".

O ystyried bodolaeth y ffordd statudol hon o weithio, nid ydym yn credu bod angen gosod dyletswydd statudol arall ar awdurdodau caffael yn y sector cyhoeddus sy'n mynnu eu bod yn lleihau'r effeithiau ar hawlwr drwy gydol y broses gorchmynion prynu gorfodol.

Iawndal: Datrys anghydfodau'n gyflymach a thalu'n brydlon

Rydym wedi nodi sylwadau ymatebwyr ar yr angen i dalu iawndal yn brydlon ac i setlo hawliadau am iawndal yn hwylus. Fodd bynnag, nid yw materion sy'n ymwneud ag iawndal tir o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Gweinidogion Cymru. Bydd y sylwadau'n cael eu codi gyda Llywodraeth y DU fel rhan o unrhyw ddiwygiadau y bydd yn eu gwneud yn y dyfodol i'r drefn iawndal tir sy'n effeithio ar Gymru a Lloegr.

Mewn perthynas â datrys anghydfodau ynghylch iawndal yn gyflymach. Mae Cylchlythyr 003/2019 Llywodraeth Cymru: Prynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)' yn hybu, yn annog ac yn darparu canllawiau ar ddefnyddio technegau amgen o ddatrys anghydfod drwy gael awdurdodau i ddod i gytundeb â hawlwr ynghylch anghydfodau cyn iddynt gael eu hatgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys annibynnol (Siambwr Tir) i gael penderfyniad.

Bydd y canllawiau hyn yn cael eu gwella ymhellach gan y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol y byddwn yn ei gyhoeddi, a fydd yn cynnwys yr arferion gorau o ran defnyddio technegau amgen i ddatrys anghydfodau ynghylch iawndal yn fwy hwylus cyn atgyfeirio achosion i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tir).

Cysylltiadau rhwng y broses gorchmynion prynu gorfodol a'r broses Cydsynio Seilwaith Cymru arfaethedig

Pan fydd y broses Cydsynio Seilwaith Cymru arfaethedig yn mynd rhagddi ac yn cael ei sefydlu, bydd cysylltiadau'n cael eu gwneud â'r broses gorchmynion prynu gorfodol.

Mae Cylchlythyr 003/2019 Llywodraeth Cymru: Prynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)' yn cael eu diweddarau yn unol â hyn.

Rôl cynghorau cymuned a thref

Rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed am hyrwyddo rôl cynghorau cymuned a thref mewn materion llywodraeth leol.

O ran prynu gorfodol, mae adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu pŵer cyffredinol i awdurdodau lleol gaffael tir yn orfodol (yn amodol ar gyfyngiadau penodol) ar ran cynghorau cymuned a thref nad ydynt yn gallu prynu'r tir sydd ei angen at ddiben swyddogaeth statudol drwy gytundeb.

Mae Cylchlythyr 003/2019 Llywodraeth Cymru: Prynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)' yn darparu'r canllawiau diweddaraf a diwygiedig i awdurdodau lleol eu dilyn mewn perthynas ag arfer pŵer prynu gorfodol adran 125.

Er mwyn ehangu'r dibenion y gall awdurdodau lleol gaffael tir yn orfodol ar eu cyfer (yn amodol ar gyfyngiadau penodol) ar ran cynghorau tref a chymuned, byddai angen diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n sail i swyddogaethau statudol cynghorau cymuned a thref. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol a fyddai'n caniatáu i gynghorau cymuned neu dref cymwys wneud unrhyw beth ar yr amod eu bod yn gweithredu'n rhesymol, ar wahân i'r gweithgareddau hynny sydd wedi'u gwahardd yn benodol gan ddeddfwriaeth arall. Gall dyfodiad Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ar gyfer cynghorau cymuned a thref cymwys fod yn gyfrwng deddfwriaethol priodol i ehangu'r dibenion y gall awdurdodau lleol gaffael tir yn orfodol ar eu cyfer ar ran cynghorau cymuned a thref.

Cychwyn y broses prynu gorfodol yn awtomatig lle mae tir a/neu anheddau wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy

Heb sefydlu achos cryf er budd y cyhoedd i gyfiawnhau defnyddio pwerau prynu gorfodol ac ymyrryd â hawliau'r rheini sydd â buddiant mewn tir, mae awdurdodau caffael yn debygol o fod yn torri'r Confensiwn ar Hawliau Dynol. Hefyd, mae'n bolisi cenedlaethol i awdurdodau caffael brynu tir/eiddo drwy gytundeb yn y lle cyntaf, lle bynnag y bo modd, cyn ystyried defnyddio eu pwerau prynu gorfodol. Lle na chyflwynir tystiolaeth o ymdrechion i brynu tir/eiddo drwy gytundeb gan awdurdodau caffael, gellir gwrthod gorchymyn prynu gorfodol.

Rydym felly'n gwrthod yr awgrym i gychwyn proses prynu gorfodol yn awtomatig lle mae tir a/neu anheddau wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy.

Hyd yr ymgynghoriad

Gyda golwg ar gynyddu ymgysylltiad mewn ymgynghoriadau sy'n ymwneud â diwygiadau prynu gorfodol, byddwn yn ystyried grwpio cwestiynau dan wahanol benawdau thema ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Y camau nesaf

- 26.12 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi a bydd yn rhoi canllawiau ac arferion gorau ar gyfer y canlynol:
- ymgysylltu a chyfathrebu â phawb y mae gorchymyn prynu gorfodol yn effeithio arnynt;
 - darparu cyngor proffesiynol i hawlwyd a gwneud darpariaeth ar gyfer talu ffioedd proffesiynol yn gynnar;
 - buddiannau prynu busnes amaethyddol neu denant; a
 - defnyddio technegau amgen i ddatrys anghydfodau ynghylch iawndal yn fwy hwylus cyn atgyfeirio achosion i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tir).
- 26.13 Bydd ein cynnig i ganiatáu i Weinidogion Cymru ymestyn y dyddiad cau ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ymchwiliad cyhoeddus yn cael ei ddiwygio er mwyn caniatáu estyniad o ddim mwy na 3 wythnos.
- 26.14 Bydd ein cynnig ar gyfer cyflwyno Datganiadau o Achosion lle na chynhelir cyfarfod cyn-ymchwiliad yn cael ei ddiwygio, a fydd yn golygu ei bod yn ofynnol i awdurdodau caffael gyflwyno eu Datganiad o Achosion cyn pen deg wythnos i'r dyddiad perthnasol.
- 26.15 Ymgwymerir â phrosiect i ddatblygu a gweithredu opsiynau ar gyfer lleihau costau ymgymryd â gorchymyn prynu gorfodol yng Nghymru. Un opsiwn i'w archwilio fydd symleiddio'r hysbysiad papur newydd penodedig yn Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004.
- 26.16 Ystyrir y posibilrwydd o ehangu'r dibenion y gall awdurdodau lleol gaffael tir yn orfodol ar eu cyfer ar ran cynghorau cymuned a thref.

27. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 25

C25	Hoffem gael gwybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion i wneud y canlynol: (a) moderneiddio pwerau a gweithdrefnau prynu gorfodol statudol wedi'u hategu gan ddeddfwriaeth sylfaenol, (b) gwella prosesau technegol er mwyn symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus a sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â phrynu gorfodol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?
	Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i ymatebwyr amlinellu pa effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Themâu allweddol

27.1 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 25 fel a ganlyn:

- Dylid caniatáu i'r rheini sy'n gwrthwynebu gorchymyn prynu gorfodol ofyn am ddogfennau neu wrandawiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dylai pob dogfen gael ei chyhoeddi'n ddwyieithog ac ni ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Trosolwg

- 27.2 Dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill, os yw gwrthwynebydd yn gofyn am ddogfennau gorchymynion prynu gorfodol yn Gymraeg a bod y gwrandawriad gael ei gynnal yn Gymraeg, yna dylid caniatáu iddo wneud hynny.
- 27.3 Dywedodd ymatebydd arall o blith Asiantaethau'r Llywodraeth/Sector Cyhoeddus, ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol, ac Awdurdod Cynllunio Lleol, cyn belled â bod hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, na ddylai'r Gymraeg fod dan unrhyw anfantais ac felly na ddylai hyn gael unrhyw effaith.
- 27.4 Nododd Awdurdod Cynllunio Lleol arall ei bod yn bwysig bod dogfennau gorchymyn prynu gorfodol yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg os gofynnir amdanynt ac y dylid annog hynny, ynghyd â'r cyfle i fynd i gyfarfodydd neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn Gymraeg.
- 27.5 Nododd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Hefyd, rhaid i'r cynigion sicrhau bod y Gymraeg yn mynd law yn llaw ag ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu oherwydd mae'n glir y gall peidio â chyfathrebu â phobl yn eu hiaith gyntaf beryglu darpariaeth gwasanaethau.

C25 Ymateb Llywodraeth Cymru

Pan ofynnir i ymchwiliad cyhoeddus i orchymyn prynu gorfodol gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, trefnir cyfleusterau cyfieithu gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru.

Bydd unrhyw ddiwygiadau a wnawn i'r ffurfiau rhagnodedig sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog – yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn yr un modd, byddwn yn cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau i'r rheolau ar gyfer gweithdrefnau ymchwiliadau cyhoeddus i brynu gorfodol ac i'r rheoliadau ar gyfer y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol, sy'n cynnwys dogfennau templed ac enghreifftiol ar gyfer gorchmynion prynu gorfodol, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Y camau nesaf

- 27.6 Bydd diwygiadau i'r ffurfiau rhagnodedig ar gyfer prynu gorfodol sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004, a'r rheolau diwygiedig ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus i brynu gorfodol a rheoliadau diwygiedig y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 27.7 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol, a fydd yn cynnwys templedi ac enghreifftiau o ddogfennau gorchmynion prynu gorfodol, yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

28. Crynodeb o'r Ymatebion – Cwestiwn 26

C26	Esboniwch hefyd, yn eich barn chi, sut y bydd y cynigion yn gwneud y canlynol: (a) moderneiddio pwerau a gweithdrefnau prynu gorfodol statudol wedi'u hategu gan ddeddfwriaeth sylfaenol, (b) gwella prosesau technegol er mwyn symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus a sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â phrynu gorfodol gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
	Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i ymatebwyr nodi sut y gellid newid y cynigion er mwyn cael: • effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a • dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Themâu allweddol

28.1 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 26 fel a ganlyn:

- Mae'r cynigion yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Dylid caniatáu i'r rheini sy'n gwrthwynebu gorchymyn prynu gorfodol ofyn am ddogfennau neu wrandawiaid yn Gymraeg.
- Dylai pob dogfen gael ei chyhoeddi'n ddwyieithog ac ni ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Trosolwg

- 28.2 Dywedodd ymatebydd o'r sector Eraill, os yw gwrthwynebydd yn gofyn am ddogfennau gorchymynion prynu gorfodol yn Gymraeg a bod y gwrandawriad gael ei gynnal yn Gymraeg, yna dylid caniatáu iddo wneud hynny.
- 28.3 Dywedodd ymatebydd arall o blith Asiantaethau'r Llywodraeth/Sector Cyhoeddus ac Awdurdod Cynllunio Lleol, cyn belled â bod hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, na ddylai'r Gymraeg fod dan unrhyw anfantais ac na ddylai hyn gael unrhyw effaith.
- 28.4 Nododd Awdurdod Cynllunio Lleol arall fod y diwygiadau arfaethedig yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ddogfennau gorchymynion prynu gorfodol gael eu llunio yn Gymraeg heb unrhyw oedi i'r gweithdrefnau.

- 28.5 Nododd ymatebydd o blith y Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Hefyd, rhaid i'r cynigion sicrhau bod y Gymraeg yn mynd law yn llaw ag ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu oherwydd mae'n glir y gall peidio â chyfathrebu â phobl yn eu hiaith gyntaf beryglu darpariaeth gwasanaethau.

C26 Ymateb Llywodraeth Cymru

Pan ofynnir i ymchwiliad cyhoeddus i orchymyn prynu gorfodol gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, trefnir cyfleusterau cyfieithu gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru.

Bydd unrhyw ddiwygiadau a wnawn i'r ffurfiau rhagnodedig sydd wedi'u cynnwys Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog – yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn yr un modd, byddwn yn cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau i'r rheolau ar gyfer gweithdrefnau ymchwiliadau cyhoeddus i brynu gorfodol ac i'r rheoliadau ar gyfer y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol, sy'n cynnwys dogfennau templed ac enghreifftiol ar gyfer gorchmynion prynu gorfodol, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Y camau nesaf

- 28.6 Bydd diwygiadau i'r ffurfiau rhagnodedig ar gyfer prynu gorfodol sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004, y rheolau diwygiedig ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus i brynu gorfodol a rheoliadau diwygiedig y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 28.7 Bydd y Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol, a fydd yn cynnwys templedi ac enghreifftiau o ddogfennau gorchmynion prynu gorfodol, yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

ATODIAD A - RHESTR O'R YMATEBWYR

Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio		Awdurdodau Cynllunio Lleol	
008	Ddienw	003	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
021	Associated British Ports (ABP)	005	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Arall		006	Cyngor Sir Caerfyrddin
001	Ddienw	010	Cyngor Gwynedd
002	Cymdeithas Preswylwyr Lleol	011	Parc Cenedlaethol Eryri
004	Joan a John Filce	012	Ddienw
019	Ddienw	014	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
023	NFU Cymru	018	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant		Y Sector Gwirfoddol	
007	Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol (CAAV)	022	Cymorth Cynllunio Cymru
013	Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr	Government Agency / Other Public Sector	
015	Sustrans Cymru	009	Ynysybwl & Coed-Cwm Community Council
016	CLA Cymru	024	Glandŵr Cymru
017	Anabledd Cymru		
020	RTPI Cymru		
025	Y Gymdeithas Prynu Gorfodol		

At ddibenion diogelu data, mae enwau a chyfeiriadau'r ymatebwyr hynny nad oeddent am gael eu henwi wedi cael eu dileu o'r mynegai uchod ac o'r ymatebion cyhoeddedig i'r ymgynghoriad.